



Adnoddau Cynllunio'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru

Chwefror 2026



RTPI Cymru

Royal Town Planning Institute
Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI)

Mae'r RTPI yn hyrwyddo pŵer cynllunio i greu lleoedd llewyrchus a chymunedau bywiog. Mae gennym dros 27,000 o aelodau yn y sectorau preifat, cyhoeddus, academiaidd a gwirfoddol. Gan ddefnyddio ein harbenigedd a'n hymchwil rydym yn dod â thystiolaeth ac yn arwain agweddau i lywio meddwl a pholisïau cynllunio, gan roi'r proffesiwn wrth wraidd dadleuon mawr cymdeithas. Rydym yn gosod y safonau ar gyfer cynllunio addysg ac ymddygiad proffesiynol sy'n rhoi gallu unigryw i'n haelodau, lle bynnag y maent yn gweithio yn y byd, i wynebu heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cymhleth. Ni yw'r unig gorff yn rhoi statws Siartredig i gynllunwyr, y cymhwyster proffesiynol uchaf, y mae cyflogwyr yn y sectorau preifat a chyhoeddus yn chwilio amdano.

Mae RTPI Cymru yn cynrychioli'r RTPI yng Nghymru, gyda thua 1,300 o aelodau.

Ynglŷn â'r papur hwn

Comisiynwyd yr ymchwil hwn gan Lywodraeth Cymru, a'i wneud gan RTPI Cymru. Mae'n cwmpasu'r adnoddau a'r capasiti presennol mewn gwasanaethau cynllunio'r sector cyhoeddus yng Nghymru, gan ddarparu sylfaen dystiolaeth gyfredol i lywio a llunio ymyriadau ac atebion yn y dyfodol.

Mae'r ymchwil yn cwmpasu'r 25 Awdurdod Cynllunio Lleol, Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC), Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru a swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gysylltiedig â chynllunio.

Awduron yr adroddiad

Mark Hand MRTPI, Cyfarwyddwr Proffesiwn, Rhyngwladol, Cymru a Gogledd Iwerddon

Rhian Brimble MRTPI, Swyddog Polisi, Ymarfer ac Ymchwil RTPI Cymru

Archie Closier, Cynorthwydd Polisi Cynllunio RTPI Cymru

Olivia Gibson, Dadansoddwr Polisi a Data RTPI

Georgina Nee, Cynorthwydd Polisi Cynllunio RTPI Cymru

Diolchiadau

Mae RTPI Cymru yn ddiolchgar am fewnbwn pawb a gymerodd ran yn yr ymchwil hwn, yn enwedig cynrychiolwyr Awdurdodau Cynllunio Lleol, PCAC, CNC ac Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru, a gyfrannodd ddata, safbwyntiau, syniadau ac amser sylweddol i'r prosiect. Diolch hefyd i gynrychiolwyr y Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CJC), aelodau Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac ysgolion cynllunio prifysgol achrededig RTPI am eu cyfraniad at lunio'r drafodaeth a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

Hoffem ddiolch i Candice Coombs a Sarah Toomer o Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru am eu harweiniad wrth gynnal yr ymchwil hwn.

Am ragor o wybodaeth am y papur hwn, cyswllt yr adroddiad Rhian Brimble MRTPI: walespolicy@rtpi.org.uk

Delwedd y clawr: Delwedd gan [Satheesh Sankaran](#) o [Pixabay](#)

Cynnwys

Ynglŷn â'r papur hwn	1
Awduron yr adroddiad.....	1
Diolchiadau	2
Cynnwys	3
Crynodeb gweithredol	5
Diffiniadau.....	17
1. Cyflwyniad	19
Cefndir a chyd-destun.....	19
Diben ac amcanion	19
Methodoleg	20
2. Ymchwil a thystiolaeth bresennol	25
3. Cyllidebau	34
Cyllidebau Awdurdodau Cynllunio Lleol.....	34
Cyllideb Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru.....	54
Cyllideb PCAC	55
Cyllideb CNC	56
4. Gweithlu presennol	58
Gweithlu'r Awdurdod Cynllunio Lleol	58
Gweithlu Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru.....	69
Gweithlu PCAC.....	73
Gweithlu CNC	74
5. Recriwtio	79
Recriwtio a chadw o fewn ACLlau	79
Dulliau hysbysebu swyddi.....	84
Recriwtio a chadw staff PCAC	89
6. Cyflogau.....	91
Cyflogau cynllunio y DU.....	91
Cyflogau cynllunio yng Nghymru	93
Cymharu cyflogau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat	94
7. Gweithlu'r dyfodol a chynllunio ar gyfer olyniaeth	96
Proffil oedran cynllunio'r sector cyhoeddus.....	96
Proffil oedran CNC.....	101
8. Sgiliau a chapasiti	102

Sgiliau a chapasiti ACLlau:	102
Nodi a mynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau a chapasiti	106
Dosbarthiad gofodol bylchau mewn sgiliau a chapasiti arbenigol	111
Defnydd presennol o gydwasanaethau	143
Defnydd presennol o wasanaethau ymgynghori	144
ACLI: Cyllidebau hyfforddi presennol	145
Adnoddau i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CJCs)	147
Sgiliau a chapasiti Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru	149
Sgiliau a chapasiti PCAC	150
Sgiliau a chapasiti CNC:	153
Bylchau sgiliau yn y dyfodol ac anghenion hyfforddi	155
9. Datblygu'r proffesiwn	157
Ysgolion cynllunio	160
Prentisiaethau a bwrsariaethau yng Nghymru	163
Astudiaethau Achos: Bwrsariau gyda Phrifysgol Caerdydd, Ysgol	163
Astudiaeth achos: Rhaglen Llwybrau i Gynllunio CLILC yng Nghymru	165
10. Gwasanaeth cynllunio effeithiol: casgliadau ac argymhellion	168
11. Argymhellion	174
Argymhelliad 1: Sefydlu seinfwrdd	174
Argymhelliad 2: Sefydlu Gwasanaeth Gwella Cynllunio i Gymru	175
Argymhelliad 3: Diffinio'r gwasanaeth cynllunio	175
Argymhelliad 4: Casglu a chyhoeddi data cynllunio o ansawdd	176
Argymhelliad 5: Datblygu strategaeth recriwtio a chadw staff	176
Argymhelliad 6: Cydwasanaethau	177
Argymhelliad 7: Cynllunio Digidol	178
Atodiad 1: Ffynonellau data	179
Atodiad 2a Arolwg Llywodraeth Cymru	181
Atodiad 2b Arolwg PCAC	188
Atodiad 2c Arolwg CNC	194
Atodiad 2d Arolwg Awdurdodau Cynllunio Lleol	201
Atodiad 3: Ymatebwyr yr arolwg	208
Atodiad 4: Cyfweleion	210
Atodiad 5: Bandiau cyflog cyfartalog y sector cyhoeddus	211
Atodiad 6: Proffil oedran o fewn timau ACLlau	213
Atodiad 7: Swyddogaeth Gwella Cenedlaethol yr Alban	217

Crynodeb gweithredol

- i. Mae'r prosiect hwn yn archwilio'r adnoddau a'r capasiti presennol mewn gwasanaethau cynllunio'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n darparu sylfaen dystiolaeth gyfoes i lywio a llunio ymyriadau ac atebion i gefnogi cynllunwyr a'r proffesiwn cynllunio ehangach i ryddhau llawn botensial y system gynllunio yng Nghymru fel grym dros newid cadarnhaol.
- ii. Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar y canlynol:
 - Adolygiad pen desg o adroddiadau allweddol presennol a'u canfyddiadau ynghyd ag adolygiad o ddata perthnasol a gedwir gan sefydliadau rhanddeiliaid;
 - Arolwg o Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLLau), Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC), swyddogaeth gynllunio Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru ei hun (Is-adran Gynllunio LIC);
 - Cyfres o gyfweiliadau dilynol gydag ymatebwyr yr arolwg a rhanddeiliaid allweddol;
 - Trafodaeth gyda Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac ysgolion cynllunio prifysgolion achrededig RTPI.
- iii. System gynllunio sydd â'r adnoddau priodol yw mecanwaith allweddol y Llywodraeth ar gyfer creu lleoedd iach, cynhwysol, cynaliadwy yn economaidd ac yn amgylcheddol. Mae'r ymchwil hwn yn darparu tystiolaeth gyfredol i lywio a llunio ymyriadau ac atebion i gefnogi cynllunwyr a'r proffesiwn cynllunio ehangach i ryddhau llawn botensial y system gynllunio yng Nghymru fel grym dros newid cadarnhaol.
- iv. Mae'r adroddiad tystiolaeth hwn yn trafod bylchau a heriau adnoddau a chapasiti presennol y sector cyhoeddus (ariannol a phobl), yn ystyried gofynion y gweithlu yn y dyfodol, ac yn awgrymu atebion posibl a allai helpu i leddfu'r pwysau hyn a chefnogi darparu gwasanaeth cynllunio effeithiol ac ymatebol yng Nghymru.

- v. Mae casglu a chyflwyno'r data a'r wybodaeth mewn ffordd sy'n ystyried yn llawn yr ystod eang o rolau, cyd-destunau ac amgylchiadau ar draws y gwasanaeth cynllunio cyhoeddus wedi bod yn heriol. Felly, dylid dehongli'r data gan gydnabod ei gyfyngiadau a'r amrywiaeth o ffactorau ychwanegol sydd y tu allan i gwmpas y comisiwn hwn neu y tu hwnt i gylch gwaith uniongyrchol y system gynllunio. Serch hynny, mae'r adroddiad hwn yn darparu sylfaen werthfawr y gellir parhau i adeiladu a mireinio tystiolaeth bellach arni dros y blynyddoedd nesaf.
- vi. Mae'r adroddiad hwn yn gorffen gyda saith argymhelliad sy'n deillio o'r dystiolaeth. Nid oedd cwmpas yr ymchwil hwn yn cynnwys trafod na phrofi syniadau a chynigion y tu allan i'r sefydliadau sector cyhoeddus sy'n rhan o'r ymchwil hwn. Felly, rydym yn argymhell seinfwrdd i drafod ymarferoldeb ac effeithiau gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn (argymhelliad 1).
- vii. Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae gwasanaeth cynllunio'r sector cyhoeddus wedi dioddef toriadau cyllideb hirfaith a thanfuddsoddi cronig, ar adeg pan ychwanegwyd dyletswyddau ychwanegol at lwythi gwaith. Mae hyn wedi arwain at erydu capasiti a sgiliau, gan danseilio effaith y proffesiwn a'i allu i gyflawni. Mae heriau'n parhau, ond mae ymrwymiad y rhai sy'n gweithio o fewn y system yn parhau i fod yn amlwg ac yn cael ei ganmol.
- viii. Mae'r ymchwil hwn yn dilyn ymchwil allweddol sy'n bodoli eisoes. Yn dilyn [adroddiad Archwilio Cymru](#) ar Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio yng Nghymru, canfu'r [Ymchwiliad i Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru](#) gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru (Mehefin 2020) fod:
- “Cynllunio yn hollbwysig ond ar hyn o bryd nid yw'n gallu cyflawni amcanion y Ddeddf Cynllunio, Deddf yr Amgylchedd na Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol oherwydd gostyngiad mewn adnoddau.”
- ix. Canfu ymchwil ar [Feithrin gallu drwy gydweithio a newid](#) a gomisiynwyd gan RTPI Cymru (Tachwedd 2023):

“The resource and workload pressures in many planning organisations – and local planning authorities in particular - do not allow space for significant innovation and improvement – there is limited capacity to reflect, design and enact change.”

- x. Canfu ein hymchwil:

Cyd-destun ehangach

- xi. Gostyngodd gwariant net mewn termau real ar wasanaethau cynllunio ACLlau yng Nghymru 43% (£21m) rhwng 2009 a 2024. Mae hyn yn adlewyrchu gwelliant bach ers 2022.
- xii. Mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn nodi bod ffioedd cynllunio ond yn cwmpasu cyfran fach o'r ddarpariaeth gwasanaeth wirioneddol. Wrth edrych ar incwm cynllunio fel cyfran o wariant cyfan y gwasanaeth cynllunio, mae ein hymchwil wedi dangos bod lefel gyfartalog adennill costau ledled Cymru yn 32% yn 2009, gan gynyddu i 39% yn 2024.
- xiii. Wrth edrych ar ddata adennill costau ar gyfer y gwasanaeth rheoli datblygu yn unig, mae ein hymchwil wedi dangos bod cyfartaledd Cymru gyfan yn 46% yn 2009, gan gynyddu i 56% yn 2024.
- xiv. Rhwng mis Ebrill 2018 a mis Ebrill 2024, cynyddodd nifer y cynllunwyr (polisi, rheoli datblygu a gorfodi) a gofnodwyd ar strwythurau ACLI 46 swydd (11%) ledled Cymru. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar, mewn rhai meysydd, yr ydym wedi dechrau gweld gwelliannau o ran cyllidebau a recriwtio staff, ar ôl toriadau llym a pharhaus ar draws cynllunio yn y sector cyhoeddus. Mae nifer o ymatebion i'r arolwg yn awgrymu bod y newid ers 2022 wedi bod oherwydd cydnabyddiaeth bod toriadau cyni wedi mynd yn rhy bell, gan effeithio ar berfformiad, morâl a chadw staff.
- xv. Dros yr un cyfnod, gostyngwyd nifer y timau cymorth busnes 12 swydd (12%). Er bod rhywfaint o hyn o ganlyniad i effeithlonrwydd prosesau, bydd hefyd wedi golygu bod

cynllunwyr sydd eisoes dan bwysau yn treulio cyfran fwy o'u hamser ar dasgau gweinyddol, sy'n lleihau'r amser y gallant ei neilltuo i'w cyfrifoldebau cynllunio craidd.

- xvi. Gostyngodd maint Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru o 60 o swyddogion yn 2015 i 41 o swyddogion yn 2018 ac i 33 o swyddogion yn 2024. Mae hyn wedi cael effaith amlwg ar allu'r Is-adran Gynllunio i ddarparu diweddariadau polisi cenedlaethol amserol a chadarn neu ddarparu arweinyddiaeth ehangach, er enghraifft drwy fonitro perfformiad ac ysgogi gwelliant. Dim ond yn ystod y misoedd diwethaf y cymerwyd camau i wrthdroi rhai o'r toriadau hyn drwy recriwtio cynllunwyr sydd eu hangen yn ddifrifawr. Yn yr un modd, mae CNC wedi wynebu cyfnod o bwysau ariannol a llwythi gwaith cynyddol. Mae PCAC yn parhau i recriwtio Arolygwyr ychwanegol i ddelio â llwyth achosion cynyddol gymhleth o brosiectau seilwaith ac archwiliadau Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau).

Gweithgarwch diweddar

- xvii. Rhwng mis Medi 2022 a mis Mawrth 2025, roedd trosiant staff a gweithgarwch recriwtio yn golygu bod 165 o swyddi cynllunio, 26 o swyddi arbenigol a 14 o swyddi cymorth busnes wedi'u hysbysebu.
- xviii. Er gwaethaf y gweithgarwch recriwtio hwn a'r 46 swydd swyddog cynllunio ychwanegol a ddangosir ar strwythurau tîm ers 2018, ar adeg ymateb i'n harolwg (Mai 2025), nodwyd bod 37 o swyddi fel swyddog cynllunio yn wag, ynghyd â chwe swydd arbenigol a phum swydd cymorth busnes. At ei gilydd, roedd 73% o ACLlau yn gweithredu gydag un neu fwy o swyddi gwag o fewn eu gwasanaeth cynllunio. Yn bwysig, nododd 11 o ACLlau nifer o swyddi gwag, gyda rhai yn nodi cynifer â phum swydd wag. O ganlyniad, er gwaethaf ymdrechion diweddar i ddarparu adnoddau ar gyfer ACLlau, nid yw'r rhan fwyaf o'r swyddi hynny wedi'u llenwi naill ai oherwydd anawsterau recriwtio neu rewi prosesau recriwtio.
- xix. Mae'r diffyg capasiti wedi atal cynnydd o ran rhoi'r fframwaith ar waith ar gyfer system dan arweiniad Cynlluniau, gan effeithio ar ail gyfran y Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS). Mae hefyd yn effeithio ar allu ACLI i roi cyngor cyn ymgeisio amserol neu gynhwysfawr neu gynnig Cytundebau Perfformiad Cynllunio (PPAs),

sydd yn ei dro yn lleihau ffynonellau incwm ychwanegol, gan greu pwysau pellach ar gyllideb a darparu gwasanaethau. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at gronfa gyfyngedig o ecolegwyr, priffyrdd ac arbenigwyr treftadaeth. Mae'r effaith ddilynol yn sylweddol, gan effeithio ar amseroedd penderfynu ar geisiadau ac ansawdd gwasanaeth, gan arwain weithiau at ymatebion gwael a cholli cyfleoedd.

- xx. Teimlai 100% o'r rhai a gyfwelwyd fod yr heriau adnoddau hyn, cylch gwaith sy'n ehangu a disgwyliadau cynyddol rhanddeiliaid yn golygu nad oedd gan eu ACLI y capasiti ar hyn o bryd i gyflawni uchelgeisiau cynllunio na nodau strategol, gyda'r ffocws ar oroesi/ymdrin â heriau yn lle. Felly, rydym yn argymhell y dylid creu Gwasanaeth Gwella Cynllunio, yn debyg i'r gwasanaeth gwella llywodraeth leol annibynnol a sefydlwyd yn yr Alban (argymhelliad 2). Byddai'n cael ei arwain gan Hyrwyddwr Gwella Cynllunio annibynnol newydd, a byddai'n datblygu ac yn hyrwyddo arfer gorau ac effeithlonrwydd, yn cefnogi adolygiadau gan gymheiriaid a monitro perfformiad, yn gwasanaethu fel canolfan wybodaeth ganolog ar gyfer y proffesiwn, ac yn cefnogi arloesedd a chydwasanaethau lle bo'n briodol. Gallai'r gwasanaeth hwn gael ei gynnal gan CLILC ond bydd angen darparu adnoddau ychwanegol.
- xxi. Er mwyn sicrhau gwydnwch a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol, mae angen gwneud rhagor o waith i gytuno ar ddiffiniad o faint y gwasanaeth cynllunio y mae adennill costau llawn yn berthnasol iddo (argymhelliad 3).
- xxii. Mae argymhelliad 4 yn ceisio ymrwymiad i fonitro capasiti'r gwasanaeth cynllunio (niferoedd staffio, nifer y swyddi gwag, ac arolwg sgiliau) yn rheolaidd, incwm ffioedd fel cyfran o gostau'r gwasanaeth rheoli datblygu, perfformiad a sut y defnyddiwyd yr incwm ffioedd cynyddol ers mis Rhagfyr 2025 i wella'r gwasanaethau a ddarperir. Dylai'r gwaith monitro hwn ddefnyddio'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn fel llinell sylfaen, i gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a gwydnwch yn y tymor hir fel estyniad i'r fframwaith perfformiad cynllunio cenedlaethol a ailgychwynnwyd yn ddiweddar.

Edrych tua'r dyfodol:

- xxiii. Mae potensial i golli 17% (95 o gynllunwyr: y rhai 55 oed a hŷn) o gynllunwyr y sector cyhoeddus o'r gweithlu o fewn y pum i 10 mlynedd nesaf oherwydd ymddeoliad. Mae'r ffigur hwn yn cynyddu i 42% (234 o gynllunwyr: y rhai 45 oed a hŷn wrth edrych ar orwel tymor canolig o 10 i 20 mlynedd. (Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys CNC). Oni bai bod gwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth cadarn ar waith, wedi'i ategu gan lif cryf o gynllunwyr newydd, bydd y golled hon o wybodaeth ac arweinyddiaeth gynllunio yn cael effaith sylweddol ar ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau cynllunio.
- xxiv. Yn ogystal, drwy allosod o'r ddau Gytundeb Cyflawni CDS a gyhoeddwyd, mae'r data'n awgrymu bod angen 24 o gynllunwyr polisi ychwanegol arnom.
- xxv. At ei gilydd, yr angen recriwtio tymor byr yw 161 o gynllunwyr ychwanegol, 15 o swyddogion arbenigol a phum swyddog cymorth busnes. Yn syml, mae hyn i fynd i'r afael â swyddi gwag ACLI hysbys (ym mis Mai 2025) (37 o gynllunwyr), anghenion CDS (24 o gynllunwyr), capasiti PCAC ar gyfer CDS, LDP a gwaith seilwaith (5 o arolygwyr cynllunio) ac ymddeoliad sydd ar ddod (95 o gynllunwyr gan gynnwys arolygwyr cynllunio), ynghyd â 15 o swyddogion arbenigol (chwe swydd wag hysbys yn yr awdurdod lleol a naw swydd wag yn CNC ym mis Mai 2025). Nid yw hyn yn caniatáu gwrthdroi'r toriadau dwfn ac anghynnaladwy o dros ddegawd o gyni.
- “Nid oes gan swyddogion amser i fuddsoddi mewn hyfforddiant na darllen...byddai'n dda cael strwythur cadarn a fyddai'n caniatáu amser i gynllunwyr profiadol hyfforddi cynllunwyr iau. Mae hynny wedi mynd ar goll gan fod pawb wedi bod yn ymdrin â heriau ers blynyddoedd ac mae'r tap o ymholiadau a cheisiadau yn parhau i lifo.” (Ymatebydd ACLI)
- xxvi. Mae canfyddiadau ein hymchwil yn tynnu sylw at y ffaith bod angen buddsoddiad ariannol sylweddol ar frys ar y system gynllunio, ar lefel genedlaethol a lleol, er mwyn iddi weithredu'n effeithiol. Mae angen i'r buddsoddiad hwn ymestyn y tu hwnt i swyddogion cynllunio i gynnwys y rolau cefnogol ehangach fel ecolegwyr a swyddogion priffyrdd. Mae prinder gweithlu yn effeithio ar berfformiad, gan roi straen

ar staff presennol a lleihau gwydnwch ledled y system. Ni all cynllunio weithredu ar ei ben ei hun. Heb wasanaethau sydd ag adnoddau da yn gweithio ochr yn ochr â hi, ni fydd y system gyfan yn cyrraedd ei llawn botensial. Mae gan offer cynllunio digidol, lle bo'n foesegol ac yn briodol, y potensial i ryddhau cynllunwyr i gynllunio, ond rhaid iddynt gael eu hymgorffori yng nghanol y system gynllunio, wedi'u llywio gan anghenion cynllunwyr a defnyddwyr a'u cefnogi ag arweinyddiaeth a chydlynad cryf.

- xxvii. Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, yr Economi a Chynllunio Rebecca Evans MS fuddsoddiad o £9 miliwn mewn adnoddau i CNC, PCAC ac Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru.
- xxviii. Ym mis Hydref 2025, pasiodd Senedd Cymru reoliadau yn cynyddu ffioedd ceisiadau cynllunio o 01 Rhagfyr 2025. Dyma gam cyntaf ond arwyddocaol tuag at adennill costau llawn ar gyfer gwasanaethau rheoli datblygu, gan roi hwb i incwm sydd ei angen yn ddirfawr. Mae angen arweinyddiaeth gref gan Benaethiaid Cynllunio, Prif Swyddogion Cyllid, Prif Weithredwyr a gwleidyddion: rhaid ail-fuddsoddi'r incwm ychwanegol sy'n deillio o gynnydd mewn ffioedd ceisiadau cynllunio mewn gwasanaethau cynllunio er mwyn gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau a chyflawni'r canlyniadau y mae eu hangen ar ein cymunedau.
- xxix. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, dylid sefydlu strategaeth recriwtio a chadw gynhwysfawr ar gyfer cynllunio yng Nghymru gan edrych ar bob llwybr i dyfu'r llinell o gynllunwyr, gan hyrwyddo gwerth unigryw a manteision allweddol cynllunio fel gyrfa yng Nghymru.. Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad ariannol sylweddol ac ymrwymiad gan bob plaid er mwyn sicrhau'r cynnydd hanfodol mewn lefelau adnoddau, gan gynnwys ymrwymiad gan ACLlau i ailfuddsoddi'r incwm ychwanegol o ffioedd ymgeisio sy'n deillio o gynnydd ffioedd Rhagfyr 2025 (argymhelliad 5).
- xxx. Ochr yn ochr â recriwtio, mae angen hefyd am fentrau uwchsgilio wedi'u targedu i gefnogi galluogrwydd, annog datblygiad gyrfa a sicrhau bod staff yn barod i ddiwallu gofynion sy'n esblygu. Bydd adeiladu gweithlu cryfach yn hanfodol i wydnwch yn y dyfodol. Yn seiliedig ar ein canfyddiadau, mae argymhelliad 6 yn nodi meysydd pwnc y dylid eu harchwilio ymhellach i'w cyflawni ar ardal fwy na'r ardal leol. Mae Argymhelliad 7 yn ymwneud â'r potensial ar gyfer defnyddio offer cynllunio digidol

gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, lle bo'n foesegol ac yn briodol, i ryddhau cynllunwyr i gynllunio, gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, a defnyddio barn ac arbenigedd dynol ar sail gwerthoedd. Bydd hyn yn gofyn am arweinyddiaeth a chydweithrediad cryf.

- xxxi. Yr hyn nad yw'r ffigurau a'r data a nodir yn yr adroddiad hwn yn ei adlewyrchu yw'r budd cymdeithasol pellgyrhaeddol a [gwerth y mae'r system gynllunio yn ei ddarparu](#). Mae'n hanfodol bod gwerth cynllunio yn cael ei gydnabod drwy gynllun adnoddau hirdymor i sicrhau y gall y system gynllunio gyflawni yng Nghymru. Nid yw ymdrechion unigryw yn ddigon i ysgogi newid ystyrlon a pharhaol. Rhaid i bob rhanddeiliad allweddol gydweithio i gefnogi, hybu a hyrwyddo gwerth y gwasanaeth cynllunio, gan gydnabod bod capasiti yn amod hanfodol ar gyfer gwydnwch yn y dyfodol o fewn y system gynllunio, a bod gweithredu cydlynol yn hanfodol ac yn angenrheidiol ar frys.

Argymhelliad 1: Sefydlu seinfwrdd

O ganlyniad i'w natur gydgysylltiedig, mae'n hanfodol bod effaith gweithredu'r argymhellion arfaethedig neu atebion eraill ar y darlun ehangach yn cael ei deall yn llawn. Nid oedd cwmpas yr ymchwiliad hwn yn cynnwys trafod na phrofi syniadau a chynigion y tu allan i'r sefydliadau sector cyhoeddus sy'n rhan o'r ymchwiliad hwn. Felly, rydym yn argymhell seinfwrdd i drafod ymarferoldeb ac effaith gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Dylai'r seinfwrdd gynnwys Fforwm Cynllunio RTPI Cymru (sy'n cynnwys cynrychiolaeth o ysgol gynllunio Prifysgol Caerdydd, PCAC, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW), RTPI Cymru, Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru ac Adran Gynllunio LIC) gyda gwahoddiadau ychwanegol i gynrychiolwyr o Gyd-bwyllgorau Corfforedig (CJCs), CNC a CLILC.

Dylai RTPI Cymru fod yn gyfrifol am ddatblygu'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 2: Sefydlu Gwasanaeth Gwella Cynllunio i Gymru

Gwasanaeth Gwella Cynllunio tebyg i'r gwasanaeth gwella llywodraeth leol annibynnol a sefydlwyd yn yr Alban (gweler Atodiad 7). Byddai'n cael ei arwain gan Hyrwyddwr Gwella Cynllunio annibynnol newydd ei greu a byddai'n:

- Datblygu a hyrwyddo arfer gorau ac effeithlonrwydd;
- Cefnogi adolygiad gan gymheiriaid a monitro perfformiad;
- Gwasanaethu fel canolfan wybodaeth ganolog ar gyfer y proffesiwn;
- Cefnogi arloesi a chydwasanaethau lle bo'n briodol.

Dylai Is-adran Cynllunio LIC fod yn gyfrifol am ddatblygu'r argymhelliad hwn. Gallai'r gwasanaeth hwn gael ei gynnal gan CLILC ond bydd angen darparu adnoddau ychwanegol.

Argymhelliad 3: Diffinio'r gwasanaeth cynllunio

Mae angen diffiniad clir, y cytunwyd arno ynghylch gwasanaethau cynllunio, gan egluro pa agweddau ar ddarparu gwasanaethau cynllunio sydd o fewn cwrmpas i adennill costau llawn a pha agweddau ddylai barhau i gael eu hariannu'n ganolog gan wasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn hanfodol os ydym am fynd i'r afael yn briodol ag adnoddau a chapasiti o fewn gwasanaethau cynllunio. Gallai hyn hefyd ddarparu sylfaen ar gyfer fframweithiau perfformiad yn y dyfodol, gan ei gwneud hi'n bosibl mesur canlyniadau ac effaith yn fwy cywir, nodi meysydd i'w gwella a dangos gwerth. Heb ddiffiniad clir, rydym mewn perygl o ddata anghyson o ganlyniad i ddulliau a chyd-destunau amrywiol ledled Cymru.

Dylai Is-adran Cynllunio LIC a POSW fod yn gyfrifol am ddatblygu'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 4: Casglu a chyhoeddi data cynllunio o ansawdd

Ymrwymiad i fonitro capasiti'r gwasanaeth cynllunio yn rheolaidd (niferoedd staffio, nifer y swyddi gwag, ac arolwg sgiliau) gan ddefnyddio'r canfyddiadau yn yr

adroddiad hwn fel llinell sylfaen, fel estyniad i'r fframwaith perfformiad cynllunio cenedlaethol a ailgychwynnwyd yn ddiweddar i gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a gwydnwch hirdymor. Dylai hyn gynnwys adrodd ar incwm ffioedd fel cyfran o gostau gwasanaeth rheoli datblygu, swm yr incwm ffioedd cynllunio ychwanegol ers mis Rhagfyr 2025 a sut mae'r incwm ffioedd ychwanegol hwn wedi'i ail-fuddsoddi i wella'r gwasanaethau cynllunio a ddarperir. Bydd hyn yn datblygu sylfaen dystiolaeth gryfach a mwy manwl dros amser, gan gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a gwydnwch yn y tymor hir. Bydd hefyd yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd ynghylch sut mae incwm ffioedd ymgeisio cynyddol yn cael ei ailfuddsoddi. Dylid adrodd ar y data hwn yn flynyddol ac mewn fformat digidol hygrych. Mae'n hanfodol bod pob plaid yn cyflwyno'r data perthnasol os ydym am fesur iechyd parhaus y gwasanaeth cynllunio yn gywir.

Dylai Is-adran Cynllunio LIC a'r ACLlau fod yn gyfrifol am ddatblygu'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 5: Datblygu strategaeth recriwtio a chadw staff

Dylid sefydlu strategaeth recriwtio a chadw gynhwysfawr ar gyfer cynllunio yng Nghymru gan edrych ar bob llwybr i dyfu'r llinell o gynllunwyr, gan hyrwyddo gwerth unigryw a manteision allweddol cynllunio fel gyrfa yng Nghymru. Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad ariannol ac ymrwymiad sylweddol gan bob plaid er mwyn sicrhau'r cynnydd hanfodol yn lefelau adnoddau. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad gan ACLlau i ailfuddsoddi'r incwm ffioedd ymgeisio ychwanegol sy'n deillio o gynnydd ffioedd Rhagfyr 2025.

Dylai'r strategaeth recriwtio a chadw gynnwys:

- Gwaith allgymorth i ysgolion i godi ymwybyddiaeth o gynllunio fel gyrfa ac adolygiad o TGAU yr Amgylchedd Adeiledig i sicrhau bod cynllunio yn cael ei amlygu fel llwybr gyrfa;
- Cymorth i unig ysgol gynllunio Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd gan gynnwys drwy weithio mewn partneriaeth ar allgymorth, recriwtio, lleoliadau, cymorth i fentrau DPP ar gynllunio digidol a meysydd eraill o ddatblygu sgiliau;

- Creu llwybr prentisiaeth Lefel 7 ar hyd llinellau'r cynllun llwyddiannus sy'n gweithredu yn Lloegr (heb fwllch oedran), i ategu'r cynllun Llwybrau at Gynllunio;
- Cefnogi cyfleoedd ar gyfer trawsnewid i gynllunio yng nghanol gyrfa drwy wasanaethau fel Ymarfer Cyhoeddus.

Dylai CLILC fod yn gyfrifol am ddatblygu'r argymhelliad hwn mewn partneriaeth ag ysgol gynllunio Prifysgol Caerdydd, Awdurdodau Cynllunio Lleol a CJC's, CNC, PCAC, RTPI Cymru, Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru a LIC.

Argymhelliad 6: Cydwasanaethau

Canfu'r ymchwil enghreifftiau llwyddiannus o sgiliau a rennir yn gweithredu ar draws ACLlau yng Nghymru. Mae'r gwasanaethau hyn wedi datblygu lle bo angen a chapasiti ar gyfer y gwasanaeth. I symud ymlaen, rhaid nodi'r cysyniad o gydwasanaethau drwy opsiynau clir ac wedi'u costio'n llawn sy'n nodi gofynion gan gynnwys capasiti. Heb y wybodaeth hon bydd cwestiynau'n parhau a gellir colli cyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd a chydweithio. Gallai gwasanaethau cychwynnol gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Gwasanaeth asesu ac adolygu hyfywedd ledled Cymru. Bydd hyn yn cefnogi gwneud penderfyniadau cadarn gan ddefnyddio pecyn cymorth hyfywedd newydd Cymru gyfan, gan ddarparu arbenigedd a gwydnwch ar bwnc y mae cynllunwyr y sector cyhoeddus yn dweud eu bod yn teimlo nad oes ganddynt arbenigedd ynddo;
- Arweinyddiaeth ledled Cymru ar gynllunio digidol i archwilio a chyflwyno technoleg newydd a gwella sgiliau cynllunwyr, gan sicrhau arbedion maint posibl, darparu gwydnwch, gwneud y defnydd gorau o arbenigedd a darparu cysondeb ledled Cymru;
- Arbenigedd ledled Cymru ar asesu cydymffurfiaeth â pholisïau carbon isel a sero net, ac i sefydlu polisïau neu newidiadau i Reoliadau Adeiladu ledled Cymru;
- Arbenigedd ôl troed CJC ar brosiectau seilwaith mawr er mwyn helpu gydag Adroddiadau Effaith Lleol ar gyfer Prosiectau Seilwaith Sylweddol (SIP), yn ogystal ag ar ecoleg, tirwedd, gwasanaethau cyfreithiol, a thrafnidiaeth. Dylai'r

elfen gwasanaethau cyfreithiol gynnwys archwilio'r potensial ar gyfer cytundebau Adran 106 safonol, arbenigedd ar orchmynion prynu gorfodol, a drafftio Hysbysiadau Gorfodi;

- Gwasanaethau rhanbarthol neu wasanaethau mwy na gwasanaethau lleol (isranbarthol) os oes angen ar gyfer treftadaeth ac SDCau;
- Niwtraliaeth maetholion/Byrddau Rheoli Maetholion ar sail dalgylch afon neu ACA forol.

Dylai ACLIau, CJC's a LIC fod yn gyfrifol am ddatblygu'r argymhelliad hwn gyda chefnogaeth gan CLILC a CNC.

Argymhelliad 7: Cynllunio Digidol

Mae gan ddefnyddio offer cynllunio digidol gan gynnwys deallusrwydd artifisial, lle bo'n foesegol ac yn briodol, y potensial i ryddhau cynllunwyr i gynllunio, gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, a defnyddio barn ac arbenigedd dynol ar sail gwerthoedd. Rhaid ei ymgorffori yng nghanol y system gynllunio yng Nghymru, yn hytrach na'i ystyried fel elfen atodol o ddarparu gwasanaethau. Dylid ei flaenoriaethu a'i gydlynw a dylai gael ei lywio gan anghenion cynllunwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Bydd hyn yn gofyn am arweinyddiaeth a chydweithrediad cryf.

Dylai LIC (a fydd o fis Ebrill 2026 yn ymgorffori'r Ganolfan ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol), RTPI Cymru, CLILC a Phrifysgol Caerdydd fod yn gyfrifol am ddatblygu'r argymhelliad hwn.

Diffiniadau

Nodwyd bod sawl term a ddefnyddiwyd drwy gydol y prosiect hwn o bosibl yn cael eu dehongli'n wahanol ymhlith gwahanol randdeiliaid. Diffinnir y termau hyn isod:

Y Gwasanaeth Cynllunio

At ddibenion yr ymchwil hwn:

- Mae'r term 'cynllunwyr' neu 'swyddogion cynllunio' yn cyfeirio at y rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol ym maes polisi cynllunio (er enghraifft ysgrifennu Cynlluniau Datblygu Lleol), rheoli datblygu (er enghraifft delio â llwyth achosion o geisiadau am ganiatâd cynllunio) neu orfodi cynllunio (er enghraifft ymchwilio i honiadau o dorri rheolaeth gynllunio);
- Mae'r term 'arbenigwyr' yn cyfeirio at y rhai sy'n rhoi cyngor i gynllunwyr neu y mae eu dyletswyddau'n ymwneud â maes arbenigol er enghraifft, treftadaeth adeiledig, coed, ecoleg, mwynau a gwastraff, archaeoleg, tirwedd, GIS;
- Mae'r term 'cymorth busnes' yn ymwneud â rolau cymorth gweinyddol neu TG;
- Mae 'technegwyr' wedi cael eu cyfrif fel cynllunwyr cynorthwyol/hyfforddai oni bai eu bod wedi'u rhestru'n benodol fel cymorth busnes gan ymatebwyr.

Adnoddau

Defnyddir y term 'adnoddau' yn ei ystyr ehangaf, gan gynnwys adnoddau ariannol a phobl, megis cyllidebau, niferoedd y gweithlu, capasiti a sgiliau, hyfforddiant a chynllunwyr y dyfodol.

Capasiti

Mae'r term 'capasiti' yn cyfeirio at yr hyn y gall y gweithlu cynllunio ei gyflawni o ran amser a sgiliau.

Bandiau cyflog cyfartalog y sector cyhoeddus

Crëwyd bandiau cyflog cyfartalog y sector cyhoeddus o ddata a gasglwyd o ymatebion arolwg ar swyddi a hysbysebwyd rhwng Medi 2022 a Mawrth 2025.

Grwpiwyd swyddi uwch ac o gyfrifoldeb tebyg. Darparodd hyn derfyn isaf ac uchaf ar gyfer yr ystod gyflog, a ddefnyddiwyd i greu band cyflog cyfartalog.

1. Cyflwyniad

Cefndir a chyd-destun

- 1.1. Bu trafodaeth helaeth dros y degawd diwethaf mewn perthynas ag adnoddau cynllunio yng Nghymru. Gwyddom o'r drafodaeth hon, ymchwil flaenorol fel adroddiad Archwilio Cymru i [Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru \(Mehefin 2020\)](#), ac adroddiadau [Y Sgwrs Fawr \(Ionawr 2023\)](#) a [Meithrin Gallu Drwy Gydweithio a Newid \(Tachwedd 2023\)](#) RTPI Cymru, mai un o'r heriau mwyaf sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau cynllunio yng Nghymru yw adnoddau: ariannol a phobl. Fodd bynnag, hyd yn hyn rydym wedi yn ddiffygiol yn nhystiolaeth gadarn a'r trosolwg cyflawn i gefnogi nodi'r atebion sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r broblem hon.
- 1.2. Mae Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru (Is-adran Gynllunio LIC) wedi comisiynu RTPI Cymru i gasglu tystiolaeth ar adnoddau cyfredol, capasiti ac anghenion y dyfodol o fewn gwasanaethau cynllunio'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae ein hymchwil yn cwmpasu'r Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLIau), Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC), swyddogaeth gynllunio Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn nodi ein canfyddiadau.

Diben ac amcanion

- 1.3. System gynllunio sydd â'r adnoddau priodol yw mecanwaith allweddol y Llywodraeth ar gyfer creu lleoedd iach, cynhwysol, cynaliadwy yn economaidd ac yn amgylcheddol. Mae'r ymchwil hwn yn darparu tystiolaeth gyfredol i lywio a llunio ymyriadau ac atebion i gefnogi cynllunwyr a'r proffesiwn cynllunio ehangach i ryddhau llawn potensial y system gynllunio yng Nghymru fel grym dros newid cadarnhaol.
- 1.4. Gan weithio gyda chynllunwyr a rhanddeiliaid sy'n ymwneud â'r system gynllunio, mae'r ymchwil hwn yn nodi bylchau a heriau presennol o ran cyllid ac adnoddau, yn ystyried gofynion a sgiliau cynllunio'r gweithlu yn y dyfodol, a lle bo'n bosibl, yn

awgrymu atebion posibl a allai leddfu pwysau adnoddau a chapasiti i gefnogi darparu gwasanaeth cynllunio effeithiol ac ymatebol yng Nghymru.

Methodoleg

Cwmpas

- 1.5. Mae pwnc eang adnoddau o fewn cynllunio wedi'i rannu i'r meysydd pwnc canlynol. Nid yw'r ymchwil hwn yn archwilio perfformiad na thargedau cynllunio: bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiadau Perfformiad Blynnyddol sydd wedi'u hailgychwyn.
- 1.6. **Cyllidebau cynllunio gwasanaethau:** Mae ein hymchwil yn edrych ar gyllidebau cynllunio ar draws gwasanaeth cynllunio'r sector cyhoeddus (o fewn ACLI, Is-adran Gynllunio LIC, PCAC a swyddogaeth cynllunio defnydd tir Cyfoeth Naturiol Cymru), gan archwilio gofynion arbed cyllid a buddsoddiad ac amlygu arferion arloesol a oedd yn ceisio cynhyrchu incwm ychwanegol neu leihau costau darparu gwasanaethau, a nodi'r cyfleoedd i ailfuddsoddi ffioedd ceisiadau cynllunio uwch yn ôl mewn gwasanaethau cynllunio.
- 1.7. **Y gweithlu cynllunio:** Mae ein hymchwil yn darparu data gwerthfawr ar weithlu cynllunio'r sector cyhoeddus (swyddogion cynllunio a rolau cefnogol) o fewn pob un o'r sefydliadau dan sylw, gan edrych ar sut mae hyn wedi newid dros amser. Mae hyn yn cyfrannu at ddata a gasglwyd ar ddyletswyddau ychwanegol sy'n ofynnol gan y system gynllunio dros y pum mlynedd diwethaf. Gwnaethom geisio data a barn ar gynllunio ar gyfer olyniaeth a heriau a chyfleoedd recriwtio yn y dyfodol, gan archwilio nifer a natur swyddi gwag cynllunio ochr yn ochr â dulliau recriwtio a chyflogau.
- 1.8. **Sgiliau a chapasiti:** Mae ein hymchwil yn mapio dosbarthiad gofodol sgiliau arbenigol a gedwir o fewn ACLlau, yn ogystal ag archwilio bylchau mewn sgiliau a chapasiti, ac anghenion hyfforddi ym mhob un o'r pedwar sefydliad pwnc. Rydym hefyd yn archwilio arbenigeddau, ffrydiau gwaith a gofynion a ragwelir yn y dyfodol, gan gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar lefel ranbarthol. Rydym yn edrych ar enghreifftiau presennol o rannu sgiliau arbenigol a'r potensial ar gyfer gwelliant

pellach, yn ogystal ag edrych ar y llinell o gynllunwyr yn y dyfodol gan gynnwys y galw am fyfyrwyr rhan-amser, myfyrwyr blwyddyn allan a phrentisiaid yng Nghymru yn ogystal â niferoedd myfyrwyr cynllunio presennol.

Amserlenni

- 1.9. Cynhaliwyd yr ymchwiliad a'r dadansoddiad rhwng mis Chwefror 2025 a mis Tachwedd 2025.
- 1.10. Defnyddiwyd yr amserlenni canlynol i ganolbwyntio ar gasglu data:
 - Cynllunio cyllidebau a newid yn y gweithlu dros y cyfnod pum mlynedd sy'n cwmpasu'r blynyddoedd ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2018 i fis Ebrill 2023 (gan ddefnyddio adroddiad Archwilio Cymru yn 2019 ar [Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru](#) fel meincnod);
 - Cynllunio prosesau recriwtio rhwng Medi 2022 a Mawrth 2025 (oherwydd argaeledd data hysbysebion swyddi gan The Planner Jobs);
 - Anghenion a heriau cynllunio a ragwelir yn y dyfodol dros y pum mlynedd nesaf.

Cyfyngiadau

- 1.11. Mae casglu, dadansoddi a chyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd sy'n ystyried yn llawn yr ystod eang o rolau, cyd-destunau ac amgylchiadau ar draws hyd a lled y gwasanaeth cynllunio'r sector cyhoeddus yn heriol. Felly, dylid dehongli'r dystiolaeth yn yr adroddiad hwn gan gydnabod ei gyfyngiadau a'r amrywiaeth eang o ffactorau ychwanegol sydd y tu allan i gwmpas y gwaith hwn a'r system gynllunio. Serch hynny, mae'r adroddiad hwn yn darparu sylfaen werthfawr y gellir parhau i adeiladu a mireinio tystiolaeth bellach arni dros y blynyddoedd nesaf i wella ein dealltwriaeth o wydnwch y system. Ynghyd â data perfformiad, gall ymchwiliad yn y dyfodol fonitro llwyddiant ymyriadau a newidiadau.

Ffynonellau data

- 1.12. Defnyddiwyd nifer o ffynonellau data wrth gasglu'r sylfaen dystiolaeth hon, gan gynnwys ffynonellau data cenedlaethol, data trydydd parti a data RTPI. Darperir rhagor o fanylion am y ffynonellau data yn Atodiad 1.

Dulliau ac ymagwedd

- 1.13. Roedd dull gweithredu Cymru gyfan yn rhoi cyfle i ymgysylltu ar wahanol raddfeydd a lefelau Llywodraethol o fewn y sector cyhoeddus, i gasglu data ochr yn ochr â barn ac atebion posibl. Casglwyd y dystiolaeth gan ddefnyddio'r dulliau canlynol:

Adolygiad pen desg

- 1.14. Adolygiad pen desg o adroddiadau allweddol presennol a'u canfyddiadau a'u hargymhellion allweddol gan gynnwys:
- Mae adroddiadau RTPI '[Gwerth Cynllunio](#)' 2024 a 2016, [Pecyn Cymorth Gwerth Cynllunio Cymru](#) 2018, a'r adroddiad 2024 diweddaraf yn ceisio hyrwyddo a llywio dadl fwy ystyriol, cytbwys a mwy tystiolaethol ar y berthynas rhwng cynllunio a thwf economaidd. Yn groes i farn rhai beirniaid, gall cynllunio chwarae rhan gadarnhaol a rhagweithiol mewn twf a datblygiad economaidd cynaliadwy, ac mae'n gwneud hynny. Mae'r ymchwil diweddaraf '[Y Premiwm Cynllunio: Gwerth Lleoedd Da \(2024\)](#)' yn archwilio'r achos Adenillion o Fuddsoddi ar gyfer buddsoddiad y sector cyhoeddus mewn cynllunio;
 - [Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan](#) ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2018;
 - Adroddiad 2019 Archwilio Cymru ar [Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru](#);
 - Adroddiad 2020 Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru/Senedd Cymru ar [Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru](#);

- [Sgwrs fawr RTPI Cymru](#) (2023), [Meithrin Gallu drwy Gydweithio a Newid](#), (2024) a [Chwmpasu'r potensial ar gyfer cynllunio digidol i leddfu pwysau adnoddau a gwella canlyniadau cynllunio](#) (2025);
- Adroddiadau [Cyflwr y Proffesiwn 2023 RTPI](#);
- [Ymatebion i ymgynghoriad 2024 Llywodraeth Cymru 'Hyrwyddo gwasanaeth cynllunio cydnerth sy'n perfformio'n dda'](#).

1.15. Adolygiad pen desg o ddata presennol, gan gynnwys data a gedwir gan ffynonellau allanol gan gynnwys:

- Data ar niferoedd myfyrwyr, a gedwir gan yr RTPI ac a gymeradwywyd i'w ddefnyddio yn yr adroddiad hwn gan ysgolion cynllunio achrededig perthnasol;
- Data ar swyddi a hysbysebiri yn [The Planner Jobs](#) rhwng mis Medi 2022 a mis Mawrth 2025;
- Sector Cyhoeddus Carrington West – Arolwg Cyflogau Blynnyddol [Arolwg Cyflogau 2025 a Chanllawiau ar gyfer Amgylchedd Adeiledig y DU](#);
- Mae [Public Practice](#) yn sefydliad nid–er–elw sy'n anelu at gefnogi'r sector cyhoeddus i feithrin capasiti a datblygu galluoedd. Drwy arolwg ac adroddiad ledled y DU, mae Public Practice yn archwilio heriau'r gweithlu ac adnoddau. Fodd bynnag, oherwydd y gyfradd ymateb isel yng Nghymru, nid oeddem yn gallu tynnu unrhyw ddata ystyrlon ar gyfer Cymru o'i adroddiad diweddaraf.

Arolwg

- 1.16. Anfonwyd arolwg at Bennaeth Cynllunio pob un o'r 25 ACLI ledled Cymru. Roedd dwy elfen i'r arolwg: holiadur MS Forms ar-lein yn ceisio manylion a barn ar gyllidebau, gweithlu a sgiliau ACLlau, a dogfen MS Word yn ceisio rhagor o ddata ac ystadegau ar weithlu ACLlau.
- 1.17. Anfonwyd arolwg tebyg hefyd at y Prif Gynlluniwr yn Is-adran Gynllunio LIC, y Prif Arolygydd Cynllunio yn PCAC a Phennaeth Cynllunio Datblygu a Morol yn CNC.

- 1.18. Mae copi o'r arolygon a anfonwyd at bob un o'r sefydliadau a gymerodd ran wedi'i gynnwys yn Atodiad 2. Mae rhestr o ymatebwyr yr arolwg wedi'i chynnwys yn Atodiad 3.

Cyfweliadau

- 1.19. Gwahoddwyd ymatebwyr yr arolwg i gymryd rhan mewn cyfweliad dewisol, ar ôl cwblhau'r arolwg, i drafod manylion eu hymateb i'r arolwg a'r syniadau a ddaeth i'r amlwg o'r ymchwil. Cynhaliwyd cyfweliadau ar-lein drwy gydol mis Ebrill a mis Mai 2025. Mae rhestr o'r cyfweleion wedi'i chynnwys yn Atodiad 4.
- 1.20. Cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol gyda chynrychiolwyr o dri o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig (CJCs) i ddeall y gofynion adnoddau a nodwyd a'r bylchau sgiliau ar lefel ranbarthol, yn ogystal ag adolygiad desg o'r ddau Gytundeb Cyflenwi cyhoeddedig sy'n bodoli ar hyn o bryd.
- 1.21. Cynhaliwyd trafodaethau hefyd gyda nifer o sefydliadau a grwpiau sydd y tu allan i gwmpas yr ymchwil, ond sydd â rôl neu ddiddordeb allweddol yng ngweithrediad effeithiol y system gynllunio. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:
- Ysgolion cynllunio achrededig RTPI yng Nghymru a'r cyffiniau, er mwyn deall y broses o gynllunio drwy ysgolion cynllunio achrededig a rôl ysgolion cynllunio wrth gefnogi adnoddau a chapasiti o fewn y system gynllunio;
 - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) mewn perthynas â'u Rhaglen Llwybrau at Gynllunio; a
 - Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru RTPI Cymru, i drafod cyflogau'r sector cyhoeddus, gan geisio cymhariaeth eang â chyflogau nodweddiadol y sector preifat.
- 1.22. Mae'r adroddiad hwn yn gorffen gyda saith argymhelliad sy'n deillio o'r dystiolaeth. Nid oedd cwmpas yr ymchwil hwn yn cynnwys trafod na phrofi syniadau a chynigion y tu allan i'r sefydliadau sector cyhoeddus sy'n rhan o'r ymchwil hwn. Felly, rydym yn argymhell seinfwrdd i drafod ymarferoldeb ac effeithiau gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn (argymhelliad 1).

2. Ymchwil a thystiolaeth bresennol

- 2.1. Mae'r bennod hon yn nodi'r data a gasglwyd o adolygiad o lenyddiaeth ac astudiaethau perthnasol sy'n bodoli eisoes.
- 2.2. Mae'r adran hon yn archwilio'r ymchwil a'r adroddiadau perthnasol allweddol o safbwynt Cymru gyfan ers mis Ebrill 2018, gan dynnu sylw at y prif faterion a drafodwyd a chrynhai'r canfyddiadau.

Archwilio Cymru - Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru (2019)

- 2.3. Yn 2019, cyhoeddodd Archwilio Cymru ei adroddiad ar [Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru](#). Mae'r adroddiad a'i ganfyddiadau'n darparu cyd-destun pwysig ar gyfer trafodaethau ac ymchwil ar adnoddau'r system gynllunio heddiw, ac yn darparu llinell sylfaen ar gyfer ein hymchwil sy'n edrych yn fanwl ar adnoddau dros y pum mlynedd ddilynol.
- 2.4. Ystyriodd adroddiad Archwilio Cymru lenyddiaeth, data, arolygon a chanfyddiadau cyfweiliadau presennol gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys ACLlau, defnyddwyr y gwasanaeth a sefydliadau cenedlaethol megis [Swyddfa Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol](#). Y ffocws oedd perfformiad, incwm a gwariant ACLlau, gwneud penderfyniadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, wrth asesu gwydnwch o fewn y system.
- 2.5. Mae'r adroddiad yn nodi realiti llym toriadau cyllideb yr ACLlau dros y cyfnod deng mlynedd rhwng 2009 a 2019, gyda chyllidebau wedi gostwng £22m (50%) mewn termau real, gan gadarnhau'r amgylchedd heriol yr oedd cynllunwyr yn gweithio ynddo.
- 2.6. Cydnabu adroddiad Archwilio Cymru ystod eang o ffactorau cymhleth a chydgyssylltiedig sy'n gysylltiedig ag adnoddau sy'n effeithio ar wydnwch y system gynllunio, gan gynnwys:

- Capasiti a sgiliau: “Gyda llai o arian i gyllido gwasanaethau, nid oes digon o swyddogion cynllunio i gyflawni'r gwaith ac mae sgiliau'n mynd yn llai mewn meysydd gwaith allweddol.” (paragraff 10)
- Hyfforddeion sy'n dechrau yn y proffesiwn: “Mae nifer yr hyfforddeion sy'n ymuno â gwasanaethau cynllunio wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf sy'n codi pryderon ynghylch cynaliadwyedd hirdymor gwasanaethau.” (paragraff 10)
- Cost darparu'r gwasanaeth cynllunio: “...nad yw'r taliadau a godir gan awdurdodau cynllunio lleol am weinyddu a chymeradwyo ceisiadau cynllunio a gwaith adeiladu'n adlewyrchu cost darparu'r gwasanaethau hyn.” (paragraff 10)
- Oedi yn y system: “Dros y pedair blynedd ddiwethaf mae nifer y ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd i awdurdodau cynllunio lleol wedi aros yn sefydlog, sef rhyw 24,000 y flwyddyn, ond mae llai o geisiadau cynllunio'n cael eu prosesu ar amser.” (paragraff 11)
- Cyflawni: “Ceir datgysylltiad cynyddol rhwng yr hyn y mae ar bobl ei eisiau gan eu hawdurdod cynllunio a'r hyn y mae eu hawdurdod cynllunio'n ei gyflawni.” (paragraff 8)
- Gwydnwch: “Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r archwiliad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad canlynol: Nid yw Awdurdodau Cynllunio yn ddigon cydnerth i gyflawni gwelliannau hirdymor oherwydd eu capasiti cyfyngedig a her rheoli system gymhleth.” (paragraff 15)

2.7. Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion. Mae'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag adnoddau yn cynnwys:

A2: “I wella cydnerthedd, rydym yn argymhell bod awdurdodau cynllunio lleol... yn gwella capasiti drwy weithio'n rhanbarthol i:

- integreiddio gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn arbenigedd;
- datblygu canllawiau cynllunio atodol ar y cyd; a
- datblygu cynlluniau datblygu lleol yn y dyfodol ar sail ranbarthol ac mewn partneriaeth gydag awdurdodau cynllunio lleol eraill.” (tudalen 12)

A3: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru:

- yn adolygu ffioedd rheoli datblygu i sicrhau bod y lefelau a bennir yn rhoi adlewyrchiad gwell o gost wirioneddol darparu'r gwasanaethau hyn; ac
- yn ystyried sut i ddefnyddio'r pwerau yn y Ddeddf Cynllunio (Cymru) i gefnogi a gwella capasiti a chydnerthedd awdurdodau cynllunio lleol. (tudalen 13)

Adroddiadau Perfformiad Gwasanaeth Cynllunio Llywodraeth Cymru: Pumed Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan (Ebrill 2018 - Mawrth 2019) (cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020)

- 2.8. Mae Is-adran Gynllunio LIC wedi cynhyrchu pum Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan sy'n cwmpasu'r blynyddoedd ariannol yn dechrau mis Ebrill 2013 i fis Ebrill 2018. Mae'r adroddiadau hyn yn seiliedig ar Adroddiadau Perfformiad Blynyddol yr ACLI, a gyflwynwyd i Is-adran Gynllunio LIC.
- 2.9. Nod adroddiadau Cymru Gyfan yw rhoi trosolwg o'r system gynllunio, gan nodi perfformiad da, arfer gorau a meysydd lle mae angen newid yn y dyfodol. [Pumed Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan](#), yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019, yw'r adroddiad diweddaraf a gyhoeddwyd. Tynnodd yr adroddiad sylw at y gwydnwch a ddangoswyd gan ACLI ac ymgylgoreion statudol yn ystod y cyfnod adrodd, gan nodi eu "dyfalbarhad yn erbyn cyni" (tudalen 65), gan reoli heriau adnoddau parhaus yng nghyd-destun disgwyliadau cynyddol gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Er bod dulliau arloesol ar gyfer adnoddau timau cynllunio yn cael eu harchwilio, cydnabuwyd bod llawer o enillion effeithlonrwydd eisoes wedi'u colli ar ôl sawl blwyddyn o gyni yn y sector cyhoeddus.
- 2.10. Bryd hynny, gwelwyd bod y proffesiwn cynllunio yn lleihau o ran poblogrwydd fel gyrfa, gan waethygu problemau adnoddau ymhellach. Cydnabuwyd y potensial ar gyfer cydwasanaethau rhanbarthol fel ffordd o wneud y gorau o'r arbenigedd sydd ar gael a gwella effeithlonrwydd adnoddau. Yn benodol, nodwyd y gwasanaethau mwynau a gwastraff a rennir fel enghreifftiau hynod effeithiol o'r dull hwn.

- 2.11. Daeth cynllunio ar gyfer olyniaeth i'r amlwg fel pryder allweddol, gydag anawsterau sylweddol wrth ddenu ymgeiswyr i rolau iau ac arbenigol, ochr yn ochr â thon o swyddogion profiadol yn agosáu at ymddeoliad. Nododd yr adroddiad hefyd densiwn rhwng cyllid cyfyngedig a llwythi gwaith unigol cynyddol, a oedd yn ei dro yn lleihau gallu staff i ymgysylltu ag uwchsgilio neu ddatblygiad proffesiynol parhaus.
- 2.12. Nododd yr adroddiad uchelgais i symud tuag at fodel ffioedd cynllunio mwy niwtral o ran cost. Wedi hynny, cynyddwyd ffioedd cynllunio tua 20% yn 2020.

Senedd Cymru: Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru (2020)

- 2.13. Roedd [ymchwiliad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd i Effeithiolrwydd ACLlau yng Nghymru](#) yn canolbwyntio ar berfformiad ac yn seiliedig ar y pedwar maes canlynol: gwydnwch gwasanaethau cynllunio; delio â cheisiadau cynllunio a phenderfynu arnynt; effaith a chyfranogiad cymunedol; a chynllunio a llesiant. Darparwyd tystiolaeth i'r Pwyllgor gan RTPI Cymru, ACLlau, a rhanddeiliaid eraill sy'n ymwneud â'r system gynllunio.
- 2.14. Yn ei adroddiad ymchwiliad, croesawodd y Pwyllgor y darpariaethau a nodir yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan nodi'r cyfraniad at fynd i'r afael â'r heriau sylweddol sy'n wynebu Cymru gan gynnwys globaleiddio, twf poblogaeth, newid hinsawdd a dulliau o ymdrin â materion amgylcheddol. Fodd bynnag, roedd hefyd yn cydnabod natur a maint yr heriau hynny, gan ddod i'r casgliad, "[gyda'i gilydd maent yn awgrymu y bydd y materion y mae'r system gynllunio yn mynd i'r afael â hwy yn mynd yn anoddach.](#)" (tudalen 5)
- 2.15. Nododd yr adroddiad nifer o argymhellion. Cynigiodd Argymhelliad 1 y dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â thoriadau i gyllidebau cynllunio drwy gydweithio, er mwyn meithrin gwydnwch a chapasiti o fewn y system. Daeth adroddiad y Pwyllgor i'r casgliad bod "[Cynllunio yn hollbwysig ond ar hyn o bryd nid yw'n gallu cyflawni amcanion y Ddeddf Cynllunio, Deddf yr Amgylchedd na Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol oherwydd gostyngiad mewn adnoddau.](#)" (paragraff 12)

Adroddiad Cyflwr y Proffesiwn RTPI (2023)

- 2.16. Roedd [Adroddiad Cyflwr y Proffesiwn RTPI](#) yn ymdrin ag adnoddau ar gyfer y proffesiwn cynllunio, ar sail y DU, gan ddefnyddio data o'r [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#), aelodaeth o RTPI a ffynonellau ychwanegol. Cyfeirir at ganfyddiadau'r adroddiad yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn. (Dylid nodi bod ymchwil Cyflwr y Proffesiynau wedi nodi problemau ansawdd ac argaeledd data mewn rhai meysydd).

RTPI Cymru - 'Y Sgwrs Fawr' (2023)

- 2.17. Drwy'r ['Y Sgwrs Fawr'](#), ceisiodd RTPI Cymru ddeall llesiant cynllunwyr yng Nghymru sy'n gweithredu o dan amgylchiadau heriol yn well drwy archwilio'r materion, yr effeithiau, yr achosion a'r atebion posibl i gefnogi'r proffesiwn cynllunio. Y prif ddull o gasglu data oedd arolwg ar-lein, wedi'i anelu at y proffesiwn cyfan. Cafwyd cyfanswm o 209 o ymatebion.
- 2.18. Canfu'r ymchwil fod lefelau uchel o gynllunwyr yn cael eu gorymestyn yn eu gwaith ac yn ei dro roedd hyn yn effeithio ar eu llesiant. Canfu'r arolwg y canlynol:
- Nododd 61% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo dan bwysau gormodol o leiaf sawl gwaith yr wythnos;
 - Roedd 74% o swyddogion yr ACLlau yn teimlo dan bwysau gormodol;
 - Roedd 21% o'r ymatebwyr yn teimlo dan bwysau gormodol drwy'r amser.
 - Datblygu gwasanaeth cynghori dewisol â thâl i ategu gwasanaethau cyn gwneud cais statudol;
 - Cynyddu'r ddarpariaeth o gyngor sefydlog i ymgeiswyr ac ACLlau, gan leihau'r angen am gyngor pwrpasol gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru;
 - Datblygu canllawiau mewnol, templedi a pharagraffau ymateb safonol i hybu cysondeb a lleihau'r amser y mae rheolwyr achosion yn ei dreulio yn paratoi ymatebion;
 - Gwella gwybodaeth reoli sydd wedi galluogi dosbarthiad llwyth gwaith a rhannu gwaith yn well ar draws y pedwar tîm gwaith achos sydd wedi'u lleoli'n ddaearyddol;
 - Ymgysylltu â gweithgorau sy'n benodol i'r sector er mwyn galluogi aliniad strategol ac arbed amser ar achosion unigol.
- 3.73. Dywed CNC fod y mesurau hyn gyda'i gilydd wedi caniatáu iddo gynnal ei wasanaeth er gwaethaf ymdrin ag achosion cynyddol gymhleth.

- 3.74. Wrth edrych ymlaen, pe bai incwm ychwanegol ar gael i'w fuddsoddi mewn darparu gwasanaethau, byddai blaenoriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys:
- Cynnal safonau gwasanaeth yng nghanol cynnydd mewn prosiectau seilwaith mawr;
 - Gweithredu Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 newydd;
 - Gwella systemau TGCh yn sylweddol fel y wefan, cronfeydd data rheoli cysylltiadau cwsmeriaid, a llwyfannau digidol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chwsmeriaid;
 - Ymchwilio i sefydlu cynllun lleoli er mwyn helpu cynllunio'r gweithlu;
 - Byddai rhoi cyngor ac arweiniad wedi'u targedu'n fwy er mwyn helpu i wella ansawdd ceisiadau hefyd yn flaenoriaeth.

4. Gweithlu presennol

Gweithlu'r Awdurdod Cynllunio Lleol

ACLI: Swyddogion a gyflogir yn y gwasanaeth cynllunio

- 4.1. Mae'r tabl canlynol yn nodi'r data gweithlu a gasglwyd gan 22 o ACLlau a ymatebodd gan gymharu blynyddoedd ariannol 2018 a 2023. Mae angen ystyried y data sylfaenol hwn yng nghyd-destun ehangach toriadau i gyllidebau, swyddi gwag, anghenion datblygu gyrfa i'r rhai sy'n dechrau eu gyrfa, a'r dyletswyddau ychwanegol a osodir ar y system gynllunio.
- 4.2. Rhwng y blynyddoedd ariannol yn dechrau mis Ebrill 2018 ac ym mis Ebrill 2023, cynyddodd nifer y cynllunwyr (polisi, rheoli datblygu a gorfodi) gan y 22 ACLI a ymatebodd 46 o swyddi (11%) ledled Cymru Er bod hyn yn rhoi pennawd cadarnhaol, fel y trafodwyd ymhellach ym mharagraff 4.30, roedd 37 o swyddi cynllunwyr mewn gwirionedd yn wag oherwydd trosiant staff, swyddi gwag a rhewi prosesau recriwtio.

	Blwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2018		Blwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2023	
	Nifer y swyddi swyddogion ACLI a gofnodwyd	Cyferwerth ag amser llawn a gofnodwyd	Nifer y swyddi swyddogion ACLI a gofnodwyd	Cyferwerth ag amser llawn a gofnodwyd
Swyddogion cynllunio (gan gynnwys rheoli datblygu, gorfodi a swyddogaethau polisi)	425	398.0 FTE	471	447.4 FTE
Swyddogion cymorth busnes	114	105.2 FTE	102	92.8 FTE
Cyfanswm	539	503.2 FTE	573	540.2 FTE

Ffigur 6: Nifer y cynllunwyr (polisi, rheoli datblygu a gorfodi) a swyddogion cymorth busnes a gofnodwyd gan y 22 ACLI a ymatebodd.

- 4.3. Ar adeg ymateb i'n harolwg (Mai 2025), roedd 73% o'r 22 ACLI a ymatebodd yn gweithredu gydag un neu fwy o swyddi gwag o fewn eu gwasanaeth cynllunio. Nododd 11 o ACLlau nifer o swyddi gwag, gyda rhai yn nodi cynifer â phum swydd wag bryd hynny.
- 4.4. Gostyngodd niferoedd staff cymorth busnes ar draws yr ACLlau a ymatebodd 12 swydd (12%) dros yr un cyfnod. O ganlyniad, mae cynllunwyr yn treulio mwy o'u hamser ar dasgau gweinyddol, sy'n lleihau'r amser y gallant ei neilltuo i'w cyfrifoldebau cynllunio craidd. Er y cydnabyddir bod yr un cyfnod wedi gweld prosiectau trawsnewid digidol yn cael eu cyflwyno, er enghraifft gweithio di-bapur, mae hyn yn aml wedi arwain at waith gweinyddol gwahanol yn hytrach na llai o waith.

Er enghraifft, mae llunio ffeiliau papur wedi cael ei ddisodli gan ffeilio, labelu a chyhoeddi dogfennau electronig a gyflwynir gyda chais cynllunio.


- 4.5. Mae sawl ACLI wedi gweld eu timau cymorth busnes wedi'u hadleoli o fewn tîm cymorth busnes canolog, ar draws yr awdurdod lleol. Esboniodd un ymatebydd “tynnwyd swyddi technegol a gweinyddol allweddol o'r gwasanaeth i lenwi uned cymorth busnes corfforaethol. Fodd bynnag, bu'n rhaid ailbenodi rhywun i'r swyddi hyn wedi hynny” oherwydd natur arbenigol y gwaith.
- 4.6. Mae'n amlwg o gymhlethdod cynyddol y system gynllunio a gofynion cynyddol defnyddwyr gwasanaethau fod angen mwy o fuddsoddiad yn y gweithlu. Teimlai 100% o'r rhai a gyfwelwyd nad oedd gan eu ACLI y capasiti ar hyn o bryd i ymdrin ag uchelgeisiau cynllunio na nodau strategol. Yn hytrach, maent yn wynebu ‘undonedd’ o ymdrin â heriau a chyflawni eu rhwymedigaethau statudol, heb allu canolbwyntio ar feddwl am y dyfodol na chynyddu capasiti.

“Nid oes gan swyddogion amser i fuddsoddi mewn hyfforddiant / darllen...byddai'n dda cael strwythur cadarn a fyddai'n caniatáu amser i gynllunwyr profiadol hyfforddi cynllunwyr iau. Mae hynny wedi mynd ar goll gan fod pawb wedi bod yn ymdrin â heriau ers blynnyddoedd ac mae'r tap o ymholiadau a cheisiadau yn parhau i lifo.” (Ymatebydd ACLI)

- 4.7. Gydag adnoddau a chapasiti yn cyrraedd pen eu tennyn, mae angen rôl/corff annibynnol sydd â'r cylch gwaith a'r capasiti i weithio gydag ACLlau a rhanddeiliaid eraill yn y sector cyhoeddus fel ffrind beirniadol, gan ddarparu cymorth i sector sydd dan straen sylweddol. Felly, rydym yn argymhell y dylid sefydlu Gwasanaeth Gwella Cynllunio, tebyg i'r gwasanaeth gwella llywodraeth leol annibynnol yn yr Alban (gweler Atodiad 7). Mae hyn yn cysylltu'n ôl ag adroddiad [Meithrin Gallu Drwy Gydweithio a Newid](#) (gweler paragraff 2.24 uchod). Dylai Gwasanaeth Gwella Cynllunio gael ei arwain gan Hyrwyddwr Gwella Cynllunio annibynnol newydd ei greu a fyddai'n datblygu a hyrwyddo arfer gorau ac effeithlonrwydd, yn cefnogi adolygiadau gan gymheiriaid a monitro perfformiad, yn creu canolfan wybodaeth ganolog ar gyfer y proffesiwn, ac yn cefnogi arloesedd a chydwasanaethau lle bo'n briodol (argymhelliad 2).

Rolau cynllunio a swyddi uwch


- 4.8. Mae'r tri graff canlynol yn dangos nifer cyfartalog y swyddi a gofnodwyd gan y 22 o ACLI a ymatebodd, ar bob lefel.



Ffigur 7: Nifer cyfartalog rolau cynllunwyr rheoli datblygu a'u hynafedd o fewn ACLI a ymatebodd (blwyddyn ariannol yn dechrau mis Ebrill 2018 o'i gymharu â blwyddyn ariannol yn dechrau mis Ebrill 2023). Data a gafwyd mynediad iddo drwy arolwg ymchwil RTPI (Mai 2025). Dadansoddiad gan RTPI.

- 4.9. Mae'r data yn Ffigur 7 yn dangos, rhwng y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2018 a'r flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2023, fod nifer cyfartalog y rolau rheoli datblygu mewn ACLlau wedi:
- Cynyddu cynllunwyr rheoli 0.22;
 - Cynyddu uwch-gynllunwyr 0.77;
 - Gostwng swyddogion cynllunio 0.09;
 - Cynyddu cynllunwyr cynorthwyol/dan hyfforddiant 0.59.
- 4.10. Mae'r data yn Ffigur 7 hefyd yn dangos, rhwng y blynnyddoedd ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2018 ac ym mis Ebrill 2023, y bu cynnydd cymedrol o 1.5 swydd mewn

timau rheoli datblygu (o gyfartaledd o 11.2 i 12.7 swydd fesul ACLI). Roedd y cynnydd hwn yn nodedig ar lefel uwch-swyddog (3.6 i 4.3 o gynllunwyr DM uwch fesul ACLI) a lefel cynlluniwr cynorthwyol/dan hyfforddiant (1.7 i 2.3 fesul ACLI ar gyfartaledd). Mae'r categori olaf hwn yn adlewyrchu symudiad cadarnhaol i dyfu'r biblinell o gynllunwyr a sicrhau gwydnwch a chynllunio ar gyfer olyniaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y buddsoddiad amser sylweddol a'r arweiniad sydd eu hangen gan swyddogion mwy profiadol.




Ffigur 8: Nifer cyfartalog y rolau gorfodi a'r swyddi uwch o fewn ACLI sy'n ymateb (blwyddyn ariannol yn dechrau mis Ebrill 2018 o'i gymharu â blwyddyn ariannol yn dechrau mis Ebrill 2023). Data a gafwyd mynediad iddo drwy arolwg ymchwil RTPI (Mai 2025). Dadansoddiad gan RTPI.

4.11. Mae'r data yn Ffigur 8 yn dangos, rhwng y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2018 a'r flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2023, fod nifer cyfartalog y rolau gorfodi rhwng ACLlau wedi:

- Aros yn gyson ar gyfartaledd o 0.18 o gynllunwyr gorfodi rheolaethol;
- Cynyddu uwch-gynllunwyr gorfodi 0.27;
- Cynyddu cynllunwyr gorfodi 0.05;
- Aros yn gyson ar 0.36 o gynllunwyr gorfodi cynorthwyol/dan hyfforddiant.

- 4.12. Mae'r data yn Ffigur 8 hefyd yn dangos bod lefelau staffio cyffredinol ar gyfer timau gorfodi wedi aros yn isel a heb fawr o newid ar draws pob lefel swydd, gan gynyddu o gyfartaledd o ddim ond 2.3 swydd fesul ACLI yn y flwyddyn ariannol yn dechrau mis Ebrill 2018 i 2.6 swydd yn y flwyddyn ariannol yn dechrau mis Ebrill 2023. Mae'r newid bach hwn oherwydd cynnydd yn nifer yr uwch-swyddogion gorfodi. Fodd bynnag, y darlun cyffredinol yw un o wasanaethau gorfodi bach, heb ddigon o adnoddau.
- 4.13. Gwnaeth un ymatebydd ACLI sylw, “[Mae diffyg buddsoddiad yn y swyddogaeth gorfodi cynllunio wedi cynyddu'r pwysau ar dîm bach sy'n delio â nifer fawr o ymchwiliadau gorfodi cynllunio, ac mae rhai ohonynt wedi bod yn yr amlwg ac yn ddadleuol.](#)”



Ffigur 9: Nifer cyfartalog y rolau cynllunio polisi a'r swyddi uwch o fewn ACLI sy'n ymateb (blwyddyn ariannol yn dechrau mis Ebrill 2018 o'i gymharu â blwyddyn ariannol yn dechrau mis Ebrill 2023). Data a gafwyd mynediad iddo drwy arolwg ymchwil RTPI (Mai 2025). Dadansoddiad gan RTPI.

- 4.14. Mae'r data yn Ffigur 9 yn dangos, rhwng y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2018 a'r flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2023, fod nifer cyfartalog y rolau cynllunio polisi rhwng ACLlau wedi:
- Cynyddu cynllunwyr rheoli 0.13;
 - Gostwng uwch-gynllunwyr polisi 0.05;
 - Cynyddu swyddogion cynllunio 0.09;

- Cynyddu cynllunwyr polisi cynorthwyol/dan hyfforddiant 0.09.

4.15. Mae'r data yn Ffigur 9 hefyd yn dangos bod lefelau staffio polisi wedi aros yn sefydlog rhwng y flwyddyn ariannol yn dechrau mis Ebrill 2018 a'r flwyddyn ariannol yn dechrau mis Ebrill 2023, gan gynyddu dim ond 0.3 swydd fesul ACLI ar gyfartaledd o 4.8 swydd i 5.1 swydd, gyda dim ond mân newidiadau yn y gwahanol lefelau o brofiad, sy'n debygol o adlewyrchu ffocws ar gynnal capasiti craidd. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r rhan fwyaf o ACLlau wedi dechrau gweithio ar yr ail gyfran o CDLlau. O ystyried y nifer isel o swyddi ychwanegol nid oes unrhyw dueddiadau nodedig i'w harsylwi.

Swyddogion yr Awdurdod Lleol sy'n cefnogi'r swyddogaeth gynllunio


- 4.16. Er bod trafodaethau am adnoddau yn aml yn canolbwyntio ar nifer y swyddogion cynllunio, mae'r swyddogion cymorth amrywiol sy'n darparu cyngor hanfodol fel ymgylgoreion mewnol ar faterion fel ecoleg, llifogydd, priffyrdd neu dirwedd yr un mor bwysig.
- 4.17. Cydnabu [Sgwrs Fawr RTPI Cymru](#) effaith mewnbwn ymgylgoreion ar berfformiad cynllunio ACLlau, gan nodi bod adrannau awdurdodau lleol, fel priffyrdd ac ecoleg “also struggling with resources and recruitment which means that they cannot respond quickly or in full and this impacts on LPA services both in terms of the ability to provide timely and informed decisions and the perception of the planning process by customers.”
- 4.18. Rhwng y flwyddyn ariannol yn dechrau mis Ebrill 2018 a'r flwyddyn ariannol yn dechrau mis Ebrill 2023, cynyddodd nifer y cynghorwyr arbenigol cyfwerth ag amser llawn a gyflogir gan awdurdodau lleol y mae eu prif rôl yn ymwneud yn uniongyrchol â'r system cynllunio defnydd tir o ddim ond 5.1 swydd cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y 22 o ACLlau a ymatebodd (o 114.3 swydd cyfwerth ag amser llawn i 119.4 swydd cyfwerth ag amser llawn ar gyfer Cymru gyfan). Mae'r ffigur hwn ar gyfer blwyddyn ariannol mis Ebrill 2023 yn cyfateb i gyfanswm gweithlu cyfartalog o ddim ond 5.4 swydd arbenigol FTE fesul ACLI.

- 4.19. Dylid nodi bod nifer o'r 22 ymatebydd wedi pwysleisio mai brasamcan yw'r wybodaeth a ddarparwyd oherwydd eu hamcangyfrifon o gyfran y rolau hyn sy'n ymroddedig i gynllunio. Fodd bynnag, mae'r capasiti cyfyngedig, hyd yn oed gyda'r cynnydd bach ers mis Ebrill 2018, yn tynnu sylw at y manau lle mae capasiti'n anodd darparu gwasanaeth cynllunio effeithiol.
- 4.20. Yn ystod yr un cyfnod hwn mae'r llwyth gwaith wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd materion, polisïau neu ddeddfwriaeth newydd fel niwtraliaeth maetholion, SDCau a Llwybr Newydd. Nododd ymatebwyr hefyd fod arbenigwyr wedi dod yn fwyfwy brysur yn cyflawni gwaith a ariennir gan grantiau er mwyn helpu i ariannu eu swyddi.

“Rydym wedi sylwi ar wahaniaeth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'n nodedig bod ymatebion yn cymryd mwy o amser. Weithiau dydyn ni ddim yn cael unrhyw ymatebion o gwbl. Mae'n anodd cael cyfarfodydd a thrafod pethau ymhellach gyda nhw. Mae amodau rhyddhau yn dod yn anoddach gan fod capasiti ac adnoddau yn broblem iddyn nhw. Maen nhw wedi colli staff ac nid ydyn nhw wedi gallu recriwtio chwaith. Maen nhw wedi gorfod colli swyddi er mwyn arbed arian, ac mae ganddyn nhw gynifer o ddyletswyddau eraill nawr.” (Ymatebydd ACLI)

ACLI: Cydbwysedd profiad o fewn y gwasanaeth cynllunio

- 4.21. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo bod cydbwysedd da o brofiad yn eu tîm presennol, er enghraifft, rhwng cynllunwyr ar ddechrau eu gyrfa a chynllunwyr mwy profiadol, nododd dwy ran o dair o'r ymatebwyr gymysgedd da.



Ffigur 10: Cydbwysedd profiad o fewn ACLIau sy'n ymateb. Data a gafwyd mynediad iddo drwy arolwg ymchwil RTPI (Mai 2025).

- 4.22. Mynegodd y traean sy'n weddill bryderon yn amrywio o ddiffyg capasiti profiadol i ymdrin â phrosiectau mwy cymhleth i bryderon ynghylch cynllunio olyniaeth wrth i staff hŷn agosáu at ymddeoliad. Trafodir data proffil oedran y gweithlu ymhellach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.
- 4.23. Gofynnwyd i ymatebwyr ACLI esbonio eu hateb gan gynnwys pa newidiadau, os o gwbl, a fyddai'n creu gwell cydbwysedd o brofiad yn eu gwasanaeth cynllunio.

“O ran DM mae cydbwysedd da. Fodd bynnag, o ran polisi maen nhw'n dîm ifanc iawn sydd erioed wedi gwneud CDLI, ac rwy'n poeni am hynny ar gyfer y dyfodol.” (Ymatebydd ACLI)

- 4.24. Mater a grybwyllir yn aml drwy gydol yr ymchwil hwn yw anhawster i recriwtio gweithwyr proffesiynol profiadol, a waethygir gan ganfyddiadau o gyflog ac amodau gwell yn y sector preifat a diffyg graddau gyrfa o fewn Awdurdodau Cynllunio Lleol. I'r gwrthwyneb, tynnodd rhai sylw at yr amser sydd ei angen i gefnogi a mentora gweithwyr proffesiynol gyrfa newydd fel rhwystr i dyfu'r biblinell o gynllunwyr ar gyfer y dyfodol.

“Er bod gennym gydbwysedd da ar hyn o bryd, mae'n ansicr. Mae'r 'bwllch' mewn profiad rhwng y cynllunwyr gyrfa gynnar a'r rhai mwy profiadol yn sylweddol. Mae cyfle / gallu cyfyngedig i fentora a datblygu cynllunwyr gyrfa gynnar yn effeithiol.” (Ymatebydd ACLI)

4.25. Roedd enghreifftiau o arfer da sy'n dod i'r amlwg yn y maes hwn, er enghraifft:

“Yn yr Awdurdod rydym wedi ailstrwythuro'r adran yn raddol dros y 3 blynedd diwethaf i symud o strwythur cymharol wastad a sicrhau bod llwybrau i ddatblygiad drwy gyflwyno swyddi uwch, graddau bwydo. Rydym hefyd wedi cyflwyno Hwb Cynllunio i hidlo'r rhyw 7,000 o eitemau o ohebiaeth bob blwyddyn. Mae staff yr Hwb yn cynnwys pobl nad ydynt yn gynllunwyr sy'n derbyn hyfforddiant a chefnogaeth i ateb ymholiadau safonol ac mae wedi dod yn llwybr i staff sydd wedyn yn dymuno ymuno â'r proffesiwn.” (Ymatebydd ACLI)

4.26. At ei gilydd, mae ailstrwythuro timau cynllunio wedi cael canlyniadau cymysg yn aml: mae cael gwared ar rolau allweddol a/neu or-ehangu portffolios arweinyddiaeth yn aml wedi tanseilio cyflawniad. Adroddodd un awdurdod ei fod wedi ehangu portffolio Pennaeth Cynllunio i gynnwys teithio llesol a thrafnidiaeth ochr yn ochr â chynllunio, gan wanhau capasiti.

4.27. Roedd awgrymiadau ar gyfer meithrin cydbwysedd gwell o brofiad yn y tymor hir ar draws y proffesiwn yn cynnwys cyllideb fwy cynaliadwy, strwythurau cyflog gwell, opsiynau ymddeol hyblyg, disgrifiadau swyddi cadarn, a llwybrau gyrfa a datblygiad gwell.

4.28. Nododd sawl ACLI y gallai model swyddog hybrid neu grwydrol, sy'n symud rhwng DM, polisi a gorfodi o fewn eu ACLI, ganiatáu rheoli llwythi gwaith yn fwy hyblyg.

ACLI: Swyddi gwag

4.29. Ym mis Mai 2025, nodwyd bod 37 o swyddi swyddogion cynllunio yn wag gan y 22 ACLI a ymatebodd, ynghyd â chwe swydd arbenigol a phum swydd cymorth busnes. Mae hyn er gwaethaf strwythurau timau yn dangos 46 o swyddi ychwanegol ers 2018: mewn geiriau eraill, roedd y rhan fwyaf o'r ymdrechion i ddechrau adfer capasiti'r tîm cynllunio ar ôl dros ddegawd o doriadau yn gwbl ddamcaniaethol, gyda fawr ddim gwelliant ar lawr gwlad.

- 4.30. At ei gilydd, roedd 73% o ACLI yn gweithredu gyda swyddi gwag, gydag 11 o'r 22 ACLI a ymatebodd yn nodi nifer o swyddi gwag (rhai yn nodi cynifer â phum swydd wag). Mewn cyfweiliadau, awgrymodd awdurdodau cynllunio gwledig a Chymraeg eu bod yn ei chael hi'n anoddach recriwtio staff. Fodd bynnag, ni nododd ein dadansoddiad o'r data unrhyw batrwm yn cysylltu dosbarthiad y swyddi gwag â gwledigrwydd na lleoliad daearyddol yr awdurdod cynllunio.
- 4.31. Hysbysebodd pob un o'r 24 ymatebydd o leiaf un swydd wag rhwng mis Medi 2022 a mis Mawrth 2025, ond dim ond 21 o'r ACLlau a ddarparodd ddata ar y swyddi a hysbysebwyd. Hysbysebwyd 165 o swyddi cynllunio (rheoli datblygu, gorfodi a pholisi), 26 o swyddi arbenigol a 14 o swyddi cymorth busnes. Dylid nodi bod rhai o'r hysbysebion hyn yn swyddi a ail-hysbysebwyd, yn ogystal â swyddi dros gyfnod mamolaeth ac ati.
- 4.32. Mae natur ddeinamig swyddi gwag yn peri heriau wrth fonitro graddfa ac effaith swyddi gwag yn gywir dros amser. Defnyddiwyd strategaethau fel secondiadau, ailstrwythuro, ailraddio a chyflogi ymgynghorwyr mewn llawer o achosion i fynd i'r afael â'r bylchau hyn, ond gall hyn guddio gwir faint y broblem.
- 4.33. Adroddodd sawl ACLlau fod swyddi gwag yn aml yn cael eu gadael heb eu llenwi fel strategaeth i gyflawni'r arbedion cyllidebol angenrheidiol. Er bod y dull hwn yn caniatáu hyblygrwydd i ACLlau reoli pwysau ariannol, mae'n rhoi straen sylweddol ar staff presennol a chapasiti ehangach y gwasanaeth cynllunio. Mae staff craidd cyfyngedig yn gadael awdurdodau yn agored i siociau, fel salwch hirdymor, ymddeoliad neu ymddiswyddo.
- 4.34. Mae gan lawer o ACLI gyllidebau sylfaenol sy'n cynnwys lwfans swyddi gwag, sy'n golygu os ydynt yn ddigon ffodus i gadw nifer llawn o staff drwy gydol y flwyddyn, maent wedi gorwario ar staff.

Nifer y cynllunwyr a gyflogir yn Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru

- 4.35. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r swyddogion a gyflogir yn Is-adran Gynllunio LIC yn ôl gwasanaeth/maes gwaith a lefel uwch, yn y blyneddau ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2018 ac yn dechrau ym mis Ebrill 2023.
- 4.36. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae Cyfarwyddiaeth Gynllunio LIC wedi gweld gostyngiad sylweddol (25%) yn nifer y staff, gan ostwng o 44 swyddog yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2018 i 33 aelod o staff yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2023. Cofnodwyd pum swydd wag ar adeg ymateb i'r arolwg ymchwil (Mai 2025). Yn ystod y cyfnod hwn, mae datblygiad gyrfa wedi gweld cynllunwyr presennol yn sicrhau dyrchafiadau mewn mannau eraill yn Llywodraeth Cymru, ond mae rhewi prosesau recriwtio wedi arwain at absenoldeb cynllunwyr gyrfa gynnar. Mae hyn wedi arwain at strwythur sy'n drwm ar y top ac yn creu heriau sylweddol wrth gynllunio ar gyfer olyniaeth yn y dyfodol. Mae'n werth nodi bod yr Adran Gynllunio yn dîm o 60 o swyddogion ar adeg Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.
- 4.37. Yn ystod y cyfnod hwn o adnoddau'n lleihau, mae maint a chymhlethdod y gwaith wedi cynyddu oherwydd mwy o ddatganoli yn ogystal â'r cymhlethdodau ehangach sy'n effeithio ar bob ACLI, megis risg llifogydd, argyfyngau hinsawdd a natur, a niwtraliaeth maetholion. Mae deddfwriaeth gynllunio, gan gynnwys Bil Cynllunio (Cymru) a Deddf Seilwaith (Cymru) 2024, yn tynnu sylw sylweddol at adnoddau'r Adran Gynllunio, sy'n tynnu staff i ffwrdd o feysydd eraill. Mae cyflawni gofynion polisi a deddfwriaethol a nodir yn rhaglen y Llywodraeth yn golygu bod yn rhaid i'r Adran fod yn hyblyg wrth ymateb yn gyflym i flaenoriaethau gwaith newydd neu wahanol.

Teitlau swyddi	Nifer y swyddogion a gofnodwyd yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2018	Nifer y swyddogion a gofnodwyd yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2023
Prif Gynlluniwr / Pennaeth yr Adran	1	1
Pennaeth y Gangen	5	6
Uwch-reolwr Cynllunio	11	7
Rheolwr Cynllunio Uwch	17	16
Rheolwr Cynllunio	5	2
Swyddog cymorth tîm	1	1
Cynorthwydd Personol i'r Prif Gynllunydd	1	-
Cyfanswm nifer staff Adran Gynllunio LIC	41	33

Ffigur 11: Dadansoddiad tabl o swyddogion cynllunio a gyflogwyd gan Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru 2018 a 2023

- 4.38. Mae recriwtio ers mis Ebrill 2018 wedi bod yn her i'r Adran. Mae cyfyngiadau recriwtio allanol ar draws Llywodraeth Cymru wedi bod yn ffactor arwyddocaol, gan ei gwneud hi'n anodd disodli staff proffesiynol sydd wedi ymddeol neu wedi symud ymlaen i rolau eraill nad ydynt yn ymwneud â chynllunio yn Llywodraeth Cymru. Mae arferion recriwtio o fewn y gwasanaeth sifil yn cefnogi dyrchafiad mewnol ac ehangu sgiliau drwy drosglwyddiadau adrannol. Mae gan gynllunwyr ystod eang o sgiliau trosglwyddadwy sy'n eu gwneud yn ymgeiswyr cryf i'w trosglwyddo, ond mae'r arbenigedd cynllunio penodol sy'n ofynnol i weithio yn yr Adran Gynllunio yn golygu anaml y bydd y trosglwyddiad mewnol hwn yn cael ei ddychwelyd. Nid yw'r math hwn o bolisi recriwtio cyffredinol yn gweithio'n dda ar gyfer proffesiynau arbenigol fel cynllunio sy'n dibynnu ar recriwtio allanol, yn enwedig ar lefelau iau, i gynnal capasiti a gallu.
- 4.39. Ar ben hynny, gall y llwythi gwaith heriol a'r amlygrwydd gwleidyddol wneud yr Adran Gynllunio yn llai deniadol i gynllunwyr proffesiynol weithio ynddi nag mewn rhai Adrannau eraill. Mae cystadleuaeth gan Lywodraeth y DU a PCAC hefyd wedi dod yn elfen arwyddocaol, ac mae'r ddau ohonynt yn darparu cyflogau uwch ar gyfer rolau tebyg.
- 4.40. Dros y cyfnod hwn mae'r Adran Gynllunio wedi gweithredu'n hyblyg, gan symud pobl o gwmpas timau cynllunio ac mae hyn wedi helpu mewn cyfnodau o bwysau mawr. Mae wedi helpu yn yr un modd i rannu sgiliau, er enghraifft swyddogion sydd â phrofiad polisi sy'n ymwneud â datblygu deddfwriaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i lenwi pob swydd a hysbysebwyd yn ddiweddar (2025) gydag ymgeiswyr cryf, wedi'u tynnu o awdurdodau cynllunio lleol ac o fewn y sector preifat, er gwaethaf nodi pwll bach o gynllunwyr â chymwysterau addas yng Nghymru.
- 4.41. O ran cyfansoddiad y gweithlu, mae prosesau recriwtio diweddar (2025) wedi cyfrannu'n gadarnhaol, gydag ychwanegu rolau Rheolwr Cynllunio newydd, dyrchafiadau mewnol i swyddi Uwch-reolwr Cynllunio a Phenaethiaid Canghennau, gan greu cymysgedd cryf ar draws gwahanol lefelau o brofiad.

- 4.42. Mae cynllunio ar gyfer olyniaeth ar gyfer rolau uwch/rheoli wedi'i nodi gan y Prif Gynlluniwr fel ffocws pwysig dros y pum mlynedd nesaf, ochr yn ochr â chysoni cyflogau â Llywodraeth y DU / PCAC ar gyfer swyddi cymharol, ac archwilio swyddi â gradd gyrfa i gadw cynllunwyr o fewn yr Is-adran. Mae colli staff yr Adran Gynllunio i dimau eraill y Llywodraeth wedi bod yn faich sylweddol ar yr Adran ac yn tynnu sylw at sgiliau trosglwyddadwy cynllunwyr a'u gwerth i dimau a sectorau eraill, gan ei gwneud hi'n heriol o bosibl cadw cynllunwyr o fewn y proffesiwn.
- 4.43. Ar hyn o bryd mae Is-adran Gynllunio LIC yn cyflogi myfyriwr blwyddyn allan ac yn gobeithio cynyddu nifer y swyddi dan hyfforddiant yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae hyn yn gweithio ar sail cylchdroi gyda PCAC a allai ymestyn i CNC yn y dyfodol.
- 4.44. Mynegodd Is-adran Gynllunio LIC bryderon ynghylch argaeledd ymgeiswyr addas yn y dyfodol ar adeg o alw mawr, a chwestiynodd sut y gellir gwneud cynllunio fel gyrfa yn fwy deniadol. Gan gydnabod y galw am weithwyr proffesiynol cynllunio a natur gystadleuol recriwtio ar draws sectorau ehangach, awgrymodd Is-adran Gynllunio LIC fod angen diffinio a hyrwyddo ar y cyd werth unigryw a manteision allweddol cynllunio fel gyrfa yng Nghymru.

Gweithlu PCAC

- 4.45. Mae'r tabl isod yn cyflwyno ffigurau staffio ar gyfer PCAC ar gyfer 2021 (pan gafodd ei sefydlu) o'i gymharu â blwyddyn ariannol mis Ebrill 2023. Nid oes data ar gael cyn y dyddiad hwnnw, felly nid yw'n bosibl monitro newid dros yr un cyfnod â'r cyrff eraill yn yr adroddiad hwn.

	Niferoedd swyddogion a gofnodwyd yn 2021	Nifer y swyddogion a gofnodwyd yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2023
Prif Arolygydd/Pennaeth Cymru	1	1
Dirprwy Brif Arolygydd	-	1
Rheolwyr Arolygwyr Cynllunio	2	2
Rheolwyr Arolygwyr Cynllunio Cynorthwyol	2	2
Arolygwyr Cynllunio	15	16
Swyddogion Cynllunio	4	2
Swyddogion Cymorth Busnes	24	22
Cyfanswm nifer y staff yn PCAC	48	46
Cyferwerth ag amser llawn	44.6	45.9

Ffigur 12: Tabl yn dangos ffigurau staffio ar gyfer PCAC 2021-2023

- 4.46. Ym mis Mai 2025, roedd gan PCAC 30 o swyddi Swyddog Cymorth Busnes (gan gynnwys dwy swydd wag) a 20 o Arolygwyr Cynllunio sy'n cynnwys y Prif Arolygydd Cynllunio, y Dirprwy Brif Arolygydd Cynllunio, Rheolwyr Arolygwyr Cynllunio a Rheolwyr Arolygwyr Cynllunio Cynorthwyol.
- 4.47. Ar hyn o bryd mae cydbwysedd da o brofiad o fewn PCAC. Fodd bynnag, mae angen Arolygwyr mwy profiadol i gefnogi meysydd llwyth gwaith pwysedd uchel, gan gynnwys DNS, archwiliadau CDLI a gwaith gorfodi, yn ogystal â pharatoi ar gyfer y pedwar CDS newydd yn y blynyddoedd i ddod, a fydd yn cael eu dilyn gan gyfres o CDLI llai manwl newydd.

Gweithlu CNC

- 4.48. Rhwng y blynyddoedd ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2020 ac ym mis Ebrill 2023, mae gweithlu CNC wedi cynyddu o 53.7 swyddog FTE i 61.2 swyddog FTE (gweler Ffigur 13 isod).
- 4.49. Mae tîm rheoli achosion Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu (DPAS) CNC yn elwa o gydbwysedd cyffredinol da o brofiad, gyda strwythur bwriadol sy'n cwmpasu ystod o raddau sy'n cefnogi llwybrau gyrfa clir. Fodd bynnag, mae recriwtio staff profiadol yn uniongyrchol i swyddi gradd uwch wedi profi'n heriol, yn bennaf oherwydd bod yr arbenigedd sydd ei angen yn benodol iawn i swyddogaethau gwaith achos a chynghori CNC. Er mwyn lliniaru prinder staff, mae CNC wedi defnyddio staff asiantaeth mewn rolau gradd is yn ogystal â cheisio datblygu staff yn fewnol, ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu ac ymdrechion i ddenu ymgeiswyr o'r tu allan i'r ddisgyblaeth gynllunio draddodiadol sydd â sgiliau trosglwyddadwy. Mae'r dull hwn wedi arwain at ganlyniadau cymysg: mewn rhai achosion, mae staff wedi llwyddo i symud ymlaen drwy'r rhengoedd, tra mewn sefyllfaoedd eraill, mae wedi bod yn anoddach cyflawni'r aliniad rhwng disgygliadau sefydliadol a dyheadau unigol. At ei gilydd, mae cael pobl brofiadol i rolau uwch yn dibynnu'n sylfaenol ar gyfres o staff sy'n ymuno ar lefelau iau ac yn cael hyfforddiant a mentora cadarn.
- 4.50. Mae timau Gwaith Achos Cynllunio CNC yn defnyddio ystod eang o sgiliau arbenigol a gwybodaeth dechnegol o bob cwr o CNC. Mae ei waith cynllunio yn defnyddio

sgiliau arbenigol mewn pynciau fel tirwedd, mawn, daearwyddoniaeth, risg llifogydd, ecoleg (rhywogaethau gwarchodedig ar y tir a'r môr a safleoedd dynodedig), ansawdd a maint dŵr, gwastraff, prosesau arfordirol, ansawdd aer ac ati yn ogystal â chymorth gan wasanaethau fel cyllid a chyfreithiol.

- 4.51. Mae heriau gweithlu'r sector cyhoeddus yr un mor bresennol o fewn swyddogaeth gynllunio CNC, gan gynnwys cystadleurwydd y farchnad swyddi, pwll cyfyngedig o ymgeiswyr addas, a diffyg unigolion sy'n fodlon camu i rolau rheoli. Mae statws CNC fel cyflogwr yn y sector cyhoeddus sy'n cynnig gweithio hyblyg, yn enwedig mewn amgylchedd ar ôl Covid, wedi helpu rhywfaint o ran recriwtio a chadw staff.
- 4.52. Wrth edrych ymlaen dros y pum mlynedd nesaf, mae yna heriau a chyfleoedd. Gallai cyllid ychwanegol yn deillio o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 alluogi creu rolau gradd uwch, gan gynnig cyfleoedd i gadw a dyrchafu staff presennol a denu talent newydd. Fodd bynnag, mae risg barhaus y bydd staff yn ennill profiad gwerthfawr dim ond i adael am rolau mewn sefydliadau eraill, yn enwedig mewn diwydiannau fel ynni, lle mae gwybodaeth y sector cyhoeddus a sgiliau technegol trosglwyddadwy yn ymddangos yn boblogaidd. Mae gwaith cydraddoldeb cyflog mewnol diweddar ar gyfer rolau eraill e.e. peirianwyr a syrfewyr wedi dangos bod cyflog a graddio tîm cynllunio yn gystadleuol. Ar hyn o bryd mae CNC yn ystyried ystod eang o fesurau gan gynnwys mentrau gyrfa gynnar fel fframweithiau gyrfa strwythuredig a phrentisiaethau.
- 4.53. Mae Argymhelliad 4 yn ceisio ymrwymiad i fonitro capasiti'r gwasanaeth cynllunio (niferoedd staffio, nifer y swyddi gwag, ac arolwg sgiliau) yn rheolaidd, incwm ffioedd fel cyfran o gostau'r gwasanaeth rheoli datblygu, perfformiad a sut y defnyddiwyd yr incwm ffioedd cynyddol ers mis Rhagfyr 2025 i wella'r gwasanaethau a ddarperir, gan ddefnyddio'r adroddiad hwn fel llinell sylfaen. Bydd y gwaith monitro hwn yn cefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a gwydnwch yn y tymor hir fel estyniad i'r fframwaith perfformiad cynllunio cenedlaethol a ailgychwynnwyd yn ddiweddar.

Cynllunio datblygu a swyddogaeth forol (Noder: Ar gyfartaledd mae swyddogion morol yn treulio traean o'u hamser ar waith cynllunio)

Adran/Tîm	Teitl swydd	Nifer y swyddogion a gofnodwyd yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2020	Nifer y swyddogion a gofnodwyd yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2023
Gweithrediadau	Pennaeth DPAS a Morol	1	1
	Rheolwr DPAS	1	1
	Uwch-arbenigwr	1	1
	Arweinydd Tîm DPAS	4	4
	Uwch-gynghorydd DPAS	11	11 (2 swydd wag)
	Cynghorydd DPAS (2)	21	24 (4 swydd wag)
	Cynghorydd DPAS (1)	5	8 (1 swydd wag)
	Cynorthwydd DPAS	4	4 (1 swydd wag)
	Rheolwr Morol	1	0

Adran/Tîm	Teitl swydd	Nifer y swyddogion a gofnodwyd yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2020	Nifer y swyddogion a gofnodwyd yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2023
	Arweinydd Tîm Cyngor a Rheoli Ardal Forol	1	1
	Uwch-gynghorydd Morol	9 (8.1 FTE)	10 (c. 9.2 FTE)
	Cynghorydd Morol (2)	2 (1.4 FTE)	10 (c. 1.6 FTE)
	Cynghorydd Morol Cynorthwyol	0	2 (1 swydd wag)
Cyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu: Cynllunio, Tirwedd, Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio, a Thîm Ynni	Cynllunio, Tirwedd, Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio, a Thîm Ynni	1	1
	Prif Gynghorydd Arbenigol: Cynllunio	0	1
	Cynghorydd Arbenigol: Cynllunio	2	2
Cyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu: Polisi a	Prif Gynghorydd Arbenigol: Cynllunio Morol	2	2

Adran/Tîm	Teitl swydd	Nifer y swyddogion a gofnodwyd yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2020	Nifer y swyddogion a gofnodwyd yn y flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill 2023
Chynllunio Morol ac Arfordirol			
Swyddogaeth Cynllunio CNC:	Cyfanswm nifer y swyddi	66	75
	Cyferwerth ag Amser Llawn	53.7	61.2

Ffigur 13: Dadansoddiad tabl o weithlu CNC mis Ebrill 2020 a mis Ebrill 2023

5. Recriwtio

Recriwtio a chadw o fewn ACLlau

- 5.1. Gofynnwyd i ACLlau roi sylwadau ar yr heriau recriwtio allweddol, os oes rhai, a brofwyd ganddynt rhwng mis Medi 2022 a mis Mawrth 2025. Mae straen recriwtio clir mewn llawer o ACLlau, wedi'i ysgogi gan nifer isel o ymgeiswyr, ceisiadau am swyddi o ansawdd gwael, problemau ariannol, cystadleuaeth gan ACLlau eraill a'r sector preifat, PCAC a'r sector ynni, ochr yn ochr â gofynion cymhleth a chydgysylltiedig eraill. Amlygwyd bod rolau lefel uwch ac arbenigol yn arbennig o heriol i recriwtio iddynt.
- 5.2. Mae'n werth nodi bod pob un o'r 24 ymatebydd wedi hysbysebu swyddi gwag rhwng mis Medi 2022 a mis Mawrth 2025. Mae'r materion allweddol a godwyd gan y 24 ymatebydd wedi'u crynhoi isod.
- 5.3. **Diffyg ymgeiswyr addas:**
- Diffyg ymgeiswyr addas gyda'r cymwysterau a/neu'r profiad gofynnol;
 - Niferoedd isel o ymgeiswyr yn gyffredinol;
 - Prinder cynllunwyr profiadol. Yn gyffredinol yn anoddach recriwtio i swyddi uwch-gynllunwyr;
 - Prinder ecolegwyr, swyddogion priffyrdd, arbenigwyr treftadaeth a rolau cymorth arbenigol eraill;
 - Angen dibynnu ar ymgynghorwyr allanol oherwydd diffyg ymgeiswyr addas;
 - Mae angen ymgyrchoedd recriwtio dro ar ôl tro yn aml i lenwi swyddi;
 - Canfyddiad o anhawster recriwtio oherwydd lleoliad gwledig neu ddaearyddol;
 - Mae gofynion y Gymraeg yn peri her recriwtio ychwanegol mewn rhai ardaloedd;
 - Anhawster llenwi swyddi dros dro, rhan-amser neu dros gyfnod mamolaeth.

5.4. **Ffactorau gweithredol:**

- Mae symud i weithio o bell wedi helpu i ehangu cronfeydd talent, ond nid yw wedi datrys prinder yn llwyr ac mae wedi ei gwneud hi'n anoddach hyfforddi cydweithwyr newydd;
- Mae oedi a bylchau mewn recriwtio yn cael effeithiau gweithredol;
- Gohirio recriwtio mewn rhai awdurdodau oherwydd toriadau yn y gyllideb;
- Mae trosiant staff uchel yn rhoi pwysau ar y staff sy'n weddill ac yn achosi ansefydlogrwydd;
- Diffyg cyllideb ar gyfer hysbysebion taledig, gan gyfyngu ar gyrhaeddiad;
- Hyblygrwydd cyfyngedig i gynnig dilyniant neu gymhellion i gadw staff neu ddenu ymgeiswyr newydd;
- Costau ymgynghori uwch yn rhoi straen ar gyllidebau.

5.5. **Cystadleuaeth:**

- Swyddogion profiadol yn symud i rolau eraill yn y sector cyhoeddus (yn enwedig PCAC), y sector preifat (yn enwedig cynllunio ynni) neu broffesiynau eraill e.e. arolygu, creu bylchau gwybodaeth a chapasiti;
- Mae rolau awdurdodau lleol yn cael eu hystyried yn llai deniadol o'u cymharu â'r sector preifat neu rai cyrff cyhoeddus eraill;
- Sector preifat yn cynnig cyflogau uwch;
- Mae ACLlau yn "dwyn" staff oddi wrth ei gilydd;
- Pryder y bydd CJs yn recriwtio cynllunwyr polisi yn fuan i gynhyrchu Cynlluniau Datblygu Strategol.

5.6. **Natur y rôl:**

- Cyfleoedd gyrfa cyfyngedig mewn ACLlau bach;
- Baich hyfforddi a mentora trwm i ddatblygu swyddogion dibrofiad;

- Mae'n ofynnol i reolwyr cynllunio'r sector cyhoeddus wneud mwy o reoli prosiectau cyllideb, AD a TG oherwydd prinder/toriadau mewn adrannau eraill, sy'n gofyn am set sgiliau ehangach;
- Nid yw rolau gorfodi yn ddeniadol oherwydd eu natur wrthdrawiadol;
- Ymddygiad camdriniol yn gwneud y sector cyhoeddus yn lle cynyddol annymunol i weithio ynddo.

5.7. Disgrifiodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr recriwtio fel proses heriol a thynnu sylw at broblemau gyda nifer ac ansawdd yr ymgeiswyr:

“Ni sydd â'r gyfradd isaf o ymgeiswyr fesul rôl ymhlith unrhyw dîm yn y gwasanaeth economi ac adfywio ... rydyn ni'n cael rhai ymgeiswyr, tri fesul rôl ar gyfartaledd, ond nid yw o leiaf dau ohonyn nhw'n gymwys.” (Ymatebydd ACLI)

“Drwy gydol y cyfnod hwn rydym wedi canfod ein bod yn cael niferoedd bach o ymgeiswyr am rolau, yn enwedig rolau uwch. Mewn rhai achosion nid ydym wedi cael unrhyw ymgeiswyr am swyddi ac rydym wedi gorfod hysbysebu swyddi sawl gwaith.” (Ymatebydd ACLI)

5.8. Dywedodd ymatebydd arall:

“Gyda'r canfyddiad o gyflogau cymharol uwch yn y sector preifat a chyrrff ac asiantaethau eraill fel CNC a PCAC ac amgylchedd llywodraeth leol sy'n gynyddol heriol, yn ariannol ac yn wleidyddol, mae wedi dod yn gynyddol anodd recriwtio a chadw staff ac arbenigwyr profiadol.” (Ymatebydd ACLI)

5.9. Mae ymdeimlad cyffredinol bod prinder gweithwyr proffesiynol medrus a phrofiadol. Mae llawer o awdurdodau'n nodi eu bod yn gallu llenwi rolau cymorth busnes, gan recriwtio'n fewnol o dimau eraill yn llwyddiannus weithiau, ond maent yn wynebu anawsterau sylweddol wrth recriwtio cynllunwyr profiadol, uwch-swyddogion neu staff arbenigol. Hyd yn oed lle derbynnir ceisiadau, yn aml nid yw ansawdd yr ymgeiswyr

yn ddigonol i fodloni gofynion y rôl, gan arwain at hysbysebion dro ar ôl tro neu ddibynnu ar staff asiantaeth ac ymgynghorwyr, gan roi mwy o straen ar gyllidebau.

- 5.10. Adroddwyd bod y sector preifat yn 'gystadleuaeth' gan sawl ymatebydd. “Er y gall fod llawer o resymau dros yr heriau o ran recriwtio ac mewn rhai achosion cadw staff, ffactor clir sy'n cyfrannu yw nad yw'r cyfraddau cyflog cymharol a gynigir gan rai cynghorau wedi profi i fod yn gystadleuol yn y farchnad - yn sicr nid i'r rhai yn y sector preifat”. Codwyd hefyd golled cynllunwyr i ddisgyblaethau cysylltiedig, sy'n chwilio am gyfleoedd a rolau llai ingol.
- 5.11. Nododd rhai ymatebwyr anawsterau wrth hyfforddi recriwtiaid dibrofiad, o ystyried eu problemau capasiti presennol: “gall cyflogi ymgeiswyr sydd â phrofiad bach iawn fod yn heriol iawn ac yn dihysbyddu adnoddau staff gan ddarparu'r hyfforddiant angenrheidiol”. Gwaethygir yr her hon ymhellach mewn rhai awdurdodau lle nodir bod trosiant uchel o staff sydd newydd eu hyfforddi.
- 5.12. Crybwyllodd nifer o ymatebwyr at gronfa gyfyngedig o ecolegwyr, priffyrdd ac arbenigwyr treftadaeth. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau [Sgwrs Fawr RTP1](#). Esboniodd un awdurdod bod yr effaith ddilynol yn sylweddol, gan effeithio ar amseroedd penderfynu ar geisiadau ac ansawdd gwasanaeth, gan arwain weithiau at ymatebion gwael. Ychwanegir at hyn ymhellach lle mae swyddi swyddogion cynllunio yn wag oherwydd anawsterau recriwtio neu rewi prosesau recriwtio. Mae diffyg capasiti yn effeithio ar allu ACLI i roi cyngor cyn ymgeisio amserol neu gynhwysfawr neu gynnig PPAs, sydd yn ei dro yn lleihau ffynonellau incwm ychwanegol, gan greu pwysau pellach ar gyllideb a darparu gwasanaethau.
- 5.13. Nododd ACLI arall, er ei fod wedi cael cyllid yn ddiweddar ar gyfer ei dîm gorfodi, ei fod yn pryderu ynghylch recriwtio a llenwi swyddi newydd. Esboniodd un ACLI ei bod yn arbennig o anodd llenwi swyddi mamolaeth/tymor byr, gan egluro ei fod wedi troi at ddefnyddio ymgynghorwyr i lenwi'r swydd wag dros dro oherwydd nad oedd wedi cael unrhyw ymgeiswyr â'r profiad gofynnol. Mae Cydwasanaeth Gogledd Cymru wedi cael anhawster yn recriwtio Uwch-swyddogion Cynllunio tymor penodol i ddefnyddio'r cyllid a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar.

- 5.14. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn ei bod hi'n mynd yn fwyfwy anodd recriwtio po bellaf y mae'r cyflogwr oddi wrth ysgol gynllunio achrededig. Ni fu'n bosibl profi na gwrthbrofi'r ddamcaniaeth hon o'n dadansoddiad o'r data oherwydd yr amrywiaeth eang o ffactorau gan gynnwys rolau, cyflogau, cysylltiadau personol fel teulu/ffrindiau/ysgolion a dewisiadau ehangach ar gyfer byw a gweithio mewn lleoliadau trefol yn erbyn lleoliadau gwledig.

Recriwtio cynllunwyr Cymraeg eu hiaith

- 5.15. Mae'r problemau hyn yn aml yn cael eu chwyddo wrth geisio recriwtio pobl â sgiliau arbenigol, er enghraifft cynllunwyr sy'n siarad Cymraeg, oherwydd y gronfa recriwtio gyfyngedig.

“Mae'r gallu i recriwtio staff sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg yn heriol, mae hyn yn berthnasol i swyddogion cynllunio, ond hefyd yn broblem mewn meysydd arbenigol, e.e. swyddogion treftadaeth adeiledig/cadwraeth, ecolegwyr ac ati. Mae hyn yn her ddifrifol i'r [ACLI] ar hyn o bryd, lle mae gallu staff i weithio yn y Gymraeg yn hanfodol/bwysig. Mae wedi effeithio ar recriwtio, gyda mwy o ddefnydd o ymgynghoriaethau i lenwi bylchau staffio”.
(Aelod o RTPI)

“Mae'r cyfuniad o ardal wledig iawn lle nad yw cyfleoedd yn codi'n aml iawn, ynghyd â gofyniad iaith Gymraeg ... yn gwneud recriwtio'n anodd iawn.”
(Ymatebydd ACLI)


- 5.16. Mater sy'n codi dro ar ôl tro yw'r gronfa fach o gynllunwyr sy'n siarad Cymraeg, sydd wedi tynnu sylw at anghynaliadwyedd y dulliau presennol o recriwtio a thyfu'r llinell o gynllunwyr y dyfodol, a'r angen i feddwl yn fwy strategol.

“Y gwir yw, gyda swyddi y mae angen siarad Cymraeg ar eu cyfer, rydyn ni bron yn gwybod pwy yw ein marchnad ac yn y pen draw rydyn ni'n symud pobl o gwmpas gwahanol sefydliadau. Nid yw hyn yn gynaliadwy - ac mae angen dull strategol a gwahanol.” (Ymatebydd ACLI)

5.17. Adroddodd rhai ACLlau am ddiffyg hyder ymhlith staff dwyieithog i ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau technegol, gan dynnu sylw at yr angen am hyfforddiant a chymorth wedi'i dargedu. Un ateb a gynigiwyd oedd geiriadur Cymraeg penodol i gynllunio neu ddarpariaeth brifysgol well. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd ysgol gynllunio Prifysgol Caerdydd wedi recriwtio academydd sy'n siarad Cymraeg yn ddiweddar ac mae Llywodraeth Cymru, CDPS ac RTPI Cymru yn cynhyrchu geirfa ddiwygiedig o dermau cynllunio Cymraeg.

Dulliau hysbysebu swyddi

5.18. Gofynnwyd i ACLlau amlinellu'r gwahanol ddulliau hysbysebu swyddi y maent yn eu defnyddio. Mae'r tabl isod yn nodi'r ymatebion gan 24 o ACLlau.



Ffigur 14: Dulliau hysbysebu swyddi. Data a gafwyd mynediad iddo drwy arolwg ymchwil RTPI (Mai 2025).

5.19. Mae'r data yn Ffigur 14 yn dangos, o'r ymatebwyr, fod:

- 24 wedi'u hysbysebu drwy wefannau Awdurdodau Lleol;
- 19 wedi'u hysbysebu drwy LinkedIn;
- 16 wedi'u hysbysebu drwy e-bost drwy POSW;
- 12 wedi'u hysbysebu drwy The Planner Jobs;


- 9 wedi'u hysbysebu drwy [planningjobs.com](https://www.planningjobs.com);
- 6 wedi'u hysbysebu drwy Indeed;
- 4 wedi'u hysbysebu drwy bapur newydd;
- 0 heb hysbysebu unrhyw swyddi gwag ers mis Medi 2022;
- 8 wedi'u hysbysebu trwy ddulliau eraill.

5.20. Gofynnwyd i'r ymatebwyr pam y dewiswyd y dulliau hyn ac i ba raddau y maent wedi bod yn llwyddiannus: cafwyd 22 o atebion. Fforddiadwyedd oedd y rheswm a nodwyd amlaf dros ddewisiadau penodol, ac yna darpariaeth. Er gwaethaf yr heriau recriwtio cydnabyddedig, mae dau o'r tri dull a ddefnyddir amlaf (gwefan awdurdod lleol ac e-bost drwy Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru) yn targedu'r gronfa fach o weithwyr sector cyhoeddus presennol neu bobl sy'n chwilio am waith yn y sector cyhoeddus ac yn mynd ati i wirio gwefan benodol ACLI. O ran recriwtio, mae'r tebygrwydd y bydd ymgeisydd allanol sydd â diddordeb yn gwirio gwefan yr ACLI cywir ar yr amser cywir yn ymddangos yn fach.

[“Rydym wedi osgoi hyrwyddo ein swyddi drwy POSW yn benodol gan fod hyn yn ychwanegu at y gystadleuaeth am staff prin.” \(Ymatebydd ACLI\)](#)

- 5.21. Adroddir bod hysbysebu ar-lein drwy The Planner Jobs a LinkedIn yn ddau o'r dulliau mwyaf llwyddiannus, ochr yn ochr ag ar lafar.
- 5.22. Er gwaethaf rhai ymdrechion i daflu'r rhwyd yn ehangach, gan gynnwys defnyddio cylchgronau arbenigol ar gyfer recriwtio i rolau fel ecolegwyr, mae'r canlyniad wedi bod yn anghyson, gyda rhai swyddi'n cael ychydig iawn o ymgeiswyr neu ddim ymgeiswyr o gwbl.
- 5.23. At ei gilydd, er bod amrywiol ddulliau recriwtio wedi cael eu treialu i ddenu ymgeiswyr profiadol, mae'r canlyniadau wedi bod yn gymysg. Mae cost hysbysebu yn parhau i fod yn bryder amlwg ynghyd â'r gronfa fach o gynllunwyr yng Nghymru, yn enwedig cynllunwyr ac arbenigwyr sy'n siarad Cymraeg.

5.24. Mewn perthynas â swyddi gwag anodd eu llenwi, gofynnwyd i ACLlau pa gamau gweithredu, os o gwbl, y maent wedi'u cymryd ers mis Medi 2022. Mae'r graff canlynol yn nodi'r ymatebion gan 24 o ACLlau a ymatebodd.



Ffigur 15: Recriwtio i swyddi gwag sy'n anodd eu llenwi. Data a gafwyd mynediad iddo drwy arolwg ymchwil RTPi (Mai 2025).

5.25. Mae'r data yn Ffigur 15 yn dangos bod:

- 13 o ymatebwyr wedi caffael ymgynghorwyr allanol;
- 12 o ymatebwyr wedi datblygu eu cynllunwyr eu hunain drwy gynlluniau graddedigion / prentisiaethau;
- 12 o ymatebwyr wedi defnyddio staff asiantaeth / contract;
- 10 o ymatebwyr wedi cynnal sesiynau hyfforddi / uwchsgilio ychwanegol ar gyfer staff presennol;

- 10 ymatebydd wedi cynnig gweithio mwy hyblyg;
- 9 ymatebydd wedi cynyddu eu cyflogau;
- 8 ymatebydd wedi cydweithio ag awdurdodau lleol eraill;
- 8 ymatebydd wedi recriwtio y tu allan i'r proffesiwn cynllunio;
- 7 ymatebydd wedi cynnal ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu;
- 6 ymatebydd wedi rhannu adnoddau o fewn eu hawdurdod lleol;
- 5 ymatebydd wedi creu fframweithiau gyrfa / graddau gyrfa;
- 3 ymatebydd wedi darparu secondiadau mewnol o adrannau eraill o fewn eu hawdurdod lleol;
- 3 ymatebydd wedi darparu secondiadau allanol o'r tu allan i'r awdurdod;
- 3 ymatebydd wedi allanoli gwasanaethau;
- 1 ymatebydd heb wneud yr un o'r rhain;
- 3 ymatebydd wedi defnyddio dulliau eraill.

5.26. Mae ACLlau wedi archwilio ystod eang o ddulliau mewn perthynas â swyddi gwag sy'n anodd eu llenwi, gyda chanlyniadau cymysg. Mae rhai wedi gweld llwyddiant diweddar drwy gyflogi cyn-fyfyrwyr neu gynllunwyr gyrfa gynnar drwy lwybrau strwythuredig, fel hyfforddeiaethau graddedig a rhaglenni 'datblygu eich cynllunwyr eich hun' . Mae'r dulliau hyn yn cefnogi datblygiad staff ac yn cynnig cadw staff yn y tymor hwy, yn enwedig pan fydd gan ymgeiswyr gysylltiad lleol. Fodd bynnag, gall y dulliau hyn roi pwysau ar dimau sydd eisoes dan straen, oherwydd trefniant y rhaglen a'r amser sydd ei angen i hyfforddi a chefnogi cynllunwyr gyrfa gynnar/hyfforddeion.

5.27. Mae defnyddio ymgynghorwyr allanol a staff asiantaeth wedi darparu rhyddhad cyflym mewn rhai achosion, yn enwedig lle roedd angen capasiti ar unwaith. Fodd bynnag, ystyrir yn eang bod hyn yn anghynnaladwy oherwydd costau uchel, yn enwedig yng nghanol cyfyngiadau ariannol a phwysau i arbed arian.

5.28. Mewn rhai achosion, mae rheolau llywodraeth leol wedi cael canlyniadau anfwriadol. Rhoddodd y rhan fwyaf o awdurdodau'r gorau i gynnig swyddi gradd gyrfa fel rhan o'r broses adolygu cyflog statws sengl. Mae hyn wedi llesteirio cadw staff. Gellir ond

cynnig taliadau atodol ar sail y farchnad pan fydd rhywun yn gadael swydd a bod sawl ymgais i recriwtio wedi bod yn aflwyddiannus. Ar ben hynny, mae'r taliadau atodol ar sail y farchnad fel arfer yn cael ei adolygu'n flynyddol, felly mae'n cynnig sicrwydd hirdymor cyfyngedig i ymgeiswyr.

- 5.29. At ei gilydd, er bod y rhan fwyaf o ddulliau wedi cyflawni rhywfaint o lwyddiant, mae anfanteision i bob un ohonynt. Mae'r atebion mwyaf cynaliadwy, fel datblygiad mewnol, recriwtio graddedigion a chadw staff yn gofyn am fuddsoddiad, sicrwydd cyllideb a chynllunio gweithlu strategol hirdymor.

ACLI: Problemau recriwtio yn y dyfodol

- 5.30. Pan ofynnwyd iddynt edrych ymlaen at y pum mlynedd nesaf, yn ogystal â'r heriau recriwtio a chadw staff a nodir uchod, tynnodd y 24 o ymatebwyr sylw at y problemau canlynol:
- Gweithlu sy'n heneiddio a phwll gostyngol o gynllunwyr profiadol;
 - Niferoedd annigonol yn ymuno â'r proffesiwn, a achosir yn rhannol oherwydd diffyg cynlluniau prentisiaeth a bwrsariaeth yng Nghymru;
 - Pwysau cyllidebol parhaus ar draws y Cyngor, gyda gwasanaethau cynllunio yn rhoi cymhorthdal i gostau cynyddol mewn gwahanol feysydd gwasanaeth fel gofal cymdeithasol, digartrefedd a thrafnidiaeth ysgol. Mae'r cymhorthdal hwn yn digwydd yn uniongyrchol drwy incwm ychwanegol o ffioedd ceisiadau cynllunio yn cael ei ddefnyddio i wrthbwysu bylchau cyllidebol mewn meysydd gwasanaeth eraill, ac yn anuniongyrchol drwy orfodaeth i wasanaethau cynllunio wneud toriadau cyllidebol blynyddol i wrthbwysu pwysau cyllidebol mewn meysydd gwasanaeth eraill;
 - mwy o gystadleuaeth gan y sector preifat, yn enwedig mewn meysydd fel ynni, lle ystyriwyd bod cyflog, cyfleoedd i ddatblygu a hyblygrwydd yn atyniad;
 - cyfaint a chymhlethdod gwaith y sector cyhoeddus gan gynnwys amlygiad i feirniadaeth gyhoeddus sy'n effeithio'n andwyol ar fodlonrwydd swydd.

Recriwtio a chadw staff PCAC

- 5.31. O ganlyniad i natur gwaith PCAC, mae rolau'r Arolygwr yn gofyn am unigolion sydd â phrofiad sylweddol. Er bod PCAC yn anaml yn recriwtio ymgeiswyr sydd eisoes â phrofiad fel Arolygydd, mae'r sefydliad yn gyffredinol yn cael ceisiadau cryf gan gynllunwyr profiadol ac arbenigwyr amgylcheddol. Fodd bynnag, mae amser paratoi i hyfforddi Arolygwyr newydd eu penodi cyn y gallant ymgymryd â'r gwaith achos mwyaf cymhleth (e.e. gwrandawiadau ac ymholiadau ar gyfer datblygiadau mawr). Mae hyfforddi Arolygwyr newydd yn cymryd tua 18–24 mis, sy'n golygu bod angen cynllunio carfanau recriwtio bach yn ofalus. Byddai cynyddu'r capasiti hyfforddi o fewn PCAC yn cefnogi'r gwasanaeth yn well yn y tymor hwy, felly mae PCAC yn cynnal adolygiad o'i gynllunio ar gyfer olyniaeth mewn rolau arweinyddiaeth i sicrhau bod eu gwybodaeth, hyfforddiant a mesurau sicrhau ansawdd gyda digon o adnoddau. Mae Rheolwyr Arolygwyr Cynllunio yn cael eu recriwtio'n fewnol, gan fod y rôl yn gofyn am unigolion sydd â phrofiad blaenorol yn y maes.
- 5.32. I gynorthwyo recriwtio, mae PCAC wedi defnyddio sawl dull gan gynnwys:
- Cynnig gweithio mwy hyblyg;
 - Datblygu eich Arolygwyr Cynllunio eich hun drwy hyfforddi a datblygu rolau swyddogion cynllunio yn PCAC (tri Arolygydd cyfredol drwy'r llwybr hwn);
 - Codi cyflogau – ym mis Hydref 2025 cyflwynodd PCAC lwfans recriwtio a chadw staff i'w gymharu â rolau cyfatebol yn yr Arolygiaeth Gynllunio (Lloegr);
 - Dod o hyd i secondiadau allanol o'r tu allan i PCAC;
 - Allanolli gwasanaethau;
 - Cydweithredu â PINS (Lloegr);
 - Recriwtio y tu allan i'r ddisgyblaeth gynllunio;
 - Cynnal sesiynau hyfforddi/uwchsgilio ychwanegol ar gyfer staff presennol.
- 5.33. Mae PCAC wedi defnyddio The Planner Jobs, LinkedIn, Indeed, e-bost drwy POSW a gwefan Llywodraeth Cymru i hysbysebu swyddi, ond roedd o'r farn bod LinkedIn

wedi codi proffil PCAC ei hun a'r proffesiwn cynllunio yn ehangach. Mae gan PCAC [becyn recriwtio](#) ar gael ar ei wefan.

- 5.34. Yn gyffredinol, mae PCAC wedi bod yn llwyddiannus wrth lenwi swyddi a hysbysebiri ar draws y gwahanol lefelau o fewn y gwasanaeth ac mae ganddo gyfraddau cadw staff cryf. Nid yw'n destun rhewi recriwtio Llywodraeth Cymru, gan fod y Prif Arolygydd Cynllunio wedi dirprwyo cyfrifoldeb dros faterion.
- 5.35. Mae PCAC yn cyflogi myfyriwr blwyddyn allan yn flynyddol, a rennir ag Adran Gynllunio LIC. Er y gallai fod galw am fyfyrwyr rhan-amser/myfyrwyr blwyddyn allan a/neu brentisiaid yn PCAC o fewn y pum mlynedd nesaf, mae'r angen am swyddogion profiadol o fewn PCAC yn effeithio ar recriwtio ar y lefel iau hon. Fodd bynnag, mae'r rôl blwyddyn allan hon yn darparu ehangder gwyb o brofiad i gynlluniwr newydd ac yn cefnogi prosesau datblygu'r llinell o gynllunwyr. Mae PCAC yn bwriadu cynyddu nifer y lleoliadau blwyddyn allan i ddau ar gyfer carfan 2026/27.
- 5.36. O ran cadw staff, mae nifer eithriadol o isel o arolygwyr cynllunio yn gadael PCAC i weithio yn rhywle arall.
- 5.37. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod, dylid sefydlu strategaeth recriwtio a chadw gynhwysfawr ar gyfer cynllunio yng Nghymru gan edrych ar bob llwybr i dyfu'r llinell o gynllunwyr, gan hyrwyddo gwerth unigryw a manteision allweddol cynllunio fel gyrfa yng Nghymru.. Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad ariannol sylweddol ac ymrwymiad gan bob plaid er mwyn sicrhau'r cynnydd hanfodol mewn lefelau adnoddau, gan gynnwys ymrwymiad gan ACLlau i ailfuddsoddi'r incwm ychwanegol o ffioedd ymgeisio sy'n deillio o gynnydd ffioedd Rhagfyr 2025 (argymhelliad 5).

6. Cyflogau

- 6.1. Archwiliodd ein hymchwil bwnc cyflogau yn gyffredinol, gan nodi amrywiadau rhwng gwahanol gyrff y sector cyhoeddus a ffactorau dylanwadol.

Cyflogau cynllunio y DU


- 6.2. Ledled y DU, mae cynllunwyr wedi profi toriad cyflog sylweddol mewn termau real ers 2005. Ynghyd â thimau sy'n crebachu, gwaith mwy cymhleth a disgwyliadau cyhoeddus a chraffu gwleidyddol mwy, mae sawl ffactor yn effeithio ar recriwtio yn y sector cyhoeddus.

- 6.3. Mae [Adroddiad Cyflwr y Proffesiwn RTPI 2023](#) yn nodi:

“The Annual Survey on Hours and Earnings, part of the labour force survey, allows us to estimate how the median salaries of town planners have changed over time. Due to low sample sizes, we must be cautious about any individual data point. Furthermore, we should expect significant geographic and demographic variation, which current data sources capture poorly. However, the general point stands: on the whole, town planners are more poorly paid today than they were in 2005. The nominal median salary over the past 17 years has hovered around £33,000 That means that in today’s money, the median planner was making close to £50,000 a year in 2005.”

- 6.4. Mae'r graff yn Ffigur 16 yn dangos cyflogau canolrifol enwol a chyflogau wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant swyddogion cynllunio rhwng 2006 a 2022 (GBP). Mae'n dangos bod y cyflog wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant yn 2006 ychydig dros £48,000. Yn 2022 roedd yn £34,000: toriad cyflog sylweddol mewn termau real.

Mae gwir gyflog cynllunwyr wedi gostwng yn sydyn



Ffigur 16: Cyflogau Cynllunwyr 2006-2022. Ffynhonnell: [Adroddiad Cyflwr y Proffesiwn RTPI 2023](#)

- 6.5. Dangosodd ymatebion arolwg a ddangoswyd yn [adroddiad Cyflwr y Proffesiwn \(2025\) RTPI ar gyfer Cymru](#) ystod cyflog moddol ar gyfer cynllunwyr rhwng £40,001 a £50,000. Fodd bynnag, roedd gwrthgyferbyniad yn yr ymatebion rhwng boddhad cyflog a boddhad gyrfa fel y gwelir yn Ffigur 17. Roedd bron i 70% o gynllunwyr Cymru yn fodlon â'u datblygiad gyrfa, gyda 54% o ymatebwyr yr arolwg aelodau RTPI hwn mewn swydd uwch-gynlluniwr, cynlluniwr cyswllt, neu brif gynlluniwr. Mewn cyferbyniad, dim ond ychydig dros hanner (52%) oedd yn fodlon ar eu cyflog. Nid yw hwn yn batrwm penodol i Gymru ac mae'n cael ei adlewyrchu ar draws gwledydd eraill y DU. Ar ben hynny, mae'n werth nodi nad yw Cymru yn disgyn y tu ôl i wledydd eraill y DU o ran dosbarthiad cyflogau.




Chart: RTPI • Created with Datawrapper

Ffigur 17: Cyflog a bodlonrwydd gyrfa yn y proffesiwn cynllunio yng Nghymru (2025).

Ffynhonnell: [Adroddiad Cyflwr y Proffesiwn 2025](#)

Cyflogau cynllunio yng Nghymru

- 6.6. Crëwyd bandiau cyflog cyfartalog y sector cyhoeddus o ddata a gasglwyd o swyddi a hysbysebwyd rhwng Medi 2022 a Mawrth 2025. Mae'r bandiau cyflog cyfartalog ar gyfer ACLlau, CNC, PCAC ac Is-adran Gynllunio LIC wedi'u nodi yn Atodiad 5
- 6.7. Mewn ymateb i'r arolwg ymchwil, roedd 72% o ACLlau o'r farn bod eu cyflogau'n is na chyflogau'r sector preifat. Fodd bynnag, yn ystod trafodaethau gyda'r sector preifat, awgrymodd un cyfrannwr fod y canfyddiad bod cyflogau preifat yn uwch na chyflogau'r sector cyhoeddus yn fwy o safbwynt hanesyddol yn hytrach nag yn adlewyrchu arfer cyfredol.
- 6.8. Mae'r data hwn yn dangos bod cyflogau cynllunio yn CNC yn gyffredinol is nag ACLlau, PCAC ac Is-adran Gynllunio LIC. At ei gilydd, mae cyflogau'n tueddu i fod yn uwch o fewn Is-adran Gynllunio LIC a PCAC. Ar lefelau uwch a rheoli, mae'n ymddangos bod PCAC yn cynnig cyflogau uwch o'i gymharu â sefydliadau eraill y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau o ran y data a gesglir, oherwydd

nifer bach y swyddi Prif Gynlluniwr/Cyfarwyddwr, cynllunwyr rheoli a chymorth busnes a hysbysebwyd yn ystod cyfnod yr arolwg (mis Medi 2022 i fis Mawrth 2025). Am y rheswm hwn, nid yw wedi bod yn bosibl nodi unrhyw amrywiadau rhanbarthol mewn cyflogau ar draws yr ACLlau. Mae angen cryfhau'r set ddata a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil hon wrth symud ymlaen er mwyn cael cynrychiolaeth fwy cywir o gyflogau cyfartalog yn y sector cyhoeddus.

Cymharu cyflogau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat

- 6.9. Gofynnwyd i Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru gymharu cyflogau'r sector preifat yn fras â'r data a gasglwyd ar gyflogau'r sector cyhoeddus. Yn wahanol i gyflogau'r sector cyhoeddus, anaml y mae'r sector preifat yn cyhoeddi cyflogau mewn hysbysebion swyddi ac yn ddiwylliannol mae'n gyffredinol yn amharod i drafod cyflogau. Dim ond dau unigolyn o'r Fforwm, yn gweithio i gwmnïau sector preifat ar wahân, oedd yn fodlon cymryd rhan yn y drafodaeth hon. Dim ond tystiolaeth anecdotaidd a ddarparodd hyn o ganfyddiadau a realiti cyflogau ar draws y sectorau, er gan nifer fach o gyfranwyr. Ategwyd yr adborth anecdotaidd hwn gan ymchwil a gyhoeddwyd gan Carrington West (gweler Atodiad 5).
- 6.10. Teimlai'r ddau gyfrannwr ei bod yn bwysig bod yn ymwybodol o'r amrywiad eang o ran meintiau cwmnïau a graddfeydd gweithredol yn y sector preifat, wrth ystyried cyflogau. Roedd y ddau gyfrannwr o'r farn bod cyflogau o fewn y sector preifat yn fras gyson â'r ystodau cyflog cyfartalog ar gyfer rolau yn y sector cyhoeddus a nodir yn Atodiad 5. Nododd un cyfrannwr o'r sector preifat yn benodol, yn ei brofiad ef, fod cyflogau'r sector preifat yn cyd-fynd yn dda ag ystodau cyflog cyfartalog Is-adran Gynllunio LIC. Ystyriwyd bod cyflogau lefel rheolwyr mewn PCAC yn uwch nag yn y sector preifat, er eu bod yn tynnu sylw at heriau wrth wneud cymariaethau uniongyrchol oherwydd gwahaniaethau sylweddol yn y setiau sgiliau sydd eu hangen ar y lefel honno yn y sector preifat o'i gymharu â PCAC. Rhaid cydnabod bod Arolygwyr Cynllunio yn bersonol gyfrifol am wneud penderfyniadau ar ran Gweinidogion Cymru, heb ymyrraeth gan unrhyw uwch reolwr, tra mewn ACLlau mae'r lefel honno o gyfrifoldeb fel arfer yn disgyn ar Brif Swyddog Cynllunio ac yn y sector preifat mae penderfyniadau sy'n ymwneud â chleientiaid yn disgyn yn y pen draw ar gyfarwyddwr.

- 6.11. Er bod rhywfaint o gysondeb yn lefelau cyflogau'r sectorau cyhoeddus a phreifat, mae gwahaniaethau nodedig yn parhau o ran diwylliant sefydliadol, arferion busnes ac amodau cyflogaeth ehangach. Efallai nad yw canfyddiadau hanesyddol am anghydraddoldebau cyflog yn adlewyrchu'r amgylchedd presennol mwyach.
- 6.12. Mae sawl ffactor yn dylanwadu ar wahaniaethau cyflog ar draws y sector. Gall cynlluniau pensiwn amrywio'n sylweddol rhwng sectorau, gyda phensiynau'r sector cyhoeddus yn aml yn cael eu crybwyll fel rhan ddeniadol o'r pecyn cyflog cyffredinol. O fewn ACLlau, mae safbwyntiau stereoteip am oriau gwaith 9 i 5 yn hanes i raddau helaeth, gyda llawer o ymatebwyr yn nodi eu bod yn aml yn gweithio oriau di-dâl ychwanegol. Wedi dweud hynny, mae hawl i wyliau blynyddol fel arfer yn fwy hael yn y sector cyhoeddus, ac mae swyddi nad ydynt yn swyddi rheoli yn elwa o amser hyblyg. Roedd pandemig Covid-19 yn golygu bod llawer o'r arferion gweithio hyblyg ehangach a gynigiwyd yn draddodiadol gan y sector cyhoeddus, fel oriau gwaith hyblyg, gweithio ystwyth neu gontractau rhan-amser, bellach yn gyffredin yn y sector preifat hefyd.
- 6.13. Mae gan y sector preifat ddiwylliant bonws a buddion meddalach fel gofal iechyd preifat ac aelodaeth o'r gampfa, rhaglen fentora sefydledig a rhagolygon gyrfa deniadol. Mae'r sector cyhoeddus wedi'i rwymo gan haenau anhyblyg a graddfeydd cyflog safonol tra bod y sector preifat yn cynnig mwy o hyblygrwydd wrth negodi cyflogau, wedi'i ddylanwadu gan ffactorau fel perfformiad unigol, galw neu broffidioldeb cwmnïau, gan arwain yn y pen draw at anghydraddoldebau mewn cyflogau rhwng sectorau.
- 6.14. Yn y sector preifat, mae angen statws siartredig i ennill comisiynau a sicrhau dyrchafiad, ac mae'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Mewn cyferbyniad, mae statws Siartredig wedi'i ddileu o rai disgrifiadau swyddi'r sector cyhoeddus mewn ymateb i heriau recriwtio: er syndod, nid yw pob un o Brif Gynllunwyr Cymru yn Siartredig. Rhaid i lawer o weithwyr ACLI ariannu eu haelodaeth broffesiynol eu hunain, ac yn rhyfeddol, mewn rhai achosion mae'n rhaid iddynt ariannu eu DPP eu hunain oherwydd diffyg cyllideb hyfforddi. Mae hyn yn adlewyrchu diffyg gwerthfawrogiad siomedig o broffesiynau gan rai awdurdodau lleol.

- 6.15. Cyhoeddodd Carrington West '[Arolwg Cyflogau a Chanllaw 2025 ar gyfer Amgylchedd Adeiledig y DU](#)': mae'r llyfryn yn cydnabod y problemau adnoddau yn y rhan fwyaf o adrannau cynllunio awdurdodau lleol ac ymgynghoriaethau cynllunio. Ym mis Hydref, cyhoeddodd y Canghellor gynlluniau ar gyfer buddsoddiad o £46 miliwn er mwyn helpu i gyflogi 300 o raddedigion a phrentisiaid i weithio mewn awdurdodau cynllunio lleol yn Lloegr mewn ymateb i ostyngiad o 20% mewn termau real mewn cyllidebau ers 2008 ([adroddiad Cyflwr y Proffesiwn Lloegr 2025](#)). Er gwaethaf swm bach o gyllid ar gyfer y cynllun Llwybrau i Gynllunio (sydd wedi cael ei fanteisio'n gyfyngedig), nid oes unrhyw fuddsoddiad cymharol mewn recriwtio na thyfu'r llinell gynllunwyr yng Nghymru er gwaethaf gostyngiad termau real llawer mwy (43%) yng nghyllidebau ACLlau dros yr un cyfnod. Dywedodd un ymatebydd ACLI
- 6.16. Ffactor arall a allai ddylanwadu ar atyniad y sectorau yw amlygiad i gamdriniaeth a beirniadaeth. Canfu arolwg aelodaeth RTPI 2025, [adroddiad Cyflwr y Proffesiwn ar gyfer Cymru](#) od 79% o gynllunwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi profi camdriniaeth yn gysylltiedig â gwaith o'i gymharu â 50% o weithwyr y sector preifat.
- 6.17. Byddai angen astudiaeth bellach, sy'n casglu mwy o ddata, i fesur, egluro a deall y tueddiadau hyn yn well yn ogystal ag archwilio'r ffactorau, heblaw cyflog, sy'n dylanwadu ar ddewis sector cyflogaeth ymarferwyr cynllunio (gweler argymhelliad 5).


7. Gweithlu'r dyfodol a chynllunio ar gyfer olyniaeth

Proffil oedran cynllunio'r sector cyhoeddus

- 7.1. Gwnaeth [adroddiad Cyflwr y Proffesiwn RTPI \(2023\)](#) amcangyfrif bod 1,500 o gynllunwyr yng Nghymru (ar draws pob sector) yn 2023. Mae hyn mewn cymhariaeth ag [amcangyfrif o 800 o gynllunwyr yng Ngogledd Iwerddon, 1,600 yn Yr Alban, a 18,100 yn Lloegr](#). Aeth adroddiad Cyflwr y Proffesiwn ymlaen i egluro, rhwng 2009 a 2023, fod cynllunwyr sy'n gweithio yn y sector preifat wedi tyfu, tra bod nifer y cynllunwyr sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus wedi gostwng. "Estimates in the

Annual Population Survey suggest that in the period 2013-2020 a quarter of planners could have left the public sector”, ledled y DU.

- 7.2. Gofynnodd [adroddiad Cyflwr y Proffesiwn ar gyfer Cymru \(2025\) RTPI](#) i aelodau RTPI sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru am eu cynlluniau gyrfa ymhen tair blynedd (Ffigur 18):



Siart: RTPI • Wedi'i greu gyda

Ffigur 18 Cynllun gyrfa tair blynedd ymatebwyr aelodau RTPI yng Nghymru


Ffynhonnell: [Cyflwr y Proffesiwn 2025: Cymru](#)

- 7.3. Mae'r data y tu ôl i'r graff uchod yn dangos bod 38% o gynllunwyr y sector cyhoeddus yn disgwyl aros lle maen nhw'n gweithio ar hyn o bryd (o'i gymharu â 47% o gynllunwyr y sector preifat). Roedd cyfran uwch o gynllunwyr y sector preifat (28%) yn bwriadu chwilio am gyfleoedd yn rhywle arall yn y sector preifat, tra mai dim ond 16% o gynllunwyr y sector cyhoeddus oedd yn bwriadu symud i rywle arall yn y sector cyhoeddus. Dim ond 2.2% o gynllunwyr y sector cyhoeddus oedd yn debygol o geisio symud i'r sector preifat, ac roedd 0.7% bach iawn o gynllunwyr y sector preifat yn debygol o wneud y gwrthwyneb. Fodd bynnag, y brif broblem ar gyfer dyfodol cynllunio'r sector cyhoeddus yw gweithlu sy'n heneiddio, gyda 16% o gynllunwyr y sector cyhoeddus yn bwriadu ymddeol yn y tair blynedd nesaf:

“Overall, the sum of respondents wanting to leave the profession, and those intending to retire suggests that 17.6% will likely be leaving planning in the coming three years.”

- 7.4. Mae'r data hwn yn cyd-fynd â'n hymchwil ar broffil oedran gweithlu cynllunio'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Proffil oedran y sector cyhoeddus



Ffigur 19: Proffil oedran amcangyfrifedig cynllunwyr o fewn ymatebwyr ACLlau, Adran Gynllunio LIC a PCAC. Data a gafwyd mynediad iddo drwy arolwg ymchwil RTPI (Mai 2025).

- 7.5. Mae'r data yn Ffigur 19 yn dangos y data oedran ar gyfer y sector cynllunio cyhoeddus yng Nghymru:

- Mae 8% o'r gweithlu rhwng 16 a 24 oed;

- Mae 16% o'r gweithlu rhwng 25 a 34 oed;
- Mae 35% o'r gweithlu rhwng 35 a 44 oed;
- Mae 25% o'r gweithlu rhwng 45 a 54 oed;
- Mae 16% o'r gweithlu rhwng 55 a 64 oed;
- Mae 1% o'r gweithlu yn 65+ oed;

- 7.6. Mae'r graff uchod yn dangos bod potensial i golli 17% (95 o gynllunwyr: y rhai 55 oed a hŷn) o gynllunwyr y sector cyhoeddus o'r gweithlu o fewn y pump i 10 mlynedd nesaf oherwydd ymddeoliad. Mae'r ffigur hwn yn cynyddu i 42% (234 o gynllunwyr: y rhai 45 oed a hŷn wrth edrych ar orwel tymor canolig o 10 i 20 mlynedd. Oni bai bod gwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth cadarn ar waith, wedi'i ategu gan lif cryf o gynllunwyr newydd, bydd y golled hon o wybodaeth ac arweinyddiaeth gynllunio yn cael effaith drychinebus ar ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau cynllunio.
- 7.7. Mae ein hymchwil yn dangos crynodiad o gynllunwyr canol gyrfa (35-44 oed), a allai fod mewn sefyllfa dda i symud ymlaen i rolau uwch/rheoli. Fodd bynnag, clywsom bryder eang hefyd bod cynllunwyr gyrfa gynnar yn amharod i ymgymryd â rolau uwch. Mae angen ymchwil pellach i ddeall a mynd i'r afael â'r amharoddrwydd hwn. Rhaid i gefnogi cynllunwyr canol gyrfa fod yn flaenoriaeth allweddol. Mae hyn yn gofyn am amser ac adnoddau sydd ar goll ar hyn o bryd, er mwyn darparu uwchsgilio, hyfforddiant rheoli, mentora a throsglwyddo gwybodaeth o fewn timau.
- 7.8. Mae angen i ddatblygiad y gweithlu ar y lefel ganol gyrfa hon fynd law yn llaw â meithrin a chynyddu'r nifer gymedrol o gynllunwyr ifanc sydd wedi ymuno â'r proffesiwn. Dim ond 8% o weithlu'r sector cyhoeddus yn yr ACLlau sy'n ymateb, Is-adran Gynllunio LIC a PCAC sy'n ffurfio'r ystod oedran 16-24 oed. Mae'r cynllunwyr ifanc hyn yn cynrychioli dyfodol ein proffesiwn ac arweinwyr yfory. Bydd anogaeth, hyfforddiant a throsglwyddo gwybodaeth yn ystod y cam hwn yn eu gyrfa yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol. Gallai strategaethau ymarferol gynnwys hyfforddiant, prentisiaethau, interniaethau a bwrsariaethau. Gall buddsoddi mewn sgiliau personol, gan gynnwys cyfathrebu a rheoli prosiectau wrth ddatblygu sgiliau technegol a dealltwriaeth i gyd helpu i gadw talent ifanc. Trafodir hyn ymhellach yn Adran 9. Yn ddiweddar, mae'r RTPI wedi lansio [platfform mentora ar-lein](#) sydd ar gael i bob aelod yn ogystal â'i gyfle cysgodi Prif Gynllunwyr Yfory. Mae'r rhaglen fentora newydd yn

canolbwyntio ar ddatblygiad gyrfa cyffredinol, waeth beth fo'r cam gyrfa. Mae'r rhaglen hon yn cysylltu cynllunwyr gan ganiatáu iddynt rannu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad i helpu ei gilydd i symud ymlaen yn eu gyrfaedd, symud i feysydd newydd, neu lywio heriau penodol.


- 7.9. Mae'r gyfran fwyaf o'r gweithlu (35%) o fewn yr ystod oedran 35-44 oed, sy'n dangos bod carfan gref o gynllunwyr canol gyrfa yn gweithio o fewn ACLlau ar hyn o bryd. Mae hyn yn awgrymu cryfder presennol o gynllunwyr profiadol a allai, gyda chefnogaeth, fod yn barod i gamu ymlaen i rolau uwch a rheoli. Dim ond 16% o'r gweithlu sydd rhwng 25 a 34 oed, sy'n adlewyrchu dros ddegawd o fesurau cyni a llai o recriwtio yn y sector cyhoeddus.
- 7.10. Mae cyfran sylweddol o'r gweithlu (42%) dros 45 oed, ac mae 17% dros 55 oed. Mae hyn yn codi pryderon yn y tymor byr i ganolig ynghylch ymddeol, colli profiad, sgiliau a gwybodaeth sefydliadol, yn enwedig o ystyried y gyfran isel o bobl o dan 35 oed ar gyfer cynllunio ar gyfer olyniaeth tymor hwy. Er bod yr oedran ymddeol statudol yn cynyddu, amser a ddengys pa gyfran o'r gweithlu sy'n dewis gweithio'n hirach, yn enwedig o ystyried teimladau o ddiffygiad oherwydd pwysau di-baid. Gallai'r newid i bensiynau cyflog cyfartalog alluogi rhai pobl i weithio llai o oriau neu newid i rôl is i gydbwysu aros mewn cyflogaeth â llai o straen, a thrwy hynny leddfu effaith y gweithlu sy'n heneiddio hwn.
- 7.11. Mae cyfran y gweithlu dros 45 oed yn cynyddu i 50% wrth edrych ar dimau gorfodi cynllunio yn unig (Atodiad 6), gan amlygu angen dybryd am gynllunio ar gyfer olyniaeth yn y maes hwn.
- 7.12. Dim ond 8% o'r gweithlu sydd rhwng 16 a 24 oed. Mae datblygu prentisiaethau cynllunio a thwf mewn bwrsariaethau yng Nghymru yn hanfodol i gryfhau'r ystod oedran hon yn y dyfodol. Mae ffioedd ceisiadau cynllunio uwch yn darparu incwm ychwanegol ar gyfer ailfuddsoddi mewn darparu gwasanaethau, ac mae angen i Benaethiaid Cynllunio, Prif Swyddogion Cyllid a gwleidyddion ddangos arweinyddiaeth gref wrth sicrhau'r ailfuddsoddiad hwn. Fodd bynnag, mae cynlluniau bwrsariaeth a phrentisiaeth yn cymryd amser i'w datblygu ac mae angen

buddsoddiad ariannol sylweddol arnynt, yn ogystal ag amser a chapasiti ar gyfer mentora.

- 7.13. Mae angen ystyried yr angen clir am dwf yn yr ystodau oedran 16-24 oed a 25-34 oed: rhaid cryfhau'r carfanau oedran hyn i gydbwyso'r ymddeoliadau a ragwelir o fewn yr ystodau oedran uwch dros y pump i 10 mlynedd nesaf. Mae'n arwydd o botensial ar gyfer mwy o gydweithio rhwng rhanddeiliaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, CLILC, RTPI, prifysgolion ac ymarferwyr ar recriwtio gyrfa gynnar a strategaethau i gryfhau'r niferoedd hyn. Mae angen ymrwymiad hirdymor i brentisiaethau a bwrsariaethau, datblygu sgiliau a chynnig dilyniant mewnol yn y dyfodol ar y categorïau oedran hyn. Mae hyn yn gofyn am fuddsoddi amser i ddatblygu cyrsiau ac i fentora cyfranogwyr, buddsoddiad ariannol a chapasiti ar gyrsiau achrededig.

Proffil oedran CNC

- 7.14. Cynhaliodd CNC ei ymarfer cynllunio gweithlu ei hun ym mis Mawrth 2024 ac mae wedi darparu'r data hwnnw. Mae canlyniadau proffil oedran gwasanaeth CNC wedi'u nodi yn Ffigur 20. Mae'r data hwn yn cynnwys cyfres ehangach o swyddogaethau na chynllunio yn unig, ond mae'n rhoi darlun defnyddiol. Yr oedran cyfartalog yng ngwasanaeth cynghori/rheoli achosion CNC yw 41 oed.



Ffigur 20: Dosbarthiad oedran amcangyfrifedig Gwasanaeth Cynllunio Datblygu

Cenedlaethol a Chyngor Morol CNC, gan gynnwys cynllunwyr. Data a gafwyd mynediad iddo drwy arolwg ymchwil RTPi (Mai 2025).

7.15. Mae'r data yn Ffigur 20 yn dangos y data oedran amcangyfrifedig ar gyfer CNC:

- Mae 13% o'r gweithlu o dan 29 oed;
- Mae 25% o'r gweithlu rhwng 30 a 39 oed;
- Mae 33% o'r gweithlu rhwng 40 a 49 oed;
- Mae 25% o'r gweithlu rhwng 50 a 59 oed;
- Mae 3% o'r gweithlu dros 60 oed.

8. Sgiliau a chapasiti

Sgiliau a chapasiti ACLlau:

Dyletswyddau ychwanegol sy'n effeithio ar y system gynllunio ers mis Ebrill 2018

- 8.1. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r system gynllunio wedi wynebu ystod gynyddol o ddyletswyddau ychwanegol, sydd wedi cael effaith sylweddol ar gapasiti a chyflawniad o fewn y system gynllunio. Nid yw'r adroddiad hwn yn asesu gwerth y dyletswyddau ychwanegol unigol ar y system. Fodd bynnag, mae'n cydnabod y bwriad a'r uchelgais y tu ôl i'r newidiadau hynny, ochr yn ochr â mwy o bwysau ar y system, oherwydd nad yw'r dyletswyddau ychwanegol yn cael eu hadnoddau'n llawn, neu'n gofyn am uwchsgilio cynllunwyr neu swyddogion arbenigol sydd eisoes dan bwysau fel ecolegwyr.
- 8.2. Gofynnwyd i bob ACLl roi trosolwg o ddyletswyddau ychwanegol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chapasiti'r gwasanaeth cynllunio ac yn effeithio ar gapasiti'r gwasanaeth cynllunio ers mis Ebrill 2018. Mae eu hymatebion wedi'u nodi isod.

8.3. Dyletswyddau ychwanegol

- Baich mwy o waith gydag ecoleg/bioamrywiaeth;
- Gofynion polisi - tai fforddiadwy, hyfywedd, gofynion seilwaith gwyrdd, gwella bioamrywiaeth, asesiadau effaith treftadaeth, asesiadau effaith tirwedd a gweledol;
- Agenda cynllunio rhanbarthol;
- Cyfrifoldebau a chyfyngiadau deddfwriaethol cynyddol megis canllawiau Ffosffad CNC;
- Cynnydd mewn prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr;
- Effaith gofynion niwtraliaeth maetholion, gan gynyddu'n fuan i gynnwys ACAu morol;
- Amserlenni ar gyfer penderfynu ar geisiadau o fewn dalgylch yr ACA;
- Gwella bioamrywiaeth, datganiadau GI, datganiadau draenio, proses SAB, adolygiad ffyrdd, llifogydd a TAN15;
- Mae cynlluniau DNS a'r LIR gofynnol yn dreth sylweddol ar adnoddau staff gydag ychydig iawn o amser i wneud y gwaith sydd ei angen a dim digon o dâl ffioedd o'i gymharu â'r ffi a gedwir gan PCAC;
- Technolegau newydd e.e. cynhyrchu hydrogen, canolfannau data
- Ystyriaethau newydd o ran sero net a lleihau carbon;
- Cyfrifoldebau a rolau ychwanegol yn cael eu rhoi ar uwch staff sydd bellach yn rheoli nifer o dimau a disgyblaethau eraill yn aml;
- Craffu cyhoeddus;
- Yr angen i uwchsgilio'n gyflym.

8.4. Proses

- Dyddiadau terfynol CDLI;
- Cymwysiadau o ansawdd gwael;

- Diwylliant ymglyfreitha, osgoi risgiau ac adroddiadau hirach;
- Disgwyliadau cwsmeriaid (ers covid) gan gynnwys mwy o wybodaeth am ryddid gwybodaeth;
- Mwy o bwyslais yn cael ei roi ar greu lleoedd a dylunio;
- Cymhlethdod cynyddol o ran delio â cheisiadau bach a cheisiadau gan ddeiliaid tai;
- Mwy o graffu ac ymgynghori yn gyffredinol ar bob cais;
- Mae achosion yn dod yn fwy cymhleth ond nid yw'r amserlenni ar gyfer penderfynu wedi newid;
- Y lefel o olygu gwybodaeth sydd ei hangen nawr;
- Llwytho CDLI ymlaen llaw / proses CDLI fwy cymhleth;
- Mae ceisiadau DNS yn rhoi pwysau ychwanegol ar ACLlau heb ddarparu'r adnoddau angenrheidiol i'w cefnogi (e.e. ffioedd cynllunio);
- Mae llawlyfr CDS newydd a'r pwysau gan Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar gynllunio rhanbarthol heb adnoddau ychwanegol wedi tynnu sylw Awdurdodau ymhellach oddi wrth gyflawni CDLlau.

8.5. **Diffyg arweiniad**

- Newidiadau mewn deddfwriaeth heb ganllawiau ymarferol ategol;
- Amllder cael cyngor bargyfreithwyr oherwydd dehongliad anghyson o ddeddfwriaeth.

8.6. **Cyllidebau**

- Incwm - mae newidiadau i ddeddfwriaeth Cynllunio Llywodraeth Cymru wedi arwain at geisiadau ar raddfa fawr e.e. datblygiadau ynni yn cael eu penderfynu gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na'r awdurdod cynllunio lleol, gyda cholled incwm ffioedd o ganlyniad o £0.9m;
- Effaith negyddol ad-dalu ffioedd cynllunio.

8.7. **Capasiti**

- Mae lefelau staffio wedi lleihau'n sylweddol dros gyfnod hir;
- Angen mwy o ARhCau - diffyg ecolegwyr i'w cynnal;
- Trosiant staff yn uchel.


"Mae llawer o reolwyr polisi cynllunio bellach yn gyfrifol am lawer mwy na pholisi cynllunio ac mae gan rai arbenigeddau gwaith hollol wahanol." (Ymatebydd ACLI)

"Yn gyffredinol, mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi gorfod delio â storm berffaith o heriau dros gyfnod hir. Yn ogystal â'r llwyth gwaith sy'n cynyddu'n barhaus, mae'r heriau hyn yn cynnwys prinder adnoddau staff, anawsterau recriwtio sy'n gysylltiedig â chyflog a gwobrau, disgwyliadau datblygwyr, eu hasiantau, y cyhoedd a gwleidyddion, ac ehangu gofynion cynllunio a phrosesau (gan gynnwys deddfwriaeth)." (Ymatebydd ACLI)

- 8.8. Os yw ACLI am groesawu a chyflawni'r dyletswyddau ychwanegol hyn yn llawn, mae'n hanfodol bod strwythurau cymorth, adnoddau digonol, digon o amser a hyfforddiant i gyd ar waith.

Nodi a mynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau a chapasiti

8.9. Gofynnwyd i ACLlau, yn eu barn nhw, a oes gan eu tîm ddigon o bobl â'r sgiliau canlynol i weithio'n effeithiol. Mae'r 24 ymateb a gafwyd wedi'u nodi yn Ffigur 21.



Ffigur 21: Sgiliau a bylchau sgiliau o fewn ACLlau a ymatebodd. Data a gafwyd mynediad iddo drwy arolwg ymchwil RTPI (Mai 2025).

8.10. Eglurir y data yn Ffigur 21 isod:

- O ran hyfwydd, ymatebodd 75% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl arnynt gyda'r sgil hwn. Dywedodd 12.5% eu bod yn prynu hyn gan

ymgynghorwyr, dywedodd 8.3% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgîl hwn, a dywedodd 4.2% eu bod yn prynu hyn gan ACLI arall;

- O ran dylunio trefol, ymatebodd 62.5% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl arnynt gyda'r sgîl hwn. Dywedodd 8.3% eu bod yn prynu hyn gan ymgynghorwyr, dywedodd 16.7% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgîl hwn, dywedodd 4.2% eu bod yn prynu hyn gan ACLI arall, a dywedodd 8.3% nad oes angen y sgîl hwn yn eu ACLI;
- O ran trafnidiaeth a phriffyrdd, ymatebodd 45.8% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl arnynt gyda'r sgîl hwn. Dywedodd 4.2% eu bod yn prynu hyn gan ymgynghorwyr, dywedodd 37.5% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgîl hwn, dywedodd 4.2% eu bod yn prynu hyn gan ACLI arall, a dywedodd 8.3% nad oes angen y sgîl hwn yn eu ACLI;
- O ran SDCau / SAB / llifogydd, ymatebodd 41.7% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl gyda'r sgîl hwn arnynt, dywedodd 45.8% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgîl hwn, dywedodd 8.3% eu bod yn prynu hyn gan ACLI arall, a dywedodd 4.2% nad oes angen y sgîl hwn yn eu ACLI;
- O ran ail gartrefi, ymatebodd 37.5% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl gyda'r sgîl hwn arnynt, dywedodd 33.3% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgîl hwn, a dywedodd 29.2% nad oes angen y sgîl hwn yn eu ACLI;
- O ran manwerthu, ymatebodd 33.3% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl arnynt gyda'r sgîl hwn. Dywedodd 45.8% eu bod yn prynu hyn gan ymgynghorwyr, a dywedodd 20.8% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgîl hwn;
- O ran adfywio, ymatebodd 29.2% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl arnynt gyda'r sgîl hwn. Dywedodd 4.2% eu bod yn prynu hyn gan ymgynghorwyr, dywedodd 58.3% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgîl hwn, a dywedodd 8.3% nad oes angen y sgîl hwn yn eu ACLI;
- O ran llunio polisi, ymatebodd 37.5% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl arnynt gyda'r sgîl hwn, a dywedodd 62.5% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgîl hwn;
- O ran mwynau a gwastraff, ymatebodd 8.3% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl arnynt gyda'r sgîl hwn. Dywedodd 4.2% eu bod yn prynu hyn gan

ymgynghorwyr, dywedodd 16.7% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgîl hwn, dywedodd 62.5% eu bod yn prynu hyn gan ACLI arall, a dywedodd 8.3% nad oes angen y sgîl hwn yn eu ACLI;

- O ran uwchgynllunio, ymatebodd 58.3% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl arnynt gyda'r sgîl hwn. Dywedodd 12.5% eu bod yn prynu hyn gan ymgynghorwyr, dywedodd 25% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgîl hwn, a dywedodd 4.2% nad oes angen y sgîl hwn yn eu ACLI;
- O ran gwasanaethau cyfreithiol e.e. Adran 106 a CPOs, ymatebodd 50% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl arnynt gyda'r sgîl hwn. Dywedodd 8.3% eu bod yn prynu hyn gan ymgynghorwyr, a dywedodd 41.7% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgîl hwn;
- O ran tirwedd, ymatebodd 70.8% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl arnynt gyda'r sgîl hwn. Dywedodd 4.2% eu bod yn prynu hyn gan ymgynghorwyr, dywedodd 20.8% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgîl hwn, a dywedodd 4.2% eu bod yn prynu hyn gan ACLI arall;
- O ran seilwaith a chyfleustodau, ymatebodd 58.3% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl gyda'r sgîl hwn arnynt, dywedodd 33.3% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgîl hwn, a dywedodd 8.3% nad oes angen y sgîl hwn yn eu ACLI;
- O ran effeithlonrwydd ynni, ymatebodd 62.5% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl gyda'r sgîl hwn arnynt, dywedodd 33.3% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgîl hwn, a dywedodd 4.2% nad oes angen y sgîl hwn yn eu ACLI;
- O ran ecoleg a bioamrywiaeth, ymatebodd 58.3% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl arnynt gyda'r sgîl hwn. Dywedodd 37.5% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgîl hwn, a dywedodd 4.2% eu bod yn prynu hyn gan ACLI arall;
- O ran digidol a data, ymatebodd 50% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl arnynt gyda'r sgîl hwn, a dywedodd 50% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgîl hwn;
- O ran cadwraeth a threftadaeth, ymatebodd 58.3% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl arnynt gyda'r sgîl hwn. Dywedodd 4.2% eu bod yn prynu hyn gan ymgynghorwyr, dywedodd 29.2% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgîl hwn, a dywedodd 8.3% eu bod yn prynu hyn gan ACLI arall;

- O ran cyfranogiad ac ymgysylltu â'r gymuned, ymatebodd 29.2% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl arnynt gyda'r sgîl hwn. Dywedodd 8.3% eu bod yn prynu hyn gan ymgynghorwyr, dywedodd 58.3% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgîl hwn, a dywedodd 4.2% nad oes angen y sgîl hwn yn eu ACLI;
- Ac yn olaf, o ran gwerthusiadau amaethyddol, ymatebodd 25% o ACLlau gan ddweud bod angen mwy o bobl arnynt gyda'r sgîl hwn. Dywedodd 54.2% eu bod yn prynu hyn gan ymgynghorwyr, dywedodd 12.5% fod ganddynt ddigon o bobl gyda'r sgîl hwn, a dywedodd 8.3% nad oes angen y sgîl hwn yn eu ACLI;

8.11. Gofynnwyd i ACLlau hefyd a ellid darparu unrhyw sgiliau neu wasanaethau sy'n gysylltiedig â chynllunio yn effeithiol fel cydwasanaeth, ac ar ba ôl troed y byddai hynny'n gweithio orau. Roedd ACLlau yn agored i drafodaethau ynghylch cydwasanaethau i raddau helaeth. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch llywodraethu, cyllid, a'r risg o ailddosbarthu staff sydd dan bwysau mawr yn unig. O'r cyfweiliadau ymchwil, ystyriwyd yn eang bod cydwasanaethau yn fwyaf hyfyw lle mae gwybodaeth leol yn llai hanfodol a lle mae cysondeb rhanbarthol, arbenigedd arbenigol a gwydnwch yn fuddiol. Hyd yn oed wedyn, ystyriwyd bod angen rolau clir a chyllid. Fodd bynnag, mae heriau ymarferol yn parhau, gan gynnwys gofynion teithio ar gyfer ymweliadau â safleoedd, gwahaniaethau cyflog, ac ACLI yn pryderu eu bod yn colli'r gallu i ddylanwadu ar flaenoriaethau gwaith.

8.12. Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr ehangu ar eu sgiliau a'u gallu. Manteisiodd chwe ymatebydd ar y cyfle i godi nifer o faterion, gan gynnwys:

“Mae'r rhan fwyaf o'r gallu o ran sgiliau y tu allan i gwmpas y gwasanaeth ac yn destun blaenoriaethau cystadleuol a strategaeth ariannol tymor canolig. Weithiau gallwn oresgyn hyn drwy groes-gyllido drwy PPAs ac ati ar sail ad hoc ond gall mwy o adnoddau ganiatáu mesurau mwy parhaol.” (Ymatebydd ACLI)

“Byddem â diddordeb mewn archwilio cydwasanaethau yn y dyfodol, yn enwedig mewn swyddi arbenigol sy'n anodd recriwtio ar eu cyfer. Rydym wedi gweithio'n llwyddiannus gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Sir Benfro er

mwyn helpu i uwchsgilio person mewnol i ddod yn swyddog coed. Roedd hi'n wych." (Ymatebydd ACLI)

- 8.13. Ar ben hynny, anaml y mae'r arbenigwyr sy'n darparu mewnbwn hanfodol i benderfyniadau cynllunio yn gweithio ar gynllunio yn unig. Fel y nododd un ymatebydd arolwg ACLI, "mae ecolegwyr, arborwyr, peirianwyr priffyrdd a draenio wedi'u hymgorffori mewn meysydd gwasanaeth eraill gan gyflawni amrywiaeth o ddyletswyddau eraill. Byddai'n anodd tynnu'r rhain i ffwrdd yn effeithiol i gydwasanaeth."
- 8.14. Yn aml, mae'r cydwasanaethau mwynau a gwastraff llwyddiannus, a redir ar draws Gogledd a De Cymru, yn cael eu crybwyll fel llwyddiant. Fodd bynnag, annhebygol y bydd yr ôl troed hwn yn gweithio ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd pwnc.

"Yn fy marn i, byddai'n anodd iawn darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chynllunio ar sail a rennir gyda budd penodol/ystyrlon, heblaw am leihau costau rheoli o bosibl. Rwy'n gyfrifol am Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac mae yna bosibilrwydd o gydweithio rhanbarthol yn fy marn i ond nid gwasanaeth sy'n gysylltiedig â chynllunio mewn gwirionedd." (Ymatebydd ACLI)

"Lle mae sgiliau angen ymweliadau â safleoedd yna mae yna ardal fwyaf y gallant ei gwmpasu cyn i gost ac amser teithio droi'r fantol i fod yn llai effeithlon. Byddai ardaloedd isranbarthol fel tair i bedair ardal awdurdod lleol yn sail dda ar gyfer sgiliau arbenigol." (Ymatebydd ACLI)


"Mae gweithio ar y cyd yn gofyn am ymrwymiad nid yn unig i weld gostyngiad mewn costau, ond i ddarparu gwydnwch, capasiti, cysondeb a chefnogaeth gan gymheiriaid wrth ddarparu sgiliau arbenigol." (Ymatebydd ACLI)

"Gall y dull hwn gymhlethu blaenoriaethu llwyth gwaith. Byddai sicrhau bod gan ACLlau adnoddau priodol yn fwy buddiol ar gyfer darparu gwasanaeth cyflym ac effeithlon." (Ymatebydd ACLI)

Dosbarthiad gofodol bylchau mewn sgiliau a chapasiti arbenigol

- 8.15. Mae data o Ffigur 21 wedi'i rannu yn yr adran isod i arddangos canran yr ACLlau o fewn pedwar rhanbarth y CJC a atebodd 'Mae gan fy ACLI ddigon o bobl â'r sgil hon'. Nid yw'r mapiau isod yn cynnwys data gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol oherwydd bod dau o'r tri Pharc Cenedlaethol yn cwmpasu sawl rhanbarth.
- 8.16. Gofynnwyd i PCAC ac Is-adran Gynllunio LIC roi eu barn ar sgiliau ACLI ac a oeddent yn ystyried bod bylchau sgiliau eang, lleol neu ddim bylchau sgiliau ar gyfer gwahanol bynciau. Caiff eu barn ei chynnwys isod. Ychwanegodd CNC fod bwlch eang mewn perthynas â niwtraliaeth maetholion a chyingor Rheoliadau Cynefinoedd.
- 8.17. Yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn, mae argymhelliad 6 yn nodi meysydd pwnc y dylid eu harchwilio ymhellach i'w cyflawni ar ardal fwy na'r ardal leol.

Adfywio



Ffigur 22: Map o ddigonolrwydd sgiliau adfywio

- 8.18. Mae'r data yn Ffigur 22 yn dangos:
- Dywedodd 33% o ACLlau yng Ngogledd Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgil hwn;


- Dywedodd 50% o ACLlau yng Nghanolbarth Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
- Dywedodd 25% o ACLlau yn Ne-orllewin Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
- Dywedodd 90% o ACLlau yng Ne-ddwyrain Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn.

- 8.19. Mae'r ymatebion ar gyfer capasiti adfywio yn rhoi darlun cymysg iawn, yn amrywio o 90% o ACLlau yn Ne-ddwyrain Cymru o ystyried bod ganddynt gapasiti digonol i ddim ond 25% yn Ne-orllewin Cymru. Gallai hyn adlewyrchu'r cysylltiad hanesyddol rhwng mynegeion amddifadedd trefol a chyllid adfywio LIC (a chyn hynny, yr UE). Nid yw Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru a PCAC yn nodi unrhyw fylchau sgiliau neu gapasiti lleol ar gyfer y pwnc hwn.
- 8.20. Mae timau adfywio fel arfer yn eistedd ochr yn ochr ag adrannau cynllunio ac yn canolbwyntio ar gyflwyno cynigion ariannu a chyflwyno ceisiadau cysylltiedig am ganiatâd cynllunio, gan helpu i lywio polisiau CDLI canol trefi, a pharatoi Cynlluniau Creu Lleodedd sy'n seiliedig ar drefi i ddenu cyllid grant Trawsnewid Trefi. Er eu bod yn chwarae rhan allweddol mewn gwaith creu lleodedd ehangach, mae eu rôl uniongyrchol wrth ddarparu gwasanaethau cynllunio yn gyfyngedig, a allai egluro pam nad yw LIC na PCAC yn nodi bwlch sgiliau yn y maes pwnc hwn. Fodd bynnag, gallai fod potensial i uwchsgilio swyddogion adfywio er mwyn helpu mewn meysydd eraill, er enghraifft dylunio trefol neu uwchgynllunio, sydd wedi'u nodi fel maes â phrinder sgiliau.
- 8.21. Dim ond un ymatebydd ACLI a nododd adfywio fel cydwasanaeth posibl. Nodir y gallai hyn gyd-fynd â swyddogaeth statudol y CJC o ran llesiant economaidd. Ni ddaeth absenoldeb gwaith adfywio ar raddfa strategol a wnaed ar un adeg gan yr hen Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) i'r amlwg drwy ymatebion i'r arolwg hwn. Fodd bynnag, mae trafodaethau mewn meysydd eraill wedi tynnu sylw at awydd am ryw fath o gorff cydgysylltu tir a seilwaith ledled Cymru i gefnogi'n rhagweithiol ddod â safleoedd datblygu sydd wedi'u hatal neu sy'n gymhleth ymlaen. Gallai corff o'r fath

helpu gyda phrynu gorfodol pan fo angen i ddod â dyraniadau cynllun datblygu ymlaen, gan gefnogi dull a arweinir gan y Cynllun.

- 8.22. Er na chynigir unrhyw newid o ran ôl troed y gweithgaredd adfywio presennol sy'n lleol, cefnogir corff newydd ledled Cymru i gefnogi caffael safleoedd / cydosod a chyflenwi tir. Gellid darparu hyn drwy Is-adran Tir Llywodraeth Cymru.

Ail gartrefi




Ffigur 23: Map o ddigonedd sgiliau ail gartrefi

- 8.23. Mae'r data yn Ffigur 23 yn dangos:

- Dywedodd 33% o ACLlau yng Ngogledd Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
- Dywedodd 50% o ACLlau yng Nghanolbarth Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
- Dywedodd 75% o ACLlau yn Ne-orllewin Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
- Dywedodd 10% o ACLlau yng Ne-ddwyrain Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn.

- 8.24. Yn ddiddorol, roedd yr ymatebion i'r pwnc hwn yn amrywiol iawn. Mae'r pwnc o fynd i'r afael ag ail gartrefi yn canolbwyntio'n bennaf ar Ogledd a De-orllewin Cymru, lle mae ACLlau fel Cyngor Gwynedd, Parciau Cenedlaethol Eryri ac Arfordir Sir Benfro yn dilyn Cyfarwyddiadau Erthygl 4 a chanllawiau cynllunio atodol (CCA) i fynd i'r afael â'r heriau a achosir gan gartrefi gwyliau ac ail gartrefi o ran fforddiadwyedd. Yng Ngogledd Cymru, mae 33% o ACLlau yn nodi bod ganddynt gapasiti digonol, gyda 75% yn y De-orllewin (efallai oherwydd bod y mater yn canolbwyntio ar ran fach o'r rhanbarth). Mewn cyferbyniad, dim ond 10% o ACLlau yn Ne-ddwyrain Cymru sy'n dweud bod ganddynt ddigon o gapasiti, ond nid oes yr un o'r deg awdurdod lleol hyn yn hysbys am ddrafftio Cyfarwyddiadau Erthygl 4 na Chanllawiau Cynllunio Atodol ar y pwnc hwn.
- 8.25. Nid yw PCAC yn nodi unrhyw fwch sgiliau yn y maes hwn, er y gallai hynny fod oherwydd ei fod yn faes polisi cymharol newydd ac nid yw CCA a fabwysiadwyd yn ddiweddar wedi'i brofi'n helaeth mewn apêl eto. Mae Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru yn nodi bylchau sgiliau lleol.
- 8.26. Ar y pwnc hwn, nid oes un ateb sy'n addas i bawb. Gallai dull rhanbarthol fod yn briodol yng Ngogledd Cymru, ond mewn mannau eraill mae'r pwnc yn lleol a'r ffordd orau o fynd i'r afael ag ef yw cynyddu capasiti ar ôl troed ACLI.

Cadwraeth a threftadaeth



Ffigur 24: Map o ddigonolrwydd sgiliau cadwraeth a threftadaeth

8.27. Mae'r data yn Ffigur 24 yn dangos:

- Dywedodd 33% o ACLlau yng Ngogledd Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
- Dywedodd 0% o ACLlau yng Nghanolbarth Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
- Dywedodd 10% o ACLlau yn Ne-orllewin Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
- Dywedodd 30% o ACLlau yng Ne-ddwyrain Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn.

8.28. Roedd pryderon ynghylch capasiti ar gyfer y maes pwnc hwn yn gyffredin ledled Cymru ond yn rhanbarthau De-orllewin Cymru a Chanolbarth Cymru ar eu mwyaf. Mae PCAC yn ystyried bod bylchau sgiliau lleol, ond nid yw Is-adran Gynllunio LIC yn nodi bwlch sgiliau yn y maes pwnc hwn.

8.29. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y gellid ystyried treftadaeth a chadwraeth adeiledig fel cydwasanaeth. Er bod y syniad o weithredu ar ôl troed mwy na'r lefel leol yn dangos potensial ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau capasiti ar gyfer yr arbenigedd hwn, mae pryderon ymhlith rhai ACLlau ynghylch colli perchnogaeth leol wrth wneud penderfyniadau ac a yw graddfa a chywaint y gwaith treftadaeth a'r lefel fanylder sy'n benodol iawn i'r safle yn golygu y gellid ei reoli'n effeithiol y tu hwnt i'r lefel leol.


8.30. Mae model cydwasanaethau Gogledd Cymru yn enghraifft dda o sut y gellir cyflawni gwaith arbenigol o'r fath, gyda swyddog achos o'r tîm cydwasanaethau yn cael ei ddefnyddio i brosesu'r cais a gwneud argymhelliad i'r Pennaeth Cynllunio neu'r Pwyllgor Cynllunio. O ganlyniad, mae gwneud penderfyniadau yn parhau ar y lefel leol.

8.31. Mae enghreifftiau presennol o ddarpariaeth cydwasanaethau, er enghraifft treial gyda Chyngor Sir Fynwy yn darparu gwasanaethau treftadaeth i Gynghorau Torfaen a Blaenau Gwent. Mae maint y cydwasanaeth yn gydbwysedd gofalus rhwng capasiti

ac arbedion maint: am y rheswm hwn, gwnaed penderfyniad ymwybodol i beidio ag ymestyn y cydwasanaeth i Gyngor Casnewydd.

- 8.32. Argymhellir ôl troed darparu gwasanaeth isranbarthol ar gyfer y pwnc hwn lle mae amgylchiadau lleol yn gofyn am gapasiti a gwydnwch ychwanegol.

Cyfranogiad ac ymgysylltu â'r gymuned



Ffigur 25: Map o ddigonolrwydd sgiliau cyfranogiad ac ymgysylltu â'r gymuned

- 8.33. Mae'r data yn Ffigur 25 yn dangos:


- Dywedodd 33% o ACLlau yng Ngogledd Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
- Dywedodd 50% o ACLlau yng Nghanolbarth Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
- Dywedodd 57% o ACLlau yn Ne-orllewin Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
- Dywedodd 71% o ACLlau yng Ne-ddwyrain Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn.

- 8.34. Roedd yr ymatebion i'r maes pwnc hwn yn amrywio'n sylweddol yn ddaearyddol, gyda 71% o ACLlau yn Ne-ddwyrain Cymru yn ystyried bod ganddynt ddigon o

gapasiti a sgiliau, gan ostwng i 33% yng Ngogledd Cymru. Mae'r ffigurau hyn yn cyfateb yn fras i'r ymatebion i'r maes pwnc adfywio, ac efallai bod cysylltiad cynyddol rhwng Cynlluniau Creu Lleoedd a wneir gan dimau adfywio a gwaith arall i ymgysylltu â'r gymuned. Mae Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru yn ystyried mai bylchau sgiliau lleol sydd ar gyfer y pwnc hwn. Yn galonogol, nid yw PCAC yn nodi bwlch sgiliau ar gyfer y maes pwnc hwn.

- 8.35. O ystyried yr angen i ymgysylltu â'r gymuned gael ei gyflawni'n lleol, nid oes unrhyw rinwedd mewn ceisio cyflawni hyn drwy fwy nag ôl troed lleol. Ar ben hynny, bydd mabwysiadu'r CDS yn sbarduno adolygiadau CDLI traws-ranbarthol ar yr un pryd, sy'n golygu y byddai gan lwyth gwaith gwasanaeth rhanbarthol gylch 'gwledd neu newyn' na ellir ei reoli.
- 8.36. Dylid cydnabod, wrth gwrs, fod deddfwriaeth gynllunio yn nodi'r gofynion statudol ar gyfer ymgynghori ar CCLlau, CISau, ceisiadau cynllunio ac apeliadau. Mae'r graddau y mae ymgynghori o'r fath yn cynrychioli ymgysylltiad cymunedol effeithiol yn amheus. Canfu [ymchwil diwedddau](#) gan RTPI bod llai na 14% o gynllunwyr yn credu bod y cyhoedd yn deall pwrpas cynllunio ac nad yw 60% yn credu bod y cyhoedd yn deall pryd neu sut i ymgysylltu â'r broses gynllunio. Canfu ymchwil diweddar arall ar gyfer yr RTPI gan Demos nad yw dros 50% o bobl yn gwybod sut i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ynghylch datblygu yn eu hardal leol.
- 8.37. Felly, yr ateb i'r bwlch sgiliau ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned yw hyfforddiant yn hytrach na model darparu gwasanaethau gwahanol.

Digidol a data



Ffigur 26: Map o ddigonolrwydd sgiliau digidol a data


8.38. Mae'r data yn Ffigur 26 yn dangos:

- Dywedodd 50% o ACLlau yng Ngogledd Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
- Dywedodd 50% o ACLlau yng Nghanolbarth Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
- Dywedodd 30% o ACLlau yn Ne-orllewin Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
- Dywedodd 30% o ACLlau yng Ne-ddwyrain Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn.

8.39. O ganlyniad i eiriad y cwestiwn, mae amwysedd ynghylch a oedd ymatebion yr ACLlau yn seiliedig ar weithgareddau digidol a data cyfredol neu ar ddull sy'n edrych ymlaen at baratoi gwasanaethau ar gyfer y dyfodol a'r cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â thechnoleg ddigidol ac AI newydd. Serch hynny, nododd 54% o ACLlau fod angen mwy o bersonél â sgiliau digidol a data, gan danlinellu bwlch capasiti eang yn y maes hwn. Nododd Is-adran Gynllunio LIC hyn fel bwlch sgiliau eang.

- 8.40. Nododd dau ymatebydd y potensial ar gyfer cydwasanaeth digidol, gydag un yn codi'r angen i symleiddio systemau TG rhwng yr holl ACLlau ac un arall yn nodi potensial systemau swyddfa gefn a rennir.
- 8.41. Mae [ymchwil a gomisiynwyd gan RTPI Cymru ac a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd](#) yn dangos bod capasiti digidol yn anghyson ar draws ACLlau. Canfu'r ymchwil bod y rhan fwyaf o gynllunwyr yn hyderus wrth ddefnyddio offer digidol safonol, ond bod mabwysiadu technolegau mwy datblygedig, fel GIS, AI, a llwyfannau ymgysylltu digidol, yn amrywio ar draws awdurdodau. Mae rhai ACLlau yn datblygu arferion digidol yn weithredol, tra bod eraill yn parhau i ddibynnu ar systemau hybrid/seiliedig ar bapur a seilwaith etifeddol.
- 8.42. Nododd yr ymchwil fod safoni, arweinyddiaeth a chydweithio yn hanfodol, gan alw am arweinyddiaeth genedlaethol gryfach a fframwaith llywodraethu cydlynol i gefnogi cynllunio digidol cyson ac a allai ehangu'n gyflym.
- 8.43. Mae gwaith diweddar gan CDPS wedi dangos diffyg clir o allu i ymgysylltu'n effeithiol mewn prosiectau digidol newydd.
- 8.44. Argymhellir model Cymru gyfan ar gyfer y pwnc hwn yng nghyd-destun archwilio a chyflwyno technoleg newydd ac uwchsgilio cynllunwyr, arbedion maint posibl, darparu gwydnwch, gwneud y defnydd gorau o arbenigedd a darparu cysondeb ledled Cymru. Mae Argymhelliad 7 yn ceisio archwilio ymhellach y potensial ar gyfer defnyddio offer cynllunio digidol gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, lle bo'n foesegol ac yn briodol, i ryddhau cynllunwyr i gynllunio, gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, a defnyddio barn ac arbenigedd dynol ar sail gwerthoedd. Bydd hyn yn gofyn am arweinyddiaeth a chydweithrediad cryf.

Dylunio trefol



Ffigur 27: Map o ddigonolrwydd sgiliau dylunio trefol


8.45. Mae'r data yn Ffigur 27 yn dangos:

- Dywedodd 17% o ACLlau yng Ngogledd Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
- Dywedodd 0% o ACLlau yng Nghanolbarth Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
- Dywedodd 25% o ACLlau yn Ne-orllewin Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
- Dywedodd 20% o ACLlau yng Ne-ddwyrain Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn.

8.46. Nododd 12 o ACLlau a phob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol eu bod angen mwy o bobl â sgiliau dylunio trefol. Dywedodd dau o'r ACLlau mwy gwledig nad yw'n sgîl sydd ei hangen arnynt, ac mae un ACLI yn derbyn yr arbenigedd hwn. Mae rhai ACLlau yn defnyddio Comisiwn Dylunio Cymru i gael cyngor ar brosiectau sylweddol neu strategol.

- 8.47. Mae LIC yn cydnabod dylunio trefol fel bwlch sgiliau eang ledled Cymru, tra bod PCAC yn ei gydnabod fel bwlch lleol.
- 8.48. Awgrymodd dau ymatebydd ACLI y gellid ystyried dylunio trefol fel cydwasanaeth, “o ystyried y diffyg pobl â'r sgiliau angenrheidiol mewn ACLlau yng Nghymru, fodd bynnag, gallai mynediad at y gwasanaeth a blaenoriaeth fod yn broblem”.
(Ymatebydd ACLI)
- 8.49. Er gwaethaf yr uchod, mae Comisiwn Dylunio Cymru eisoes yn cynnig ôl troed Cymru gyfan ar gyfer yr arbenigedd hwn y gellid ei ddefnyddio'n ehangach. O ganlyniad, ni chynigir unrhyw newid.

Ecoleg a bioamrywiaeth



Ffigur 28: Map o ddigonedd sgiliau ecoleg a bioamrywiaeth

- 8.50. Mae'r data yn Ffigur 28 yn dangos:
- Dywedodd 17% o ACLlau yng Ngogledd Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
 - Dywedodd 50% o ACLlau yng Nghanolbarth Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;


- Dywedodd 20% o ACLlau yn Ne-orllewin Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
- Dywedodd 40% o ACLlau yng Ne-ddwyrain Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn.

“Mae cynnydd yn y ffocws ar ansawdd dŵr yn sbarduno mwy o waith ar Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac angen am fwy o sgiliau yn y maes hwn.” (Ymatebydd ACLI)

- 8.51. Er gwaethaf y pryder eang ynghylch capasiti a fynegwyd gan ACLI, dim ond bylchau lleol y mae Is-adran Gynllunio LIC a PCAC yn eu nodi o ran y set sgiliau hon. Mae trafodaethau'n awgrymu bod pryder yr ACLlau yn bennaf ynghylch yr oedi wrth wneud penderfyniadau amserol a achosir gan ddiffyg capasiti mewn timau ecoleg a bioamrywiaeth, tra bod profiad PCAC yn adlewyrchu natur gadarn y dystiolaeth a roddwyd ar y pwnc hwn mewn apêl ac yn archwiliad CDLI. Mewn geiriau eraill, mae'r canlyniadau'n gadarn ond yn rhy araf.
- 8.52. Tynnodd sawl ACLI sylw at y ffaith, er bod nifer yr arbenigwyr bioamrywiaeth / ecoleg wedi aros yn gyson, er mwyn ariannu cadw eu swyddi a gwrthbwysio arbedion cyllideb y Cyngor, fod eu capasiti wedi'i ddargyfeirio'n aml i wneud cais am ystod o brosiectau a ariennir gan grantiau seilwaith gwyrdd a gwella ecolegol, ac yna eu cyflawni, yn hytrach na gwaith cynllunio craidd. Dyma un enghraifft yn unig o sut mae'r data o bosibl yn cuddio rhai heriau cymhleth sy'n wynebu awdurdodau cynllunio.
- 8.53. Mae ACLlau yn cydnabod ecoleg a bioamrywiaeth fel ystyriaethau cynllunio cynyddol bwysig oherwydd polisi cynllunio cenedlaethol, cyfraith achosion ac ystyriaethau niwtraliaeth maetholion sy'n effeithio ar naw afon ACA yng Nghymru, ac, yn fwy diweddar, nifer o ardaloedd ACA morol. Mae CNC yn cydnabod bod hyn yn fwlch eang mewn sgiliau a chapasiti ledled Cymru, tra bod yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yr effeithir arnynt wedi mynegi pryder ynghylch y diffyg canllawiau ac arweinyddiaeth wrth nodi atebion derbyniol.

- 8.54. Mae Cyngor Ceredigion yn cynnal Bwrdd Rheoli Maetholion fel cydwasanaeth ac mae'n dod yn amlwg y bydd atebion i niwtraliaeth maetholion yn gofyn am ddull rhanbarthol neu Gymru gyfan, yn benodol i egluro pa atebion sy'n dderbyniol i CNC, sut y cânt eu darparu, eu hariannu a'u rheoli yn y tymor hir.
- 8.55. Nodwyd ecoleg, coed a chadwraeth natur gan nifer o ymatebwyr ACLlau fel cydwasanaeth posibl, gydag olion traed ar y cyd (mwy na lleol), rhanbarthol a Chymru gyfan yn cael eu hawgrymu.
- 8.56. Ôl-troed dalgylch afon fyddai'r ôl-troed gorau ar gyfer niwtraliaeth maetholion ac NMBs er ei fod yn ychwanegu haen arall at ddaeyddiaeth gymhleth darparu gwasanaethau yng Nghymru. Byddai gan ôl troed rhanbarthol y fantais o fwydo'n uniongyrchol i Gynlluniau Datblygu Strategol sy'n dod i'r amlwg ond nid yw'n adlewyrchu daeyddiaeth y mater dan sylw. Er enghraifft, ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru, mae Powys yn cyfeirio at rannau o ranbarth De-ddwyrain Cymru a Lloegr ar gyfer y pwnc hwn tra bod Ceredigion yn cyfeirio at rannau o ranbarth De-orllewin Cymru.

Effeithlonrwydd ynni (e.e. sero net)




Ffigur 29: Map o ddigonolrwydd sgiliau effeithlonrwydd ynni

- 8.57. Mae'r data yn Ffigur 29 yn dangos:

- Dywedodd 17% o ACLlau yng Ngogledd Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
- Dywedodd 50% o ACLlau yng Nghanolbarth Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
- Dywedodd 20% o ACLlau yn Ne-orllewin Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn;
- Dywedodd 30% o ACLlau yng Ne-ddwyrain Cymru fod ganddynt ddigon o bobl â'r sgîl hwn.

Bylchau sgiliau yn y dyfodol ac anghenion hyfforddi


- 8.162. Gofynnwyd i ymatebwyr roi sylwadau ar eu bylchau sgiliau neu anghenion hyfforddi disgwyledig a fyddai'n codi o fewn ACLlau, PCAC, CNC ac Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru dros y pum mlynedd nesaf oherwydd arbenigeddau neu ffrydiau gwaith newydd, megis prosiectau ar raddfa fawr, Cynlluniau Datblygu Cynaliadwy, technoleg sy'n dod i'r amlwg a/neu oherwydd cynllunio ar gyfer olyniaeth.
- 8.163. Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd ystyried y darlun ehangach yn ymwneud â sgiliau a hyfforddiant. Mae enghreifftiau'n cynnwys effeithiau newidiadau deddfwriaeth neu bolisi ar gapasiti, yn ogystal â cholli gwybodaeth sefydliadol o ganlyniad i ymddeoliad staff neu newid swyddi. Roeddent hefyd yn cydnabod yr angen cynyddol am sgiliau y tu hwnt i arbenigedd proffesiynol traddodiadol, fel rheoli prosiectau, cydweithio ac arweinyddiaeth.
- 8.164. Gofynnwyd i bob ymatebydd yn y sector cyhoeddus beth oeddent yn teimlo y byddai'r bylchau sgiliau a'r anghenion hyfforddi yn debygol o fod dros y pum mlynedd nesaf. Nodwyd amrywiaeth o anghenion sgiliau a hyfforddiant yn y dyfodol, gyda sawl maes allweddol yn dod i'r amlwg dro ar ôl tro:
- Mae ecoleg yn bryder sylweddol ar gyfer y dyfodol, wedi'i ysgogi gan y pwyslais mewn polisi cenedlaethol a gofynion bioamrywiaeth a'r posibilrwydd o gyflwyno targedau ACA morol;
 - Codwyd yr angen am fwy o weithwyr proffesiynol sy'n siarad Cymraeg fel angen yn y dyfodol. Mae'r broses recriwtio ddiweddar gan ysgol gynllunio Prifysgol Caerdydd o aelod o staff addysgu sy'n siarad Cymraeg yn cael ei groesawu a bydd yn cynyddu cyfleoedd i dyfu'r gadwyn gyflenwi o gynllunwyr sy'n siarad Cymraeg;

- Rhagwelir y bydd prosiectau cymhleth ar raddfa fawr, gan gynnwys cynigion ar gyfer ynni gwynt ar y môr a datblygiadau hydrogen, yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion ddod yn brofiadol mewn meysydd pwnc arbenigol. Mae natur anaml a gwasgaredig prosiectau o'r fath yn golygu ei bod yn afrealistig disgwyl i bob ACLI ddatblygu'r arbenigedd angenrheidiol;
- Nodwyd bod angen mwy o hyfforddiant i gynnwys Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, niwtraliaeth maetholion ac atebion cysylltiedig, dadansoddi draenio a hyfywedd;
- Mae'r bwlch sgiliau mewn cynllunio digidol yn cael ei gydnabod yn eang wrth i gynllunio ddod yn fwyfwy seiliedig ar ddata ac yn ddibynnol ar offer digidol, tra bod swyddogion yn brin o'r amser a'r hyfforddiant i addasu;
- Mae newidiadau deddfwriaethol a pholisi yn ychwanegu at gymhlethdod pellach, gan ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gydweithio'n well yn ymarferol a chreu dryswch lle mae cynllunio'n gorgyffwrdd â meysydd rheoleiddio eraill. "Gallai cydweithio ymarferol rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn y cyfnod cyn gweithredu newidiadau fod yn llawer gwell." (Ymatebydd ACLI)
- Mae'r sector hefyd yn wynebu heriau sylweddol o ran cadw staff a'r posibilrwydd o golli staff profiadol oherwydd ymddeoliad. Codwyd colli cynllunwyr profiadol i'r sector preifat fel problem. Mae hyn yn cael ei waethygu gan gyfyngiadau ariannu ac amseroedd hyfforddi hir ar gyfer staff newydd llai profiadol;
- Mae angen i sgiliau ehangach gynnwys gallu rheoli ac arwain, rheoli prosiectau, dadansoddi hyfywedd ariannol, rheoli contractau gyda'r sector preifat (PPAs) a gwybodaeth am dechnolegau sy'n dod i'r amlwg fel AI.

8.165. At ei gilydd, mae pryder eang ynghylch cydnerthedd yn y dyfodol a chynnal ansawdd gwasanaethau yng nghanol galw cynyddol, capasiti cyfyngedig a phrinder cyffredinol o weithwyr proffesiynol medrus ledled Cymru.

9. Datblygu'r proffesiwn

- 9.1. Nododd 11 o ACLlau eu bod yn cyflogi cynllunwyr dan hyfforddiant ar hyn o bryd, sy'n cynnwys cyfuniad o fyfyrwyr lleoliad blwyddyn allan llawn amser, gweithwyr ar ryddhad undydd ar gyfer astudio rhan-amser, prentisiaid er enghraifft drwy Lwybrau at Gynllunio, a myfyrwyr bwrsariaeth.
- 9.2. Mae Is-adran Gynllunio LIC yn cyflogi myfyriwr/myfyrwyr blwyddyn allan, gan weithredu cylchdro rhwng y Gyfarwyddiaeth Gynllunio a PCAC. Fel rhan o fenter i gyflogi cynllunwyr graddedig yn y dyfodol, mae Is-adran Gynllunio LIC yn gobeithio efelychu'r trefniant hwn, gyda'r posibilrwydd o gynnwys CNC.
- 9.3. Er mwyn deall yn well y galw tebygol yn y dyfodol am gynllunwyr gyrfa gynnar, gofynnwyd i ACLlau, dros y pum mlynedd nesaf, a yw eich ACLI yn bwriadu cyflogi cynllunwyr dan hyfforddiant (graddedigion/prentisiaethau ac ati).



Ffigur 42: Ymateb i alw ACLlau yn y dyfodol am gyflogaeth hyfforddeion. Data a gafwyd mynediad iddo drwy arolwg ymchwil RTPI (Mai 2025).

- 9.4. Mae'r data yn Ffigur 42 yn dangos:
- Mae'r rhan fwyaf o ACLlau (42%) yn ansicr (wedi ateb efallai) ynghylch a ydynt yn bwriadu cyflogi cynllunwyr dan hyfforddiant o fewn y pum mlynedd nesaf;

- Dywedodd 41% o ACLlau eu bod yn debygol o gyflogi cynllunwyr hyfforddeion dros y pum mlynedd nesaf, gyda 12% o'r rheini eisiau cyflogi mwy o hyfforddeion nag sydd mewn cyflogaeth ar hyn o bryd, o'i gymharu â dim ond 4% sydd eisiau cyflogi llai o hyfforddeion nag sydd mewn cyflogaeth ar hyn o bryd;
- Atebodd 17% o'r ymatebwyr 'na' i'r cwestiwn.

- 9.5. Mae Is-adran Gynllunio LIC a PCAC yn bwriadu ehangu nifer y swyddi dan hyfforddiant dros y pum mlynedd nesaf. O ystyried natur arbenigol y gwaith yn PCAC a'r gofyniad am gynllunwyr medrus a phrofiadol iawn, nid yw eu rolau'n cyd-fynd yn hawdd â swyddi ar gyfer hyfforddeion neu unigolion ar ddechrau eu gyrfaedd.
- 9.6. Datgelodd cyfweiliadau ag ACLlau fod rhaglenni graddedig a hyfforddeion wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol ar y cyfan. Mae croeso i fentrau fel y rhaglen Llwybrau at Gynllunio ond nododd y rhai a gafodd gyfweiliad gyfyngiadau ariannol fel her wrth eu defnyddio'n llawn.
- 9.7. Mae cymorth i recriwtio wedi'i dargedu o gefndiroedd gradd nad ydynt yn ymwneud â chynllunio, ar yr amod bod hyfforddiant strwythuredig, cyllid a chymorth mwy cyffredinol ar waith ar gyfer cymwysterau ôl-raddedig. Fodd bynnag, codwyd y gallu i ddarparu hyfforddiant a chymorth i raddedigion cynllunio fel mater allweddol, o ystyried y pwysau presennol ar amser a chapasiti, fel y byddai pryder yn cynyddu i raddedigion nad ydynt yn raddedigion cynllunio.
- 9.8. Ystyriwyd bod cryfhau cysylltiadau â phrifysgolion, mynychu ffeiriau gyrfaedd, a chynnig lleoliadau i gyd yn werthfawr. Roedd y rhai a gafodd gyfweiliad hefyd yn dadlau dros ymgysylltu'n gynharach ar gamau TGAU neu Safon Uwch i godi ymwybyddiaeth o gynllunio fel proffesiwn. Gall partneriaethau rhwng ysgolion, prifysgolion a'r sector ehangach helpu i gyflwyno pobl ifanc i gynllunio fel dewis gyrfa. Mae [TGAU CBAC yn yr Amgylchedd Adeiledig](#) wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ond mae'n cynnwys cynnwys cyfyngedig am gynllunio, ac nid yw cynllunio wedi'i nodi yn yr adran dewisiadau gyrfa. Mae gan [raglen llysgenhadon ysgolion RTPI](#) a ail-lansiwyd rôl i'w chwarae yma hefyd.

- 9.9. Gofynnwyd i bob ymatebydd rannu unrhyw arfer da neu syniadau ar integreiddio cynllunwyr dan hyfforddiant i'r gweithle. Nodir y sylwadau a gafwyd isod:
- Gorgyffwrdd â myfyrwyr o'r flwyddyn flaenorol i helpu'r cyfnod pontio;
 - Sesiynau unigol wythnosol (o leiaf) gyda rheolwyr. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar y dechrau;
 - Digwyddiad cymdeithasol cyn dechrau;
 - Gweithio gyda'n gilydd ar sail ranbarthol, i rannu costau a sicrhau cyflenwad cyson o gynllunwyr sydd newydd gymhwyso;
 - Hwyluso profiad gwaith, mynychu digwyddiadau gyrfaedd i hyrwyddo'r proffesiwn ac ACLlau;
 - Cynnig llwybrau gyrfa gyda'r gallu i symud ymlaen i swyddi uwch;
 - Darparu cynllun hyfforddi a datblygu pwrpasol;
 - Dyrannu mentor i bob hyfforddai;
 - Darparu cyllideb hyfforddi a datblygu;
 - Noddi hyfforddeion sy'n ennill cymhwyster mewn cynllunio;
 - Darparu profiad ym mhob adran o'r Gwasanaeth Cynllunio i ddatblygu cynllunwyr cyflawn;
 - Darparu strwythurau tîm haenog yn hytrach na rhai gwastad fel llwybr clir ar gyfer cynnydd;
 - Creu lle ar gyfer dysgu a datblygu;
 - Annog staff ar bob gradd i gymryd rhan mewn darparu hyfforddiant;
 - Integreiddio meysydd gwasanaeth cymorth nad yw'n broffesiynol i'r tîm cynllunio ehangach a chydleoli'r gwasanaethau hynny gyda rheolaeth datblygu;
 - Darparu ar gyfer cynllunwyr iau heb unrhyw brofiad yn y sector i ddelio â cheisiadau bach iawn. Maent wedi dysgu'r sgiliau a'r ddealltwriaeth, ac yn dilyn hynny'r awydd i hyfforddi a chymhwyso mewn cynllunio. Mae hyn yn rhoi cyfle i bobl roi cynnig ar yrfa cyn buddsoddi mewn ffioedd Prifysgol drud, ac mae'r profiad blaenorol hefyd yn eu helpu yn ystod eu hyfforddiant ffurfiol;

- Creu rota i sicrhau bod staff yn y swyddfa gyda myfyrwyr bob amser (mae eu hangen arnom bum niwrnod yr wythnos) i sicrhau bod ganddynt gefnogaeth effeithiol ar wahanol lefelau;
- Er bod yr Awdurdod yn cynnig gweithio hybrid, mae'r rhan fwyaf o swyddogion profiadol o fewn yr Awdurdod wedi'u lleoli yn y swyddfa gan amlaf, a hynny o ddewis. Mae hyn wedi galluogi staff dibrofiad i gael cefnogaeth a mentora wyneb yn wyneb yn ddyddiol sydd wedi caniatáu iddynt ddatblygu'n gyflym;
- Partneru â swyddogion profiadol a darparu cyfleoedd y tu hwnt i'w swydd;
- Darparu llwyth gwaith amrywiol, gyda rheolaeth llinell dda;
- Pwysig bod mewn "carfan" yn hytrach na bod yn unigolyn.

Ysgolion cynllunio

Nifer y myfyrwyr ar gyrsiau Cynllunio achrededig yng Nghymru a'r ardaloedd cyfagos

- 9.10. Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Caerdydd yw'r unig ysgol gynllunio yng Nghymru ac mae wedi'i hachredu gan yr RTPI. Mae'n dathlu 60 mlynedd ers sefydlu cynllunio addysg yn 2026. Fel rhan o'r ymchwil hwn, gwnaethom ymgysylltu â'r pedair ysgol gynllunio agosaf sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a Lloegr i roi trosolwg eang o gofrestrïadau myfyrwyr ar gyrsiau cynllunio achrededig, er mwyn asesu'r potensial ar gyfer cynllunwyr yn y dyfodol yng Nghymru.
- 9.11. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o nifer y myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gyrsiau cynllunio achrededig RTPI yng Nghymru ac yn y cyffiniau yn ystod blwyddyn academiaidd mis Medi 2023. Mae'r data'n dangos nifer iach o fyfyrwyr cynllunio mewn prifysgolion yng Nghymru ac yn agos ati, ond nid yw'n rhoi unrhyw sicrwydd ynghylch ble y bydd graddedigion yn dewis gweithio ac felly'r effaith ar y biblinell o gynllunwyr sector cyhoeddus y mae taer angen amdani yng Nghymru. Mae rôl yma i gyrrff y sector cyhoeddus, Prifysgol Caerdydd ac RTPI Cymru i geisio hyrwyddo'r sector cyhoeddus yng Nghymru fel opsiwn deniadol, yn ogystal â chyflogwyr yn y sector cyhoeddus sy'n creu swyddi newydd ar lefel graddedig.

Achrediad cyrsiau	Nifer y myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gwrs yn y flwyddyn academaidd sy'n dechrau ym mis Medi 2023
Myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau cynllunio achrededig llawn	499
Myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau cynllunio achrededig rhannol	321
Cyfanswm nifer y myfyrwyr	820

Ffigur 43: Dadansoddiad tabl o fyfyrwyr ar gyrsiau cynllunio achrededig llawn neu rannol gan RTPi yng Nghymru a'r cyffiniau

Cyrsiau israddedig neu ôl-raddedig	Nifer y myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gwrs yn y flwyddyn academaidd sy'n dechrau ym mis Medi 2023
Myfyrwyr ar gyrsiau ôl-raddedig (14 cwrs ar gael)	434
Myfyrwyr ar gyrsiau israddedig (6 cwrs ar gael)	386

Ffigur 44: Dadansoddiad tabl o fyfyrwyr ôl-raddedig/israddedig ar gyrsiau cynllunio achrededig llawn ac yn rhannol gan RTPi yng Nghymru a'r cyffiniau

*Nodyn: Mae'r data a nodir uchod yn cynnwys myfyrwyr ar Brentisiaeth Gradd Cynlluniwr Tref Siartredig yn Lloegr. Mae'r data a ddarparwyd wedi'i gymeradwyo i'w ddefnyddio gan yr ysgolion cynllunio perthnasol. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda dwy ysgol gynllunio achrededig i gael gwell dealltwriaeth o'r sector yn gyffredinol, y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau cynllunio ar hyn o bryd ac ymgysylltu rhwng prifysgolion a rhanddeiliaid eraill.

Gwerth lleoliadau i fyfyrwyr a chyflogadwyedd

- 9.12. Caiff lleoliadau eu hystyried yn eang fel profiad cadarnhaol. Cadarnhaodd un Pennaeth Ysgol fod myfyrwyr sy'n ymgymryd â blwyddyn leoliad yn eu prifysgol yn fwy tebygol yn ystadegol o ennill gradd anrhydedd dosbarth cyntaf. Gwnaeth bwysleisio pwysigrwydd ymdrech ar y cyd wrth hyrwyddo lleoliadau, sy'n helpu i roi sylfaen gryfach i fyfyrwyr a pharatoad gwell ar gyfer y gweithle.
- 9.13. Nododd Pennaeth yr Ysgol y gallai cydweithio agosach â darparwyr lleoliadau wella parodrwydd myfyrwyr ymhellach. Mae potensial i feithrin perthnasoedd yn gynharach a gwella'r ymgysylltiad dwyffordd rhwng prifysgolion a chyflogwyr. Mae prosiectau byw ac ymweliadau â safleoedd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac yn helpu i gynnal cysylltiadau cryf â'r diwydiant. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y sector yn eang, yn amrywiol, ac yn cynnig ystod o sgiliau arbenigol, gan ddenu myfyrwyr o wahanol ddiddordebau, gan nodi "[Ni fu adeg bwysicach erioed i'r sector gydweithio.](#)"
- 9.14. Mae tystiolaeth anecdotaidd o'r prifysgolion a gyfwelwyd yn awgrymu bod y rhan fwyaf o raddedigion yn parhau ar hyd llwybr y ddisgyblaeth y maent wedi'i hastudio, sy'n dangos bod addysg a chyflogaeth yn cyd-fynd yn dda. Esboniodd un cyfwelai fod cyflogadwyedd cynllunio, drwy eu prifysgol, yn eithriadol o gryf ar 92%, gyda'r rhan fwyaf o raddedigion yn symud i'r sector preifat, yn aml yn uniongyrchol gysylltiedig â'u maes astudio.

Tueddiadau a welwyd gan brifysgolion

- 9.15. Nododd prifysgolion fod y galw am gyrsiau cynllunio yn parhau i fod yn iach ar y cyfan, gyda'r niferoedd naill ai'n cynyddu'n araf neu'n aros yn gyson. Mae rhaglenni cynaliadwyedd amgylcheddol arbenigol yn denu diddordeb sylweddol ar hyn o bryd, tra bod cyrsiau israddedig ac ôl-raddedig achrededig yn parhau i fod yn boblogaidd, gydag achrediad yn cael ei ystyried yn ased gwerthfawr gan fyfyrwyr. Tynnodd y rhai a gyfwelwyd sylw at bwysigrwydd adolygu cyrsiau'n rheolaidd a'u diweddarau lle bo angen, gan gynnwys newidiadau i enwau cyrsiau; diweddariadau cynnwys, strategaethau marchnata neu fformatau mwy hyblyg fel dysgu o bell. Yn ogystal, mae ffocws cynyddol o fewn prifysgolion ar gefnogi gweithwyr proffesiynol presennol i

uwchsgilio – drwy gyrsiau byr neu opsiynau DPP, yn aml mewn cydweithrediad â'r RTPI.

Prentisiaethau a bwrsariaethau yng Nghymru

- 9.16. Yn wahanol i Loegr, ac eithrio'r cynllun Llwybrau i Gynllunio, nid oes unrhyw brentisiaethau cynllunio yng Nghymru a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. [Mae RTPI Cymru yn parhau i alw am brentisiaethau Cynllunio yng Nghymru](#). Mae'r brentisiaeth Lefel 7 hynod lwyddiannus yn Lloegr yn cynnig model da i'w efelychu (cyn penderfyniad diweddar Llywodraeth San Steffan i gyflwyno cap oedran o 21 oed ar gyfer ymgeiswyr, sy'n dinistrio'r gadwyn gyflenwi hon). Mae prentisiaeth L7 yn rhedeg ochr yn ochr â rhaglen Llwybrau i Gynllunio yn Lloegr gyda nifer sylweddol uwch o bobl yn manteisio ar brentisiaeth L7 (dros 200 o brentisiaethau fesul blwyddyn academaidd cyn y cap oedran). Mae angen trafodaeth bellach i ddeall pam mae nifer y bobl sy'n manteisio ar y cynllun Llwybrau i Gynllunio mor isel yng Nghymru, hyd yn oed pan fydd cynnydd newydd mewn ffioedd ymgeisio yn rhoi sicrwydd o incwm ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ym mis Ebrill 2026.
- 9.17. Mae Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Caerdydd yn gweithio gyda nifer o sefydliadau'r sector preifat i ddarparu cyfleoedd bwrsariaeth i fyfyrwyr cynllunio sydd wedi cofrestru ar eu cyrsiau, gan gynnwys bwrsariaethau a ariennir gan Bute Energy a Landsec. Mae Siambr Fasnach Prydain yn cynnig un lle bwrsariaeth y flwyddyn fesul ysgol gynllunio achrededig, a weinyddir gan yr RTPI.

Astudiaethau Achos: Bwrsariau gyda Phrifysgol Caerdydd, Ysgol

Daearyddiaeth a Chynllunio

Bwrari Landsec's Futures

- 9.18. Mae cynllun Bwrsari Landsec's Futures yn darparu costau byw er mwyn galluogi myfyrwyr o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol i astudio yn y brifysgol a chael eu cefnogi i ddilyn gyrfa yn y diwydiant eiddo.

9.19. Mae cynllun Bwrsari Landsec's Futures yn cynnig tair blynedd o hyd (cyfraniad cost byw o £10k) i ymgeisydd cymwys addas ar radd BSc Cynllunio a Datblygu Trefol Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio (Prifysgol Caerdydd). Mae'r myfyriwr cyntaf wedi cael ei gefnogi ers Hydref 2024.

- Mae gan y bwrsari feini prawf symudedd cymdeithasol yn seiliedig ar feini prawf Comisiwn Symudedd Cymdeithasol y DU;
- Mae mentor Landsec yn cynnig cymorth gyrfaoedd a rhwydweithiau diwydiant i'r myfyriwr;
- Mae cyfle i Landsec gefnogi'r garfan gyfan gyda sgysiau gyrfaoedd, ymweliadau safle ac ati.

9.20. Mae'r bwrsari hwn yn ategu agenda ehangu cyfranogiad Prifysgol Caerdydd ac yn cyd-fynd â gorchymyn strategol yr RTPI i amrywio'r proffesiwn cynllunio, er mwyn sicrhau bod y proffesiwn yn adlewyrchu amrywiaeth y gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu.

Bwrsari Bute Energy

9.21. Mae Bwrsariaeth Bute Energy yn wobwr i dalu ffioedd dau fyfyrwr ôl-raddedig cymwys sy'n ymgymryd â'r rhaglen MSc Cynllunio a Datblygu Gofodol (mae ffioedd blwyddyn academiaidd mis Medi 2024 wedi'u gosod ar £10,700 y myfyriwr).

- Rhaid i fyfyrwyr cymwys fod yn hanu o Gymru (wedi byw'n barhaus yng Nghymru am o leiaf dair blynedd. Gan gynnwys amser a dreulir mewn addysg uwch) wedi'u dosbarthu fel myfyrwyr cartref at ddibenion ffioedd dysgu a bwriadu dilyn gyrfa yng Nghymru.
- Rhaid i fyfyrwyr cymwys fwriadu symud ymlaen i aelodaeth Siartredig o'r RTPI a dilyn gyrfa ym maes cynllunio a rhaid iddynt ymrwymo i drafod eu profiadau ar y rhaglen a'r ffyrdd y gwnaeth yr ysgoloriaeth eu cefnogi i ddilyn eu gyrfa mewn cynllunio at ddibenion hyrwyddo'r bwrsari.

9.22. Dywedodd Gill Bristow, Pennaeth Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio ym Mhrifysgol

Caerdydd:

"Mae'r bwrsariau hyn yn cyd-fynd yn glir â gorchmynion strategol y Sefydliad Cynllunio Tref Brenhinol (RTPI) i dyfu ac arallgyfeirio'r proffesiwn cynllunio. Mae angen dybryd i ehangu'r dalent sy'n dod i'r proffesiynau cynllunio ac eiddo yng Nghymru ac i sicrhau bod y proffesiwn yn adlewyrchu amrywiaeth y gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu'n well. Yr Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio yw'r unig ddarparwr rhaglenni addysgol achrededig yng Nghymru sy'n darparu llwybr i'r proffesiwn cynllunio. Mae'r bwrsariaethau hyn hefyd yn ategu agenda Ehangu Cyfranogiad Prifysgol Caerdydd ar gyfer cyfleoedd addysgol."

- 9.23. Mae Prifysgol Caerdydd wedi'i rhestru ymhlith y 10 prifysgol orau yn y DU am [Gynllunio Gwlad a Thref a Dylunio Tirwedd yn Complete University Guide 2026](#).
- 9.24. Amcangyfrifir gan Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Caerdydd fod tua 70% o gynllunwyr yng Nghymru wedi astudio yng Nghaerdydd - tystiolaeth o gyfraniad hirhoedlog yr Ysgol i'r proffesiwn yng Nghymru.
- 9.25. Mae Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Caerdydd yn croesawu cydweithio â sefydliadau ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat i ehangu cyfleoedd bwrsariaeth a chefnogi'r genhedlaeth nesaf o gynllunwyr.

Bwrsariau Llwybrau i Gynllunio

- 9.26. Cynhaliwyd cyfweiliad gyda CLILC i drafod y rhaglen Llwybrau i Gynllunio.

Astudiaeth achos: Rhaglen Llwybrau i Gynllunio CLILC yng Nghymru

- 9.27. Mae CLILC yn awyddus i gefnogi CLILC yng Nghymru ac ehangu'r gronfa o raddedigion sy'n dechrau rolau cynllunio mewn awdurdodau lleol.
- 9.28. Yn 2023 lansiodd CLILC raglen beilot Llwybrau i Gynllunio, ar ôl sicrhau arian o danwariant a chronfeydd wrth gefn a ragwelwyd. Cafodd y rhaglen beilot ei modelu

ar y cydweithrediad Seisnig rhwng Cymdeithas llywodraeth leol a'r Gwasanaeth Cynghori Cynllunio sy'n cefnogi graddedigion uchelgeisiol i'r sector cynllunio.

- 9.29. Gall graddedigion o unrhyw gefndir gradd wneud cais a byddant yn gweithio i dîm cynllunio eu hawdurdod lleol ochr yn ochr ag astudio ar gyfer rhaglen meistr neu brentisiaeth achrededig a ariennir yn llawn gan RTPI. Er mwyn bod yn gymwys i ymuno â'r rhaglen, mae'n rhaid i ACLlau allu profi y gallent fodloni'r meini prawf canlynol:
- Isafswm cyflog o £26k;
 - Contract tair blynedd o leiaf;
 - Profiad gwaith amrywiol o fewn y tîm cynllunio;
 - Cynllun o gymorth mentora;
 - Lle a ariennir yn llawn ar gwrs gradd Meistr achrededig gan RTPI.
- 9.30. Bwriad CLILC erioed oedd defnyddio'r cynllun peilot fel enghraifft o arfer da i annog buddsoddiad mewn fersiynau yn y dyfodol o'r Rhaglen. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau £143k ar gyfer carfan 3. Gellir trosglwyddo arian heb ei wario i garfan 4.
- 9.31. Yn absenoldeb prentisiaethau, mae bwrsariaethau yn llwybr effeithiol o dyfu'r biblinell o gynllunwyr. Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n cael ei ddefnyddio gan ACLlau wedi bod yn siomedig. Rydym yn obeithiol y bydd penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynyddu ffioedd ceisiadau cynllunio mewn newid tuag at adennill costau yn caniatáu i fwy o ACLlau fuddsoddi yn y biblinell o gynllunwyr yn y dyfodol.
- 9.32. Fodd bynnag, mae gwersi i'w dysgu o genhedloedd eraill lle mae prentisiaethau a bwrsariau wedi bod yn boblogaidd. Yn yr Alban mae Bwrsariaeth Cynllunwyr y Dyfodol wedi bod yn rhedeg ers ychydig flynyddoedd. Mae hwn ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio gradd mewn cynllunio (fel arfer gradd ôl-raddedig). Yn ddiweddar, mae Llywodraeth yr Alban wedi dyfarnu 30 bwrsariaeth o £5k i fyfyrwyr ym mlwyddyn academiaidd mis Medi 2025.

- 9.33. Mae bwrsariau'n bwysig wrth annog y rhai o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i ymuno â'r proffesiwn cynllunio a'r rhai na allant fforddio ffioedd dysgu. Mae angen iddynt fod o werth sylweddol er mwyn bod yn deniad a chefnogaeth wirioneddol. Gall bwrsariau hefyd annog y rhai sydd wedi cwblhau graddau israddedig mewn pynciau eraill i drosi i gynllunio ar lefel ôl-raddedig.

Rhwystrau i ddarparu swyddi dan hyfforddiant

- 9.34. Rhoddwyd cyfle i bob cyfranogwr yn y sector cyhoeddus ehangu'n fwy cyffredinol ar ddarpariaeth cynllunwyr hyfforddeion drwy'r arolwg, gan gynnwys barn ar y rhwystrau, os o gwbl, i ddarparu/sicrhau swyddi dan hyfforddiant.
- 9.35. Ystyriwyd bod amrywiaeth o rwystrau sylweddol yn llesteirio gallu sefydliadau i ddarparu cyfleoedd dan hyfforddiant yn y gweithle. Y prif rai o'r rhain yw cyfyngiadau ariannol, gyda 65% o'r ymatebwyr yn gweld cyllid fel problem wrth ddarparu cynllunwyr dan hyfforddiant. Cyfeiriodd dau ymatebydd at PPAs fel ffordd o ariannu swyddi ychwanegol ar y lefel hon. Hyd yn oed lle mae ymrwymiad i gynllunwyr hyfforddeion yn bodoli, mae pwysau cyllidebol dros gyfnod hir yn cyfyngu ar gapasiti. Mae'r penderfyniad diweddar i gynyddu ffioedd ceisiadau cynllunio yn cyflwyno ateb pendant iawn yma, gyda Phenaethiaid Cynllunio yn debygol o sicrhau incwm ychwanegol y mae angen ei ailfuddsoddi mewn gwelliannau i'r gwasanaeth cynllunio.
- 9.36. Tynnodd sefydliadau sylw hefyd at faterion ymarferol, gan gynnwys y lefel uchel o gefnogaeth a goruchwyliaeth sydd ei hangen ar gynllunwyr hyfforddeion, sy'n ymestyn adnoddau staff presennol. Ar ben hynny, mae pryder y gallai buddsoddiad sylweddol o amser ac arian mewn hyfforddiant gael ei golli os bydd hyfforddeion yn gadael yn fuan ar ôl cymhwyso.
- 9.37. Mewn rhai ardaloedd mae heriau recriwtio yn gwaethygu'r problemau hyn. Dywedodd rhai ACLlau eu bod yn cael trafferth denu ymgeiswyr addas er gwaethaf ymdrechion drwy Lwybrau i Gynllunio. Mae pryder bod diffyg ymwybyddiaeth neu ddiddordeb mewn cynllunio fel proffesiwn, yn enwedig yn y sector cyhoeddus. Cydnabyddir anghenion penodol, fel recriwtio cynllunwyr sy'n siarad Cymraeg, ac mae angen ehangu llwybrau hyfforddeion i ateb y galw lleol. At ei gilydd, mae barn gyffredin bod

y proffesiwn mewn perygl o wynebu prinder capasiti a bylchau sgiliau dyfnach yn y dyfodol heb fuddsoddiad sylweddol yn y maes hwn.

“Hoffwn gynnig lleoliadau ychwanegol sydd am 12-24 mis gan roi cyfle i'r myfyrwr ennill profiad mewn gwahanol rannau o'r adran gynllunio, er mwyn i hyn fod yn effeithiol dylai pob swydd fod o leiaf chwech i wyth mis o hyd, er enghraifft profiad mewn Rheoli Datblygu a Pholisi. Lleoliadau arbenigol ychwanegol ar gyfer sgiliau fel ecoleg, tirwedd, treftadaeth llifogydd ac ati. Fodd bynnag, gyda chyfyngiadau cyllidebol ychwanegol sy'n annhebygol o wella, nid yw hwn yn opsiwn hyfyw. Heb y buddsoddiad yn y genhedlaeth nesaf o gynllunwyr, byddwn yn teimlo cost lawn hyn yn gynt na'r disgwyl.”
(Ymatebydd ACLI)

10. Gwasanaeth cynllunio effeithiol: casgliadau ac argymhellion

- 10.1. Mae'r adroddiad hwn yn darparu sylfaen dystiolaeth mewn perthynas â chyllidebau gwasanaethau cynllunio, y gweithlu, a sgiliau a chapasiti o fewn ACLlau, PCAC, swyddogaeth gynllunio CNC ac Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru. Mae ein canfyddiadau'n tynnu sylw at sector sydd wedi gweithredu dan straen sylweddol am gyfnod hir ac sy'n parhau i wynebu heriau. Oni bai bod ganddi adnoddau digonol, ni all system gynllunio Cymru gyflawni ei llawn botensial a chyflawni amcanion y Llywodraeth. Mae'r heriau'n ddeublyg: gwrthdroi toriadau blaenorol, ac edrych ymlaen yn seiliedig ar broffil oedran y proffesiwn.
- 10.2. Mae'r adroddiad hwn yn gorffen gyda saith argymhelliad sy'n deillio o'r dystiolaeth. Nid oedd cwrpas yr ymchwiliad hwn yn cynnwys trafod na phrofi syniadau a chynigion y tu allan i'r sefydliadau sector cyhoeddus sy'n rhan o'r ymchwiliad hwn. Felly, rydym yn argymhell seinfwrdd i drafod ymarferoldeb ac effeithiau gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn (argymhelliad 1).
- 10.3. Mae'r dystiolaeth yn yr adroddiad hwn yn datgelu cefndir o doriadau sylweddol ers 2008, gyda chyllidebau'r sector cyhoeddus wedi'u lleihau ledled Cymru gyfan. Rhwng

blynyddoedd ariannol mis Ebrill 2008 a mis Ebrill 2023, gostyngodd cyllidebau ACLlau 43% mewn termau real. Lleihaodd maint timau cynllunio yn unol â hynny. Ar yr un pryd, mae cymhlethdod a lled ystyriaethau cynllunio wedi cynyddu. Mae hyn wedi effeithio ar sgiliau a chapasiti, morâl a darparu gwasanaethau.

- 10.4. Rhwng mis Ebrill 2018 a mis Ebrill 2024, dangoswyd 46 o swyddi swyddogion cynllunio ychwanegol ar strwythurau tîm. Fodd bynnag, ar adeg ymateb i'n harolwg (Mai 2025), nodwyd bod 37 o swyddi swyddogion cynllunio yn wag ym mis Mai 2025, ynghyd â chwe swydd arbenigol a phum swydd cymorth busnes. At ei gilydd, roedd 73% o ACLlau yn gweithredu gydag un neu fwy o swyddi gwag o fewn eu gwasanaeth cynllunio. Nododd 11 o ACLlau nifer o swyddi gwag, gyda rhai yn nodi cynifer â phum swydd wag. O ganlyniad, ychydig iawn o welliant gwirioneddol a fu yn lefelau adnoddau mewn ACLlau.
- 10.5. Ers mis Ebrill 2025, gostyngodd maint Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru o 60 o swyddogion i 41 o swyddogion yn 2018, i 33 o swyddogion yn 2024. Mae hyn wedi cael effaith amlwg ar allu'r Is-adran Gynllunio i ddarparu diweddariadau polisi cenedlaethol amserol a chadarn neu ddarparu arweinyddiaeth ehangach, er enghraifft drwy fonitro perfformiad ac ysgogi gwelliant. Dim ond yn ystod y misoedd diwethaf y cymerwyd camau i ddechrau gwrthdroi rhai o'r toriadau hyn drwy recriwtio cynllunwyr sydd eu hangen yn ddifrifawr.
- 10.6. Yn yr un modd, mae CNC wedi wynebu cyfnod o bwysau ariannol a llwythi gwaith cynyddol sydd bellach yn dechrau cael sylw yn rhannol gyda chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.
- 10.7. Mae PCAC yn parhau i recriwtio Arolygwyr ychwanegol i ddelio â llwyth achosion cynyddol gymhleth o brosiectau seilwaith ac archwiliadau CDLLau. Bydd cynnydd ar CDSau a'r grwpiau rhanbarthol sy'n deillio o hynny o CDLLau 'ysgafn' newydd yn gofyn am adnoddau ychwanegol sylweddol.
- 10.8. Ym mis Hydref 2025, pasiodd Senedd Cymru reoliadau yn cynyddu ffioedd ceisiadau cynllunio o 01 Rhagfyr 2025. Dyma gam cyntaf ond arwyddocaol tuag at adennill costau llawn ar gyfer gwasanaethau rheoli datblygu, gan roi hwb i incwm sydd ei

angen yn ddirfawr. Roedd [ymateb RTPI Cymru](#) i'r cynigion hyn yn adlewyrchu cefnogaeth ein haelodau sector preifat i'r cynnydd mewn ffioedd ar yr amod bod yr incwm ffioedd ychwanegol yn cael ei ailfuddsoddi mewn gwasanaethau cynllunio sydd â gwell adnoddau ac felly'n darparu gwasanaethau'n well. Er y croesewir y ddau gyhoeddiad, ni fyddant yn ddigonol i fynd i'r afael â'r heriau.

- 10.9. Mae angen arweinyddiaeth gref gan Benaethiaid Cynllunio, Prif Swyddogion Cyllid, Prif Weithredwyr a gwleidyddion: **rhaidd** ailfuddsoddi'r incwm ychwanegol sy'n deillio o gynydd mewn ffioedd ceisiadau cynllunio mewn gwasanaethau cynllunio er mwyn gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau a chyflawni'r canlyniadau y mae eu hangen ar ein cymunedau: cartrefi, swyddi, mannau gwyrdd a seilwaith yn amserol sy'n rhoi sicrwydd a hyder i fuddsoddwyr. Dylai'r buddsoddiad hwn mewn timau cynllunio gynnwys y gwasanaeth cynllunio ehangach gan gynnwys llunio cynlluniau, rheoli datblygu, gorfodi ac ymgylgoreion sy'n uniongyrchol gysylltiedig fel ecoleg a phriffyrdd. Nid yn unig y bydd hyn yn galluogi Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael â'r problemau sy'n effeithio ar eu cymunedau, ond mae hefyd yn foesol gywir bod y cwsmer yn derbyn gwasanaeth gwell os yw'n talu ffi ymgeisio llawer uwch.
- 10.10. Mae toriadau i'r gyllideb, darparu gwasanaethau, sgiliau'r gweithlu, capasiti a hyfforddiant yn gysylltiedig yn annatod a rhaid eu hystyried gyda'i gilydd fel rhan o gynllun tymor hwy i sicrhau y gall y proffesiwn cynllunio gyflawni uchelgeisiau ac amcanion i'w llawn botensial.
- 10.11. Adroddodd cyfweleion ACLlau nad oes ganddynt y gallu i ganolbwyntio ar uchelgeisiau gwasanaeth cynllunio na nodau strategol Felly, rydym yn argymhell y dylid creu Gwasanaeth Gwella Cynllunio i ddatblygu a hyrwyddo arfer gorau ac effeithlonrwydd, cefnogi adolygiadau gan gymheiriaid a monitro perfformiad, gwasanaethu fel canolfan wybodaeth ganolog ar gyfer y proffesiwn, a chefnogi arloesedd a cydwasanaethau lle bo'n briodol (argymhelliad 2). Er mwyn sicrhau gwydnwch a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol, mae angen gwneud rhagor o waith i gytuno ar ddiffiniad o faint y gwasanaeth cynllunio y mae adennill costau llawn yn berthnasol iddo (argymhelliad 3).

- 10.12. Mae Argymhelliad 4 yn ceisio ymrwymiad i fonitro capasiti'r gwasanaeth cynllunio (niferoedd staffio, nifer y swyddi gwag, ac arolwg sgiliau) yn rheolaidd, incwm ffioedd fel cyfran o gostau'r gwasanaeth rheoli datblygu, perfformiad a sut y defnyddiwyd yr incwm ffioedd cynyddol ers mis Rhagfyr 2025 i wella'r gwasanaethau a ddarperir. Dylai'r gwaith monitro hwn ddefnyddio'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn fel llinell sylfaen, i gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a gwydnwch yn y tymor hir fel estyniad i'r fframwaith perfformiad cynllunio cenedlaethol a ailgychwynnwyd yn ddiweddar.
- 10.13. Mae canfyddiadau'r ymchwil hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod angen buddsoddiad ariannol sylweddol ar frys ar y system gynllunio er mwyn iddi weithredu'n effeithiol. Mae angen i'r buddsoddiad hwn ymestyn y tu hwnt i swyddogion cynllunio i gynnwys y rolau cefnogol ehangach fel ecolegwyr a swyddogion priffyrdd. Mae prinder gweithlu yn effeithio ar berfformiad, gan roi straen ar staff presennol a lleihau gwydnwch ledled y system. Ni all cynllunio weithredu ar ei ben ei hun, a heb wasanaethau sydd ag adnoddau da yn gweithio ochr yn ochr â hi, ni fydd y system gyfan yn cyrraedd ei llawn botensial. Mae gan offer cynllunio digidol, lle bo'n foesegol ac yn briodol, y potensial i ryddhau cynllunwyr i gynllunio, ond rhaid iddynt gael eu hymgorffori yng nghanol y system gynllunio, wedi'u llywio gan anghenion cynllunwyr a defnyddwyr a'u cefnogi ag arweinyddiaeth a chydlynad cryf. Mae angen dybryd i gynyddu niferoedd staffio ar draws yr ystod lawn o rolau o fewn timau cynllunio, ymgynghorwyr arbenigol fel ecolegwyr a swyddogion priffyrdd, yn ogystal â CNC, PCAC ac Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru, o lefel mynediad hyd at swyddi arweinyddiaeth.
- 10.14. Yn y tymor byr, dylai llenwi swyddi gwag fod yn flaenoriaeth. Yng Ngwanwyn 2025, roedd yr ymchwil hon wedi cofnodi 37 o swyddi swyddog cynllunio gwag (ar draws rheoli datblygu, polisi cynllunio a gorfodi), chwe swydd arbenigol wag a phum swydd cymorth busnes wag ar draws yr ACLlau a ymatebodd.
- 10.15. Mae'r ddau Gytundeb Cyflawni CJC cyntaf ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac Uchelgais Gogledd Cymru yn nodi'r angen am chwe chynlluniwr fesul CJC. Gan dybio bod hyn yn cael ei efelychu ar gyfer De-orllewin Cymru a Chanolbarth Cymru, mae hyn yn golygu y bydd angen 24 o gynllunwyr strategol yn ystod dau gam cyntaf

y broses recriwtio. Mae'r Cytundebau Cyflenwi cyhoeddedig yn dangos y gallai hyn gynyddu i wyth fesul CJC ynghyd â graddedigion a chymorth gweinyddol yn y tymor hwy.

- 10.16. Bydd angen y gweithlu ychwanegol hwn o leiaf i ddechrau tra bod Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol newydd yn cael eu datblygu ar y cyd i osgoi gwagle polisi. Ar ôl eu mabwysiadu, mae angen Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) a monitro blynyddol ar Gynlluniau Datblygu Lleol. Erbyn 2035 dylai fod sylw cyflawn i CDSau a CDLlau 'ysgafn'. Dylai hyn gyflwyno rhywfaint o effeithlonrwydd drwy rannu sylfaen dystiolaeth. Fodd bynnag, mae timau CDLlau ledled Cymru eisoes yn fach, ac yn y dyfodol bydd CDSau a CDLlau 'ysgafn' yn parhau i fod angen monitro blynyddol a Chanllawiau Cynllunio Atodol.
- 10.17. Yn y tymor byr, mae 17% o gynllunwyr y sector cyhoeddus (ac eithrio Cyfoeth Naturiol Cymru) yn 55+ oed ac felly mae'n debygol y byddant yn ymddeol o fewn 5 i 10 mlynedd. Mae hyn yn cyfateb i 95 o gynllunwyr.
- 10.18. Yn y cyfamser, dim ond 8% o'r gweithlu a arolygwyd (ac eithrio CNC) sydd rhwng 16 a 24 oed a 16% rhwng 25 a 34 oed, sy'n llawer is na'r garfan oedran rhwng 35 a 44 oed y bydd angen iddynt eu disodli dros amser (35%).
- 10.19. Mae canran sylweddol o 42% o weithlu cynllunio'r sector cyhoeddus (ac eithrio CNC) yn 45+ oed (234 o gynllunwyr). Oni bai bod y golled bosibl hon yn cael ei datrys drwy strategaeth recriwtio a chadw strategol gyda chyllid priodol, bydd effaith sylweddol ar ddarparu gwasanaethau yn y tymor canolig.
- 10.20. At ei gilydd, yr angen recriwtio tymor byr yw 161 o gynllunwyr ychwanegol, 15 o swyddogion arbenigol a phum swyddog cymorth busnes. Yn syml, mae hyn i fynd i'r afael â swyddi gwag ACLlau hysbys (ym mis Mai 2025) (37 o gynllunwyr), anghenion CDS (24 o gynllunwyr), capasiti PCAC ar gyfer CDS, LDP a gwaith seilwaith (5 o arolygwyr cynllunio) ac ymddeoliad sydd ar ddod (95 o gynllunwyr gan gynnwys arolygwyr cynllunio), ynghyd â 15 o swyddogion arbenigol (chwe swydd wag hysbys yn yr awdurdod lleol a naw swydd wag yn CNC ym mis Mai 2025). Nid yw hyn yn caniatáu gwrthdroi'r toriadau dwfn ac anghynnaladwy o dros ddegawd o gyny.

- 10.21. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, dylid sefydlu strategaeth recriwtio a chadw gynhwysfawr ar gyfer cynllunio yng Nghymru gan edrych ar bob llwybr i dyfu'r llinell o gynllunwyr, gan hyrwyddo gwerth unigryw a manteision allweddol cynllunio fel gyrfa yng Nghymru.. Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad ariannol sylweddol ac ymrwymiad gan bob plaid er mwyn sicrhau'r cynnydd hanfodol mewn lefelau adnoddau, gan gynnwys ymrwymiad gan ACLlau i ailfuddsoddi'r incwm ychwanegol o ffioedd ymgeisio sy'n deillio o gynnydd ffioedd Rhagfyr 2025 (argymhelliad 5).
- 10.22. Ochr yn ochr â recriwtio, mae angen hefyd am fentrau uwchsgilio wedi'u targedu i gefnogi galluogrwydd, annog datblygiad gyrfa a sicrhau bod staff yn barod i ddiwallu gofynion sy'n esblygu. Bydd adeiladu gweithlu cryfach yn hanfodol i wydnwch yn y dyfodol. Mae arweinyddiaeth yn hanfodol i gyflawni ac mae gan ACLlau, Is-adran Gynllunio LIC, CNC a PCAC i gyd rôl i'w chwarae, boed hyn drwy wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gyflwynir gan dechnoleg ddigidol lle mae'n foesebol ac yn briodol, neu drwy arwain trawsnewid darparu gwasanaethau gyda mwy o gydweithio wrth ddatblygu a gweithredu polisi a chanllawiau. Mae arweinyddiaeth gref a gweladwy gan Is-adran Gynllunio LIC a Phenaethiaid Cynllunio yn hanfodol i gefnogi'r proffesiwn cynllunio. Fodd bynnag, mae arweinyddiaeth yn gofyn am dimau gwydn sydd â'r adnoddau priodol.
- 10.23. Yn seiliedig ar ein canfyddiadau, mae argymhelliad 6 yn nodi meysydd pwnc y dylid eu harchwilio ymhellach i'w cyflawni ar ardal fwy na'r ardal leol. Mae Argymhelliad 7 yn ymwneud â'r potensial ar gyfer defnyddio offer cynllunio digidol gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, lle bo'n foesebol ac yn briodol, i ryddhau cynllunwyr i gynllunio, gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, a defnyddio barn ac arbenigedd dynol ar sail gwerthoedd.
- 10.24. Er gwaethaf yr heriau a nodwyd drwy'r gwaith hwn, mae ymrwymiad, penderfyniad a dyfalbarhad llawer o unigolion allweddol wedi bod yn amlwg. Fodd bynnag, nid yw gweithredu gan un sefydliad sy'n arwain at brosiectau ar wahân tymor byr yn ddigon i sicrhau gwydnwch hirdymor na chreu system gynllunio effeithiol. Mae cyflawni hyn yn gofyn am gefnogaeth ac arweinyddiaeth hirdymor gydlynol a strwythuredig. Gallai

sefydlu corff pwrpasol i hyrwyddo gwella cynllunio ddarparu'r cydgysylltu a'r ffocws sydd eu hangen i gefnogi system gynllunio effeithiol a gwydn.

10.25. Er bod y ffigurau a'r data a nodir yn yr adroddiad hwn yn rhoi darlun manwl o'r pwysau parhaus sydd ar y system gynllunio a'r rhai sy'n ei chyflawni, yr hyn nad yw'r ffigurau'n ei adlewyrchu yw'r budd a'r gwerth y mae'r system gynllunio'n eu darparu. Mae'r ymchwil hwn yn tanlinellu pwysigrwydd cydnabod gwerth sicrhau bod cynllunio'n cael ei ddeall, ei flaenoriaethu a'i ariannu'n iawn fel gwasanaeth cyhoeddus hanfodol. Mae hyn yn cynnwys cydnabod cynllunio fel mecanwaith osgoi costau: drwy sicrhau bod tai fforddiadwy yn cael eu darparu'n amserol, mae costau llety dros dro sy'n codi'n gyflym yn cael eu hosgoi. Gan alluogi twf cynaliadwy aneddiadau gwledig, mae amwynderau'n parhau i fod yn hyfyw a gall cymunedau sy'n gytbwys o ran oedran gefnogi ei gilydd, gan leihau'r angen am rai ymyriadau gwasanaethau cymdeithasol lefel isel. Dim ond gyda buddsoddiad cynaliadwy a thargedig y gall cynllunio gyflawni ei llawn botensial.

10.26. Oni roddir sylw i'r mater, bydd methu â chynllunio adnoddau priodol ar gyfer gwasanaethau yn arwain at gostau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i gymdeithas.

“Nid y system gynllunio sydd ar fai, gwraidd y broblem yw'r tanariannu cronig, y diffyg adnoddau a'r diffyg buddsoddiad sydd angen sylw ar unwaith. Mae angen mynd i'r afael â'r mater sylfaenol hwn fel cam cyntaf. Os gwneir hyn yn iawn bydd gan gynllunio yng Nghymru ddyfodol disglair.” (Ymatebydd ACLI)

11. Argymhellion

Argymhelliad 1: Sefydlu seinfwrdd

O ganlyniad i'w natur gydgysylltiedig, mae'n hanfodol bod effaith gweithredu'r argymhellion arfaethedig neu atebion eraill ar y darlun ehangach yn cael ei deall yn llawn. Nid oedd cwmpas yr ymchwil hwn yn cynnwys trafod na phrofi syniadau a chynigion y tu allan i'r sefydliadau sector cyhoeddus sy'n rhan o'r ymchwil hwn. Felly, rydym yn argymhell seinfwrdd i drafod ymarferoldeb ac effaith gweithredu'r

argymhellion yn yr adroddiad hwn. Dylai'r seinfwrdd gynnwys Fforwm Cynllunio RTPI Cymru (sy'n cynnwys cynrychiolaeth o ysgol gynllunio Prifysgol Caerdydd, PCAC, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW), RTPI Cymru, Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru ac Adran Gynllunio LIC) gyda gwahoddiadau ychwanegol i gynrychiolwyr o Gyd-bwyllgorau Corfforedig (CJCs), CNC a CLILC.

Dylai RTPI Cymru fod yn gyfrifol am ddatblygu'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 2: Sefydlu Gwasanaeth Gwella Cynllunio i Gymru

Gwasanaeth Gwella Cynllunio tebyg i'r gwasanaeth gwella llywodraeth leol annibynnol a sefydlwyd yn yr Alban (gweler Atodiad 7). Byddai'n cael ei arwain gan Hyrwyddwr Gwella Cynllunio annibynnol newydd ei greu a byddai'n:

- Datblygu a hyrwyddo arfer gorau ac effeithlonrwydd;
- Cefnogi adolygiad gan gymheiriaid a monitro perfformiad;
- Gwasanaethu fel canolfan wybodaeth ganolog ar gyfer y proffesiwn;
- Cefnogi arloesi a chydwasanaethau lle bo'n briodol.

Dylai Is-adran Cynllunio LIC fod yn gyfrifol am ddatblygu'r argymhelliad hwn. Gallai'r gwasanaeth hwn gael ei gynnal gan CLILC ond bydd angen darparu adnoddau ychwanegol.

Argymhelliad 3: Diffinio'r gwasanaeth cynllunio

Mae angen diffiniad clir, y cytunwyd arno ynghylch gwasanaethau cynllunio, gan egluro pa agweddau ar ddarparu gwasanaethau cynllunio sydd o fewn cwrpas i adennill costau llawn a pha agweddau ddylai barhau i gael eu hariannu'n ganolog gan wasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn hanfodol os ydym am fynd i'r afael yn briodol ag adnoddau a chapasiti o fewn gwasanaethau cynllunio. Gallai hyn hefyd ddarparu sylfaen ar gyfer fframweithiau perfformiad yn y dyfodol, gan ei gwneud hi'n bosibl mesur canlyniadau ac effaith yn fwy cywir, nodi meysydd i'w gwella a dangos gwerth. Heb ddiffiniad clir, rydym mewn perygl o ddata anghyson o ganlyniad i ddulliau a chyd-destunau amrywiol ledled Cymru.

Dylai Is-adran Cynllunio LIC a POSW fod yn gyfrifol am ddatblygu'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 4: Casglu a chyhoeddi data cynllunio o ansawdd

Ymrwymiad i fonitro capasiti'r gwasanaeth cynllunio yn rheolaidd (niferoedd staffio, nifer y swyddi gwag, ac arolwg sgiliau) gan ddefnyddio'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn fel llinell sylfaen, fel estyniad i'r fframwaith perfformiad cynllunio cenedlaethol a ailgychwynnwyd yn ddiweddar i gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a gwydnwch hirdymor. Dylai hyn gynnwys adrodd ar incwm ffioedd fel cyfran o gostau gwasanaeth rheoli datblygu, swm yr incwm ffioedd cynllunio ychwanegol ers mis Rhagfyr 2025 a sut mae'r incwm ffioedd ychwanegol hwn wedi'i ailfuddsoddi i wella'r gwasanaethau cynllunio a ddarperir. Bydd hyn yn datblygu sylfaen dystiolaeth gryfach a mwy manwl dros amser, gan gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a gwydnwch yn y tymor hir. Bydd hefyd yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd ynghylch sut mae incwm ffioedd ymgeisio cynyddol yn cael ei ailfuddsoddi. Dylid adrodd ar y data hwn yn flynyddol ac mewn fformat digidol hygrych. Mae'n hanfodol bod pob plaid yn cyflwyno'r data perthnasol os ydym am fesur iechyd parhaus y gwasanaeth cynllunio yn gywir.

Dylai Is-adran Cynllunio LIC a'r ACLlau fod yn gyfrifol am ddatblygu'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 5: Datblygu strategaeth recriwtio a chadw staff

Dylid sefydlu strategaeth recriwtio a chadw gynhwysfawr ar gyfer cynllunio yng Nghymru gan edrych ar bob llwybr i dyfu'r llinell o gynllunwyr, gan hyrwyddo gwerth unigryw a manteision allweddol cynllunio fel gyrfa yng Nghymru. Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad ariannol ac ymrwymiad sylweddol gan bob plaid er mwyn sicrhau'r cynnydd hanfodol yn lefelau adnoddau. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad gan ACLlau i ailfuddsoddi'r incwm ffioedd ymgeisio ychwanegol sy'n deillio o gynnydd ffioedd Rhagfyr 2025.

Dylai'r strategaeth recriwtio a chadw gynnwys:

- Gwaith allgymorth i ysgolion i godi ymwybyddiaeth o gynllunio fel gyrfa ac adolygiad o TGAU yr Amgylchedd Adeiledig i sicrhau bod cynllunio yn cael ei amlygu fel llwybr gyrfa;
- Cymorth i unig ysgol gynllunio Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd gan gynnwys drwy weithio mewn partneriaeth ar allgymorth, recriwtio, lleoliadau, cymorth i fentrau DPP ar gynllunio digidol a meysydd eraill o ddatblygu sgiliau;
- Creu llwybr prentisiaeth Lefel 7 ar hyd llinellau'r cynllun llwyddiannus sy'n gweithredu yn Lloegr (heb fwlb oedran), i ategu'r cynllun Llwybrau at Gynllunio;
- Cefnogi cyfleoedd ar gyfer trawsnewid i gynllunio yng nghanol gyrfa drwy wasanaethau fel Ymarfer Cyhoeddus.

Dylai CLILC fod yn gyfrifol am ddatblygu'r argymhelliad hwn mewn partneriaeth ag ysgol gynllunio Prifysgol Caerdydd, Awdurdodau Cynllunio Lleol a CJC's, CNC, PCAC, RTPI Cymru, Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru a LIC.

Argymhelliad 6: Cydwasanaethau

Canfu'r ymchwili enghreifftiau llwyddiannus o sgiliau a rennir yn gweithredu ar draws ACLlau yng Nghymru. Mae'r gwasanaethau hyn wedi datblygu lle bo angen a chapasiti ar gyfer y gwasanaeth. I symud ymlaen, rhaid nodi'r cysyniad o gydwasanaethau drwy opsiynau clir ac wedi'u costio'n llawn sy'n nodi gofynion gan gynnwys capasiti. Heb y wybodaeth hon bydd cwestiynau'n parhau a gellir colli cyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd a chydweithio. Gallai gwasanaethau cychwynnol gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Gwasanaeth asesu ac adolygu hyfywedd ledled Cymru. Bydd hyn yn cefnogi gwneud penderfyniadau cadarn gan ddefnyddio pecyn cymorth hyfywedd newydd Cymru gyfan, gan ddarparu arbenigedd a gwydnwch ar bwnc y mae cynllunwyr y sector cyhoeddus yn dweud eu bod yn teimlo nad oes ganddynt arbenigedd ynddo;
- Arweinyddiaeth ledled Cymru ar gynllunio digidol i archwilio a chyflwyno technoleg newydd a gwella sgiliau cynllunwyr, gan sicrhau arbedion maint posibl,

darparu gwydnwch, gwneud y defnydd gorau o arbenigedd a darparu cysondeb ledled Cymru;

- Arbenigedd ledled Cymru ar asesu cydymffurfiaeth â pholisïau carbon isel a sero net, ac i sefydlu polisïau neu newidiadau i Reoliadau Adeiladu ledled Cymru;
- Arbenigedd ôl troed CJC ar brosiectau seilwaith mawr er mwyn helpu gydag Adroddiadau Effaith Lleol ar gyfer SIPs, yn ogystal ag ar ecoleg, tirwedd, gwasanaethau cyfreithiol, a thrafnidiaeth. Dylai'r elfen gwasanaethau cyfreithiol gynnwys archwilio'r potensial ar gyfer cytundebau Adran 106 safonol, arbenigedd ar orchmynion prynu gorfodol, a drafftio Hysbysiadau Gorfodi;
- Gwasanaethau rhanbarthol neu wasanaethau mwy na gwasanaethau lleol (is-ranbarthol) os oes angen ar gyfer treftadaeth ac SDCau;
- Niwtraliaeth maetholion/Byrddau Rheoli Maetholion ar sail dalgylch afon neu ACA forol.

Dylai ACLlau a CJC's fod yn gyfrifol am ddatblygu'r argymhelliad hwn gyda chefnogaeth gan CLILC a CNC.

Argymhelliad 7: Cynllunio Digidol

Mae gan ddefnyddio offer cynllunio digidol gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, lle bo'n foesegol ac yn briodol, y potensial i ryddhau cynllunwyr i gynllunio, gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, a defnyddio barn ac arbenigedd dynol ar sail gwerthoedd. Rhaid ei ymgorffori yng nghanol y system gynllunio yng Nghymru, yn hytrach na'i ystyried fel elfen atodol o ddarparu gwasanaethau. Dylid ei flaenoriaethu a'i gydlynw a dylai gael ei lywio gan anghenion cynllunwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Bydd hyn yn gofyn am arweinyddiaeth a chydweithrediad cryf.

Dylai LIC (a fydd o fis Ebrill 2026 yn ymgorffori'r Ganolfan ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol), RTPi Cymru, CLILC a Phrifysgol Caerdydd fod yn gyfrifol am ddatblygu'r argymhelliad hwn.

Atodiad 1: Ffynonellau data

Ffynonellau data cenedlaethol

Stats Cymru

Darparodd llwyfan Stats Cymru ddata cyllidebol cenedlaethol a data cyllidebol ar draws yr awdurdod i lywio'r gwaith hwn. <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue>

Data RTPI

Cyflwr y Proffesiwn RTPI 2023: Proffesiwn cynllunio'r DU mewn niferoedd

Cyhoeddwyd adroddiad Cyflwr y Proffesiwn RTPI ym mis Tachwedd 2023. Ei ffocws yw'r proffesiwn cynllunio yn y DU ac mae'n defnyddio system dosbarthu galwedigaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) 2010 i nodi Swyddogion Cynllunio Tref.

“The purpose of this document is to provide an up-to-date, rigorous overview of the available evidence on the state of the UK planning profession (in the four nations of England, Scotland, Wales and Northern Ireland). This includes demography, geography, employment relations, comparison to other built environment professions, education of future planners, and the size and international context of the RTPI as chartered membership organisation...It seeks to achieve this by collecting and synthesising the best available national and institutional data sources on its objects, while presenting this process through a transparent discussion of methodology and limitations.” A wide variety of data sources are used in the report, further information on data sources and their limitations are referred to the report.”

Adroddiad Cyflwr y Proffesiwn RTPI Cymru 2025

Gan ddefnyddio arolwg o aelodau gweithredol y RTPI, mae'r adroddiad yn rhoi cipolwg ar brofiadau gyrfa, cynlluniau gyrfa, llesiant a demograffeg aelodau sy'n ymateb yng Nghymru.

Addysg ac Aelodaeth RTPI

Darparodd adrannau Addysg ac Aelodaeth RTPI yr adroddiad hwn ynghyd â'u dadansoddiad a'u data annibynnol ar brentisiaethau a bwrsariaethau yng Nghymru, ac ar nifer y myfyrwyr cynllunio sy'n astudio mewn Prifysgolion achrededig RTPI dethol. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chymeradwyo i'w defnyddio gan yr ysgolion cynllunio perthnasol.

Data trydydd parti

Ymatebion i'r arolwg a chyfweliadau â chyfranogwyr gyda chynrychiolwyr o'r pedwar sefydliad pwnc (ACLLau, PCAC, gwasanaeth cynllunio CNC ac Is-adran Gynllunio LIC).

Ymatebion i'r arolwg a data gan ysgolion cynllunio achrededig RTPI yng Nghymru/agosaf at Gymru.

Hysbysebion swyddi rhwng mis Medi 2022 a mis Mawrth 2025 wedi'u cymryd o The Planner Jobs ([Bwrdd swyddi'r RTPI](#)), LinkedIn ac ymatebion yr arolwg a gwefannau'r pedwar sefydliad dan sylw, ynghyd â chymhariaeth â data o [Sector Cyhoeddus Carrington West – Arolwg Cyflogau Blynnyddol](#).

Atodiad 2a Arolwg Llywodraeth Cymru

1. Enw
2. Beth oedd cyllideb gros a net Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru yn 2018/19?
3. Beth oedd cyllideb gros a net Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru yn 2023/24?
4. Y tu hwnt i gyllideb Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru, oes gennych unrhyw ffynonellau incwm eraill?
